ECO'R WYDDFA

Rhif 153 Rhagfyr 1989 20c

YMATEB DA IEUENCTID Y FRO I BLANT MEWN ANGEN



Dydd Gwener, Tachwedd 17, sef diwrnod y casglu mawr ar gyfer Plant Mewn Angen, ymatebodd ieuenctid bro'r Eco, eleni mewn ffordd frwdfrydig iawn. Dyma luniau rhai o ddysgyblion Ysgol Brynrefail a aeth i ysbryd yr achlysur drwy gynnal a gwneud eu rhan mewn gweithgareddau codi arian hwyliog!

YMDDIHEURIAD

... i bobl Deiniolen yn bennaf. Yn anffodus nid oedd yn bosibl datblygu yr un o'r lluniau a dynnwyd yn yr eisteddfod. Roedd yn amlwg fod nam ar y ffilm.

EISTEDDFODAU'R ARDAL

Enillwyr prif wobrau llenyddol Eisteddfod Bentref Bethel. Sioned Owen (y tlws dan 18) a Dafydd Guto Ifan, enillydd y Gadair. Canlyniadau cyflawn a rhagor o luniau yng ngholofnau newyddion Bethel.

Enillydd Cadair eisteddfod Ysgol Brynrefail, Nia Wyn Hughes o Gwm-y-glo.

A dyma Nia arall, Nia Griffith o Lanrug, enillydd cyntaf Tlws Emma Bernard am berfformiad adrodd gorau'r Eisteddfod Ysgol.

PONT Y PARC

Cychwyn siwrnai'r bont – ei llwytho ar lori yng Nghaernarfon.

Ychydig oriau yn ddiweddarach, y bont yn ei lle ym Mharc Padarn. Y Stori'n llawn ar dudalen 3.

ECO'R WYDDFA

RHIF 153
RHAGFYR 1989

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd Cibyn, Caernarfon

Cyhoeddwyd gyda chymorth Cymdeithas Gelfyddydau Gogledd Cymru

SWYDDOGION A GOHEBWYR

GOLYGYDD NEWYDDION CYFFREDINOL: Twrog Jones, Pros Kairon, Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4051)

GOLYGYDD ERTHYGLAU: Dafydd Whiteside Thomas, Bron-y-Nant, Pontrhythallt, Llanrug (C'fon 3515)

GOLYGYDD NEWYDDION PENTREFI: Nant Roberts, Arwel, Pontrhythallt (870760)

GOLYGYDD CHWARAEON: Dafydd Evans, Sycharth, Penisarwaun (Llanberis 872407)

ECO'R IFANC: Mrs Nan Humphreys, Pant Bryngwyn, Tanycoed (C'fon 5668)

DYDDIADUR Y MIS: Mrs Olwen Llywelyn, Pant Afon Bach, Llanrug (Waunfawr 200)

FFOTOGRAFFWYR: Gwyndaf Jones, 60 Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4669)
Gwyndaf Hughes, Glasgoed, Llanrug (C'fon 77263)

TREFNYDD HYSBYSEBION: John Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug (C'fon 5605)

TREFNYDD GWERTHIANT: Arwyn Roberts, Hafle, Ffordd yr Orsaf, Llanrug (C'fon 5510)

TREFNYDD ARIANNOL: Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug (C'fon 4839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST: Mrs E Whiteside Thomas, Dolwar, Llanrug (C'fon 4778)

GOHEBWYR PENTREFI: Dyma'r bobl i gysylltu â nhw yn eich ardaloedd.

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran, (Portdinorwig 670726)

BRYNREFAIL: Miss Lowri Prys Roberts, Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Mrs Beryl Roberts, Gerallt, Erw Wen (C'fon 3536)

CEUNANT: Gwenno Parri, Morwel (Waunfawr 321)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands, Glanrafon (Llanberis 872275)

DEINIOLEN: W O Williams, 6 Rhydfadog, Deiniolen (Llanberis 871259)

DINORWIG: Mr D J Thomas, 8 Maes Eilian (870773)

LLANBERIS: Iola Sellers, 13 Dôl Elidir (871043)

LLANRUG: Mrs Dyfi Jones, Tyddyn Rhuddallt (Caernarfon 76733)

NANT PERIS: Mrs Ann Pleming, Dolwen, 8 Nant Ffynnon (871457)

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans, Sycharth (Llanberis 872407)

TAN-Y-COED: Miss Bethan Parry, Ael y Bryn. (872 276)

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts, Pantafon, Waunfawr (Waunfawr 570).

Y RHIFYN NESAF
Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg
NOS IAU, RHAGFYR 14
Deunydd i law'r golygyddion perthnasol
NOS FAWRTH RHAGFYR 5
os gwelwch yn dda

LLYTHYRAU

APÊL PADARN

Annwyl Olygydd,

Fel y soniwyd yn y rhifyn diwethaf o'r Eco, yr Ysgrifennydd Gwladol fydd yn penderfynu yn awr os yw safle Glyn Rhonwy i'w ddatblygu ar y llinellau a fwriedir gan Gwmni Leading Leisure o Southampton. Canlyniad hyn yw bod angen i bawb yn ddiwahan i fynd ati yn ddiymdroi i anfon llythyrau at yr Ysgrifennydd Gwladol (ei gyfeiriad yw Y Swyddfa Gymreig, Parc Cathays, Caerdydd CF1 3NQ) gan ddweud wrtho yn hollol glir a phendant nad ydym am weld pentre gwyliau anferth yn cael ei adeiladu ar bwys pentref Llanberis. Pan fyddwch yn anfon eich llythyrau cofiwch nodi eich rhesymau dros wrthwynebu. Os ydych yn perthyn i Gymdeithas neu Fudiad mynnwch bod llythyrau o wrthwynebiad yn cael eu hanfon ymlaen i'r Swyddfa Gymreig. Hoffai Padarn dderbyn copiau o'r llythyrau hyn fel ein bod yn cadw cofnod ohonynt.

Mae'n holl bwysig i ni roi ar ddeall i'r Ysgrifennydd Gwladol pa mor wrthwynebus yw y gymdeithas yn lleol yn erbyn y datblygiad dinistriol hwn. Mae pawb cyfrifol yn gwybod mai cam o'r mwyaf ym mhob ystyr y gair fyddai gweld y datblygiad yma cael ei ganiatau. Ni fyddai troi nol wedyn. Byddai'r difrod wedi ei wneud. Cofiwch bod y frwydr yn erbyn y datblygiad yma yn frwydr dros y Gymraeg a'i dyfodol fel iaith fyw yn y gymdogaeth hon. Dyna pa mor ddifrifol yr ystyriwn y frwydr hon a chyda gymaint yn y fantol nid yw yn ormod gofyn i bob un ohonom neilltuo prin bum munud i ysgrifennu llythyr a'i anfon ymlaen i'r Swyddfa Gymreig. Fe all fod yn un o'r llythyrau pwysicaf y bu i chwi ei ysgrifennu erioed ac yn un a all gael dylanwad pell gyrhaeddol o safbwynt dyfodol y gymdogaeth hon.

Llawer o ddiolch
Yn gywir iawn
Glyn Thomas (Cadeirydd PADARN).
Pen y Bwlch,
Dinorwig.

CYNGOR EGLWYSI RHYDDION CYMRU MEDALAU THOMAS GEE

Gwahoddir ceisiadau am y medalau uchod oddi wrth aelodau Ysgolion Sul Cymru sydd dros 80 oed. Yr unig amod yw y dylai'r ymgeisydd ddal i fynd i'r Ysgol Sul.

Byddwn yn penderfynu ar nifer y Medalau yn ôl oedran. Gwyddom fod nifer o ffyddloniaid yr Ysgol Sul nad ydynt bellach yn abl i fynychu'r Ysgol Sul, ac eraill, lle nad oes Ysgol Sul mwyach. Drwg gennym na fedrwn ystyried ceisiadau ar eu rhan, oherwydd y rheol uchod.

Dymunol fyddai i'r capel lleol anrhydeddu y cyfeillion hyn.

Rhaid anfon am y ffurflen gais yn ddioed, a'i dychwelyd erbyn RHAGFYR 30. i'r Parch J. Haines Davies, 'Goleugell', 24 Ffordd Cadwgan, Hen Golwyn. LL29 9PY.

Y BARDD O 'BARON HILL'

Annwyl Olygydd

Yn rhifyn Hydref roedd Mr Emyr Jones, Caernarfon, yn holi am Robert Jones, Baron Hill, Penisarwaun.

Yr ychydig a wyddaf i amdano oedd mai mab ydoedd i John a Mary Jones, ei fam yn ferch "Minffordd", Penisarwaun. Brodor o Lannor ger Pwllheli oedd ei dad, ac ef oedd perchennog y Ffatri Wlân yn Clwt-y-Bont.

Yn eiddoch yn gywir,
Helen Owen,
7, Bryn Hyfryd,
Penisarwaun.

CYMDEITHAS ADDYSG AMGYLCHFYD GWYNEDD

Nos Fawrth, Ionawr 9, am 7.00 cynhelir Fforwm Trafodaeth ar y testun Llygredd Arfordirol ym Mhlas Tanybwlch, Maentwrog.

Bydd cynrychiolwyr o fudiad 'Greenpeace' ac o Awdurdod Dŵr Cymru ar y panel. Pris mynediad yw £1. Caiff aelodau'r gymdeithas fyndiad am ddim.

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â Geraint George (Ysg.) Plas Tanybwlch, Maentwrog, Gwynedd. Ffôn: Maentwrog 324.

CHWAREL RHOSYDD A CHWAREL CROESOR

Annwyl Olygydd,

Dywedwyd wrthyf dro'n ôl bod nifer o ddynion o ardal Llanberis wedi bod yn gweithio yn chwareli'r Rhosydd a Chroesor, ger Blaenau Ffestiniog, yn ystod y 1950au. Roedd hyn beth amser wedi i'r ddwy chwarel gau yn swyddogol, ac yn ymateb mae'n debyg i'r galw am lechi yn ystod y blynyddoedd yn dilyn yr Ail Ryfel Byd. Wn i ddim os mai gweithio'r tomennydd fu eu hanes, neu os y buont yn gweithio dan ddaear yn y ddwy chwarel, yn ogystal. Tybed os oes rhai o ddarllenwyr **Eco'r Wyddfa** *yn cofio pwy fu'n gweithio yno. Os oes gennych unrhyw wybodaeth, neu atgofion, byddwn yn falch iawn i'w derbyn.*

Yn gywir,
Dafydd Roberts,
Amgueddfa'r Gogledd,
Llanberis. Ffôn; 870636

CYFLE I DDRAMODWYR

MAE'N bleser gan Gymdeithas Ddrama Cymru hysbysu ei Chystadleuaeth Cyfansoddi Drama Un act.

Mae'r gystadleuaeth flynyddol wedi newid ei hagwedd eleni. Oherwydd prinder difrifol dramâu un act i ferched, penderfynwyd y dylai'r gystadleuaeth ganolbwyntio ar geisio ateb yr angen yma.

Cyfansoddi Drama Un act i Gwmni o Ferched yn Unig yw'r gystadleuaeth eleni.

Mae Cymdeithas Ddrama Cymru, fel rhan o'i chynllun Ysgrifennu Newydd, yn barod i hybu cwmn'iau amatur i lwyfannu dramâu newydd. Yn ogystal a'r gwobrau o £100, £50 a £25 mae'r tebygrwydd i'r dramâu buddugol gael perfformiad, felly, yn uchel.

Dyddiad cau'r gystadleuaeth yw Ionawr 31 1990. Am ragor o fanylion cysylltwch â Chymdeithas Ddrama Cymru. Rhif Ffôn: 0222 343794.

CHIROPODIST
Gwasanaeth yn eich Cartref
E. Ll. Parry
M.S.S.Ch., M.B.Ch.A.
57 Glanffynnon
LLANRUG
Ffôn:
Caernarfon
5754

Nigel Hughes
FFOTOGRAFFYDD
Stiwdio'r Gest, Porthmadog
Tel: (0766) 513612
Lle delfrydol ar gyfer presant Nadolig!

ADUNIAD

Aduniad 25 mlynedd dosbarth pedwar Ysgol Brynrefail yng ngwesty Victoria, Llanberis, Hydref 27.

Y SAITH RHYFEDDOD

Band canu gwerin yw'r Saith Rhyfeddod, fydd yn teithio trwy'r ardal fel rhan o'u taith trwy Gymru yn ystod misoedd Mawrth ac Ebrill. Y mae'r band, sy'n rhan o gwmni celfyddydau o'r un enw, yn ceisio ail sefydlu safleoedd er mwyn perfformio sydd wedi'u hesgeuluso'n ddiweddar. Llefydd fel neuadd pentre, festri capel, ysguboriau neu unrhywle addas ar gyfer cyngerdd neu sioe. Bwriedir trefnu cyngherddau mewn trefi bychain, pentrefi a chymunedau gwasgaredig ochr yn ochr a trefi a dinasoedd.

Maent hefyd yn awyddus casglu a rhannu caneuon neu storiau lleol gyda pobol lleol mewn gweithdai cerddorol cyn y cyngherddau, neu wahodd pobol i berfformio gyda'r band yn y cyngerdd.

Nid yn unig trefniant y daith sy'n anghyffredin ond clywir seiniau anghyffredin fel pibcorn, sitern, ffidil, mandolin a chaneuon cyfarwydd ac anghyfarwydd. Yn ddiweddar mae'r band wedi bod yn hynod o lwyddiannus yn perfformio mor bell i ffwrdd a Palma Mallorca, Llydaw, yr Alban, ac mor agos a pentre bach ger Caerffili neu Gaerdydd.

Os hoffech drefnu noson lawen yn eich ardal neu gael rhagor o fanylion am y grŵp yma sy'n arbenigo yn yr anghyffredin, cysylltwch â nhw ar rif ffôn (0222) 226588 neu gwrandewch ar rhaglen 'Folk on Monday', Radio Wales yn gynnar ym mis Rhagfyr.

CARPEDI GLÂN!

Mynnwch driniaeth

STIMVAK

gyda'r offer mwyaf modern, diweddaraf, sydd ar gael. Am fanylion cysylltwch â

TEGID PRITCHARD

CANOLFAN CARPEDI WAUNFAWR 291

Hefyd ail-osod carpedi

A FO BEN BID BONT

Dr John Davies, Inigo Jones, Thomas Telford, George Stephenson. Llinach enwog o godwyr pontydd yng Ngwynedd. Yn awr ychwaneger Adran Gynllunio Cyngor Sir Gwynedd gyda chymorth Awdurdod Datblygu Cymru.

Lluniwyd pont ddiweddaraf y Sir yn ffatri McKenzie and Brown, Caernarfon. Mae'r bont droed ddur yn 50 troedfedd o hyd, a dydd Mawrth, Tachwedd 21, fe'i llwythwyd ar gefn lori gan graen anferth 45 tunnell i'w chludo i'w chartref ym Mharc Gwledig Padarn, Llanberis. Roedd y bont yn daclus yn ei lle erbyn amser cinio.

Medd y Cynghorydd Francis Jones, Llanberis, Cadeirydd Pwyllgor Parc Padarn, 'Mae Pont Parc Padarn yn bont hardd dros ben a fydd yn cwblhau'r llwybr a luniwyd gennym wrth lan y llyn yn y Gilfach Ddu. Mae'r bont fel gweddill y llwybr yn addas i bobl fethedig. Mae arni lwyfan diogel rhag llithro a rampiau'n arwain ati o'r ddwy ochr. Cyn yr haf nesaf bwriadwn lunio lle pysgota i'r methedig ar lan y llyn gerllaw'r bont.'

Ychwanega'r Cynghorydd Jones, 'Bydd y rhai sy'n pwyso ar ganllawiau llydan y bont yn medru gweld un o'r golygfeydd mwyaf ysblennydd yn Ewrop dros Lyn Padarn at Lanberis, Castell Dolbadarn a'r Wyddfa. Ar yr ochr arall gwelant Elidir a choedwig dderw Parc Gwledig Padarn. Ar ôl i ymwelwyr gael blas ar bwyso ar y bont mae milltiroedd o lwybrau'n aros i'w crwydro.'

Arolygwyd y gwaith ar y bont gan John Williams o Lanrug, Swyddog Prosiect yn Adran Gynllunio Cyngor Sir Gwynedd.

Medd John Wyn Williams: 'Yn ogystal â chwblhau'r bont mae dwy nodwedd newydd arall ym Mharc Padarn. Codwyd sied i storio a sychu'r canŵs a'r byrddau hwylio a ddefnyddia'r llyn dan drwydded oddi wrth y Cyngor Sir. Gyda grant gan Awdurdod Datblygu Cymru symudwyd y sied o hen orsaf Caernarfon, ei hailgodi, ei chryfhau a'i gorchuddio efo coed pwrpasol i gydfynd â'i lleoliad newydd.

'Mae'r lle troi'n ôl i fysus ger y maes parcio wedi ei ddatblygu'n ynys o lechi a chaban mochel hardd.'

Ar ôl ennill gwobr yr Ymddiriedolaeth Ddinesig i giatiau llechen a haearn y Parc, mae'r Cyngor Sir yn awyddus iawn i bob datblygiad adlewyrchu traddodiadau chwarel Dinorwig, ychwanegodd.

Llun: John Wyn Williams, Llanrug (Swyddog Prosiect) a Peter Marston, Waunfawr (Dirprwy Swyddog Cynllunio'r Sir) yn sefyll ar y bont. Llanberis sydd yn y cefndir.

CWM-Y-GLO

Gohebydd: Mrs Iris Rowlands, 'Glanrafon' (872275)

CLWB POBL Y CWM: Ar Hydref 26, manteisiodd aelodau'r Clwb ar wahoddiad y CEGB, i gael taith ddi-dâl o amgylch yr Orsaf Bŵer, a buom yn lwcus i gael gŵr lleol, Mr Maurice Jones, Meillionen, i'n tywys, a'n goleuo ynghylch ambell beth dyrys o'r gampwaith ryfeddol. Cawsom dro pellach o gwmpas yr Oriel, a llawer o bethau pleserus ac addysgiadol yno hefyd, a mawr ein diolch i'r staff i gyd am eu croeso. Bu yn brynhawn difyr ac addysgiadol.

Cwis oedd gennym ar Dachwedd 16, wedi ei drefnu gan Mrs Gwyneth Chick. Aeth a ni i sawl maes gwahanol, a hafwyd pnawn hwyliog dros ben. Mrs K. Watkins ofalai am y marciau. Rhoddwyd y baned a'r raffl gan Mrs Eluned Hughes a Miss Elizabeth Hughes. Mrs Mair Williams enillodd y raffl. Diolchwyd gan Mrs Llew Hughes.

LLONGYFARCHIADAU: i Nia Wyn Hughes, 17, Dôl Afon, ar ennill y Gadair yn Eisteddfod Ysgol Brynrefail.

O'R YSBYTY: Da yw deall fod Mrs Hilda Orritt, Morannedd, wedi gwella ar ôl triniaeth yn Ysbyty Gwynedd. Hefyd anfonwn ein cofion gan ddymuno gwellhad buan i amryw sydd heb fod yn dda yn ddiweddar.

YSGOL FEITHRIN: Cafwyd disgo llwyddiannus iawn noson Calan Gaeaf a gwnaed elw da at yr Ysgol Feithrin. Dymuna'r pwyllgor ddiolch i bawb a gyfrannodd at y raffl a'r rhoddion, hefyd i'r mamau am fynd i'r drafferth i wisgo'r plant bach, ac i Mrs Morfydd Thomas, Bethel, am ddod i ddyfarnu.

Enillwyr y gwisgoedd gorau oedd: O dan 4 oed, John Cullan; 4 i 5 oed, Cara; 6 i 7 oed, Leanne; 8 i 9 oed, Sara Wager. Y dawnsiwr disco gorau oedd Nicola. Enillwyr y raffl oedd: Nwyddau – Eric, Chwarel Penrhyn; gwin – Keith, Bryn; Watch – Tom Most, CEGB; Nwyddau – Terry, Brynteg, Brynrefail; Gwin – Lisa Harvey, Sir Fôn; Watch – Carys, Glan Don; Siocled – Jason Harvey, Sir Fôn; Bisgedi – Nansi, 27, Y Glyn, Caernarfon. Diolch o galon i bawb.

DIOLCH: Dymuna Hilda Orritt, Morannedd, ddiolch o galon i'w theulu, ffrindiau, a chymdogion am eu cardiau, blodau, anrhegion a galwadau ffôn a dderbyniodd tra yn Ysbyty Gwynedd ac ar ôl dod adref.

UNDEB Y MAMAU: Cynhaliwyd cyfarfod blynyddol Undeb-y-Mamau yn yr Ysgol Gymuned Nos Fawrth Tachwedd 14. Agorwyd y cyfarfod gyda Gweddi Undeb-y-Mamau. Darllenwyd cofnodion o Bwyllgor a gafwyd miss Tachwedd 1988 a phasiwyd eu bod yn gywir. Cafwyd cyfrif ariannol gan y Trysorydd. Ail-etholwyd y swyddogion am flwyddyn arall.

Bydd Gwasanaeth Carolau yn cael ei gynnal yn Hafan Elan, Llanrug, nos lau, Rhagfyr 7 am 7 o'r gloch. Estynnir croeso cynnes i bawb ymuno yn y gwasanaeth. Bydd 'buffet' Nadolig i'w gael ar ôl y gwasanaeth.

Diolchwyd i ferched Cwm-y-Glo am y lluniaeth gan Mrs V. Jones, Llanrug. Rhoddwyd y ddwy raffl gan Mrs S. Edwards a Mrs E. Jones ac fe'i henillwyd gan Mrs Sandra Birbeck.

Y mae trefniadau yn cael eu gwneud i redeg trip i Stockport ac i'r theatr gyda'r nos, dydd Sadwrn, Ionawr 27. A wnaiff pawb sydd yn dymuno mynd ar y trip roi eu henwau i Mrs Betty Jones, Mrs Hilda Orritt neu Mrs Gwyneth Roberts cyn gynted ag sydd bosibl.

MARWOLAETH: Dydd Sadwrn, Hydref 21, bu farw Miss Ceridwen Hughes (gynt o Pool St) ym Mhlas Pen-y-Gwaith, Llanberis, yn 81 oed.

Roed yn enedigol o'r Cwm, ac yn chwaer i Alun Wyn Hughes, Hafod Gynfor, Nant Peris. Bu'n aelod ffyddlon ac yn organyddes yn Eglwys Sant Gabriel am hanner can mlynedd.

Bu'r angladd dydd Iau, Hydref 26. Cynhaliwyd gwasanaeth yn Eglwys Sant Gabriel dan ofal y Parch D. Noel Jones, Deon Gwlad, a Mr J. R. Jones, Tregarth yn cynorthwyo, ac yna yn dilyn ym mynwent Llanrug. Yr organydd oedd Mr Gareth Jones, Llanberis.

Estynnwn ein cydymdeimlad â'i brawd Alun a'r teulu yn eu profedigaeth.

DIOLCH: Dymuna Mr Alun W. Hughes a'r teulu ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniwyd yn eu profedigaeth. Diolch yn arbennig i Matron a holl staff Plas Pen Y Gwaith am eu caredigrwydd tuag at Ceridwen tra y bu dan eu gofal.

YSGOL GYMUNED CWM Y GLO: Yn dilyn y Gwasanaeth Diolchgarwch, bu'r plant yn brysur yn casglu arian i elusen Dr Barnado. Casglwyd £100.54.

Bu pawb yn helpu i chwyddo Cronfa Apêl Leol yr Urdd hefyd. Yn dilyn 'Neidio Noddedig' mae honno wedi chwyddo gan i £324 gael ei ychwanegu iddi. Diolch i Glwb y Graig am eu rhodd hael at yr achos. Dim ond rhyw £250 arall sydd ei angen i gyrraedd y targed! Mae'r arian a gasglwyd yn dystiolaeth bendant o griad pobl y Cwm at eraill ac at achosion da.

Amlygir hyn yn y plant hefyd, fel ag y gwelwyd ar nos Wener, tachwedd 11, pan drefnodd plant hynaf yr ysgol Ddisgo i godi arian tuag at Apêl Lowri. Diolch i David, Martin, Donna, Bethan, Bryn, Sara Salisbury, Sara Wager a Paul Pointer am y trefniant ac i nifer fawr o rieni a chyfeillion am roi o'u hamser, eu harian a'u hymdrech i godi'r swm anrhydeddus o £207. Diolch i bawb am gefnogi pob achos da mor hael. 'Mawr fydd eich gwobr yn y Nefoedd'.

Dyma restr o ennillwyr y raffl: Hamper – Lisa, Minffordd, Llanrug; hamper – Christine, 12 Llainwen, Llanberis; Champagne – Nerys, Bwlch; Mugs – Beryl, Penbont; Cider – Mrs Hughes, 4 Cil Isaf, Caernarfon; Gwin – Betty, Llwyncoed Bach; Vase – Sheila Williams, Brynrefail; Gwin – June Steel, Bryngwyn Mawr; Bisgedi – Enid Roberts, Minafon Terrace, Tanycoed; Sebon – Nansi o 'Dre; Sebon – Jen Fletcher; Bag make-up – Gwil, Bryn; Sebon – Iwan Jones, Caernarfon; Siocled – Annie Hughes, Bryn; Siocled – Beryl Penbont; Siocled – Ware, Swyddfa'r Post; Bisgedi – June Steel, Bryngwyn Mawr.

THEATR: Bu plant yr Adran Iau yn Theatr Gwynedd ym Mangor yn gweld perfformiad o 'It's all in the Stars' gan Gwmni Theatr Molecule. Er gwaetha'r glaw, cafodd pawb brynhawn difyr dros ben.

Cafodd plant Adran y Babanod weld un o berfformiadau Cwmni'r Fran Wen. Yr oedd hwn eto o safon uchel a chafodd pawb, plant Cwm a phlant Penisarwaun fwynhad mawr.

GEMAU A CHWARAEON: Llongyfarchiadau i David Wager ar berfformiad da mewn Ras Redeg ym Mhenygroes ac i Robert Shaw am gael tlws mewn Gala Nofio ym Mangor. Da iawn chi, fechgyn. Da iawn Rhys Morris a Robert Shaw am gael bathodyn nofio 400m a 200m yr un.

ARHOLIAD PIANO: Llongyfarchiadau i Iola Davies hefyd. Y tro yma wedi pasio arholiad piano Gradd 1. Bydd y nodau yn tincial ym Mryn Madog, rwan.

ADRAN YR URDD: Mae'r adran wedi cyfarfod bob wythnos ers hanner tymor. Hyd yma, cafwyd cyfarfodydd hwyliog o Sion a Sian, Rhowch i mi Gliw, Blankety Blank a noson o waith llaw a sleidiau.

YMWELWYR: Braf oedd cael cyfarfod â'r Prifardd Selwyn Griffith, a alwodd yma i ddiolch i'r plant am eu cyfraniad i'r Noson Deyrnged.

Yma am fis o'r Coleg Normal mae Mrs Glenda Hughes. Croeso cynnes iddi hithau. Os bydd yn mwynhau ei hun, mae am ddod yn ôl ddechrau'r flwyddyn nesaf.

RHODD: Diolch i Glwb y Graig am eu rhodd anrhydeddus i Gronfa'r Ysgol. Gallwn eich sicrhau y byddwn yn ei defnyddio er budd y plant.

CAROLAU: Cofiwch am y Gwasanaeth Carolau, Rhagfyr 18, am 6.30 yng Nghapel y Tabernacl. Gan obeithio y gwelwn chi yno. Os na fedrwch fod yno, dymunwn i chi wyliau dedwydd. Am y tro yma, hwyl fawr tan tro nesa!

CLWB IEUENCTID: Yn ystod mis Hydref, croesawyd Mr Len Jones o Ddeiniolen i'r Clwb gyda'i offer codi pwysau. Fel gyda'i ymweliadau blaenorol â'r Clwb profodd y noson yn un lwyddiannus iawn. Edrychwn ymlaen at ei gael atom eto yn y dyfodol. Hefyd ymunodd rhai o'r aelodau â Chlwb Ieuenctid Llanrug, pan ymwelwyd â Chanolfan Hamdden Arfon. Ar yr un noson aeth yr hogiau i Glwb Liberal Caernarfon i ddangos eu dawn ar y bwrdd Snwcer. Mae rhai o fechgyn y Clwb yn bwriadu cystadlu mewn cystadleuthau pŵl a phel droed sydd i'w cynnal gan y gwasanaeth ieuenctid yn ystod mis Tachwedd.

Yn ystod mis Tachwedd hefyd croesawyd Mr Brian Griffiths o Bontnewydd (cyn-arweinydd y Clwb) i'r Clwb a bu'n rhoi arddangosfa o ddefnyddiau lledr i'r aelodau. Bu yn noson lwyddiannus dros ben. Am yr wythnosau sydd i ddod gobeithir trefnu ymweliad â Chanolfan Hamdden Arfon ac hefyd gobeithir cael mynd i Ddisgo Nadolig ar gyfer aelodau clybiau ieuenctid y sir a gynhelir yn yr Octagon, Bangor. Felly mae digon i edrych ymlaen amdano. Hefyd hoffai'r Clwb longyfarch dwy o'r aelodau ar eu llwyddiant yn ddiweddar yn eisteddfod flynyddol Ysgol Brynrefail, Llanrug. Enillwyd y Gadair gan Nia Wyn Hughes a daeth Mared Sutherland yn ail yn yr un gystadleuaeth. Llongyfarchiadau mawr i chwi genod.

BRYNREFAIL

Gohebydd: Miss Lowri Prys Roberts, Godre'r Coed. 870580

DIOLCH: Dymuna Glyn Owen, Trosyrafon, ddiolch yn gynnes iawn i'r teulu, ffrindiau a chymdogion am bob dymuniad da a ddangoswyd tuag ato tra yn Ysbyty Gwynedd ac ar ôl dod gartref.

APÊL LOWRI: Bydd aelodau o Sefydliad y Merched yn mynd o amgylch y pentref i godi arian at Apêl Lowri o Lanrug sydd yn U. D. A. yn cael triniaeth lawfeddygol. Erfynnir am eich cefnogaeth.

YR ŴYL DDIOLCHGARWCH: Cynhaliwyd gwasanaethau arbennig o ddiolch yn Eglwys M.C. Brynrefail, ddydd Sul, Hydref 22.

Gwasanaethwyd yn oedfa'r bore gan y Gweinidog, Y Parch John Morris, a chymerwyd rhan gan blant yr Ysgol Sul. Gweinyddwyd y Cymun Sanctaidd.

Roedd oedfa'r hwyr dan ofal yr aelodau a chymerwyd y rhannau arweiniol gan Mr Elfed Roberts yn cael ei ddilyn gan Mrs Ifanwy Jones, Mrs Carol Houston, Mrs Pat Jones, Mrs Gwyneth Evans, Miss Annie May Williams a Mrs Jennie Hughes. Trefnwyd y cyfarfod gan Mrs Jennie Roberts a'r organydd oedd Miss Lowri P. Roberts.

DIOLCH:Dymuna Mrs Shirley Roberts, 1 Minffordd, ddiolch am bob caredigrwydd a dderbyniodd gan berthnasau a chyfeillion yn ystod ei harhosiad yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar. Ei diolch arbennig i Mrs Eirlys Williams a Miss Kathy Williams, Marino.

SIOE GYNNYRCH: Unwaith eto eleni, bu cangen Brynrefail o Sefydliad y Merched yn fuddugwyr yn y Sioe Gynnyrch a gynhaliwyd yng Nghanolfan Waunfawr, nos Fercher, Hydref 18. Dyma'r canlyniadau: **Coginio:**Bara Soda: 1, Anita Long. Bara Brown: 1, Jean Davies. Byns Chelsea: 3, Anita Long. Quiche: 1, Pat Jones. Teisennau Cymreig: 3, Mrs Jennie Hughes. Flapjacks: 2, Eleanor Williams; 3, Carol Houston. Bisgedi Sunsur: 2, Jennie Hughes. Gateau Lemon: 1, Pat Jones; 3, Eleanor Williams. Cwrs cyntaf cinio i un: 1, Gillian Morris; 2, Eleanor Williams; 3, Pat Jones. Salad Reis: 2, Lowri P. Roberts. Chutney Betys: 2, Jean Davies. Lemonêd: 1, Pat Jones; 3, Jennie Hughes.

Blodau: Trefniant i ddarlunio nofel: 1, Pat Jones; 3, Lowri P. Roberts. Trefniant planhigion perthi: 1, Eirlys Williams; 3, Lowri P. Roberts. Chrysanthemums: 2, Pat Jones. Tri Rhosyn: 2, Jennie Hughes; 3, Eirlys Williams. Dahlias: 3, Euronwy Roberts. Planhigyn Pot: 2, Anita Long. Planhigyn deiliog: 2, Betty Owen. Cystadleuaeth Cangen (Pryd wedi ei gyflwyno mewn dull Eidalaidd), Cangen Brynrefail. **Parhad Tud 6.**



Mae JOAN a CHARLES WARE

SWYDDFA'R POST

a Stordy Cwm-y-Glo

Ffôn: 870242

yn dymuno'n dda i chwi oll dros y Nadolig hwn – ac yn diolch am eich cefnogaeth drwy'r flwyddyn

Hoffem ddiolch am eich cefnogaeth yn ystod y flwyddyn a dymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chwi oll

MODURDY

London Garage

AWERTHWR MODURON A PHARTIAU

FIAT

CWM Y GLO

Ffôn: Llanberis870234

Arbenigwyr mewn tiwnio moduron

M.O.T.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

BRYN A KATHLEEN WILLIAMS

HEN YSGOL GLANMOELYN
LLANRUG Ffôn: 77482
GWEITHDY
TANRALLT, CWM-Y-GLO,
Ffôn: Llanberis 870793

Gwneuthurwyr ffenestri, drysau, grisiau neu unrhyw fath o gynnyrch coed
Y coed meddal wedi derbyn triniaeth arbennig i wneud iddynt bara

ODDI WRTH

MORRIS BROS.

BECWS GORS BACH, CWM Y GLO

Ffôn: Llanberis 870430

HEFYD YM
MECWS PEN Y BRYN
LLANBERIS Ffôn: Llanberis 870268
70 STRYD LLYN CAERNARFON Ffôn: 5526

Burmah

AM BETROL, DIESEL, OLEW AC AMRYFAL ANGHENION MODURO

Burmah

GORSAF BETROL LONDON GARAGE

CWM-Y-GLO

Ffôn: Llanberis 872046

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb

Dymuna Maldwyn a Margaret

Gwesty'r Fricsan

(Snowdon Hotel)

CWM-Y-GLO

Llanberis 870289

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb.
Croesewir cyfeillion hen a newydd dros yr Ŵyl.

NADOLIG LLAWEN
A
BLWYDDYN NEWYDD DDA
oddi wrth

C & D.WAGER

Llythyrdy

BRYNREFAIL

Ffôn: LLANBERIS 870241

Eich Stor Leol Deuluol ar gyfer Papurau Newydd Bwydydd Ffrwythau Llyfrau Cymraeg Llysiau Melysion Tybaco

BRYNREFAIL *(parhad)*

Mr Cledwyn Jones, Bangor, a fu'n sgwrsio am Gymdeithas 'Headway'.

Rhai o aelodau Cangen Brynrefail o Sefydliad y Merched a enillodd y gwpan yn y Sioe Gynnyrch yn y Waunfawr.

SEFYDLIAD Y MERCHED: Bu cyfarfod o aelodau'r gangen Nos Lun, Hydref 23, yn y Festri. Estynnodd y llywydd, Mrs Pat Jones, groeso i Mr Cledwyn Jones, Bangor fel gŵr gwadd y noson. Rhoddodd sgwrs gartrefol yn deillio o brofiad personol am ei ymdrech i sefydlu cymdeithas Headway yn ardal Bangor. Cymdeithas yw hon i gynorthwyo perthnasau agos rhai, drwy ddamweiniau disyfyd, a gafodd niweidiau difrifol i'r pen. Roedd ei genhadaeth dros y gymdeithas yn gwbl ddiffuant a'i ddymuniad oedd taenu ar led fodolaeth y gymdeithas arbennig hon sydd yn cyfarfod yn fisol yn Ysbyty Gwynedd. Diolchwyd i'r siaradwr am ei sylwadau cyrhaeddgar gan Mrs Gillian Morris. Hi hefyd ynghyd â Mrs Jennie Hughes baratôdd y baned. Rhoddwyd gwobr y mis gan Mrs Betty Owen ac fe'i henillwyd gan Mrs Gillian Morris.

Nos Fercher, Tachwedd 15, cafwyd gornest ddartiau rhwng cangen Brynrefail â'r Waunfawr. Waunfawr a orfu a dymunwn yn dda iddynt yn y rownd nesaf o'r ornest.

Nos Lun, Tachwedd 20, cyfarfu'r gangen am eu Cyfarfod Blynyddol pryd yr oedd Mrs Betty Marshall, V.C.O. yn bresennol. Roedd yn noson hefyd o brofi hoff fwydydd. Canlyniadau'r etholiadau oedd: Llywydd, Mrs Pat Jones; Ysgrifenyddes, Mrs Betty Owen; Trysoryddes, Mrs Eirlys Williams. Rhoddwyd y te gan y Pwyllgor ac enillydd gwobr y mis, rhoddedig gan y llywydd, oedd Mrs Mai Parry.

Bydd noson Garolau Sefydliad y Merched Gwyrfai yn cael ei gynnal nos Wener, Rhagfyr 8, yng Nghapel Beulah, Caernarfon, a chinio Nadolig y gangen yng Ngwesty Tŷ Uchaf, Talybont, nos Lun, Rhagfyr 11. Y pris fydd £9. Derbynir yr enwau gan Mrs Pat Jones.

W.J. GRIFFITH
PLYMAR A GOSODWR
GWRES CANOLOG
PANT TIRION, LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 673248
Gosodwyr Nwy Cofrestedig Corgi
CORGI GAS IN SAFE HANDS
Aelod o'r Association of Plumbing and Mechanical Services Contractors
Dim un dasg rhy fychan
Dim un dasg rhy fawr

ADDYSG BELLACH – DWYIEITHOG AI PEIDIO?

Bu galw cynyddol am weithwyr dwyieithog mewn nifer o feysydd galwedigaethol yn ystod y blynyddoedd diweddar. Caiff hyn ei gadarnhau mewn arolwg a wnaed gan Brosiect Datblygu Dwyieithrwydd Addysg Bellach CBAC. Dengys y wybodaeth a gasglwyd fod cyflogwyr mewn meysydd fel busnes, arlwyaeth/twristiaeth a gofal yn ystyried bod dwyieithrwydd a hyfedrau dwyieithrwydd yn bwysig a defnyddiol ar gyfer amrywiaeth o swyddi yn y meysydd hynny. Anogir colegau i ymateb i'r galw drwy ddarparu cyrsiau a fydd yn rhoi cyfle i bobl ifanc 16-19 oed feistroli'r hyfedrau dwyieithog angenrheidiol ar gyfer gwaith.

Hyd yn ddiweddar nifer bach iawn o gyrsiau a ddarperid yn ddwyieithog – ysgrifenyddol, gofal plant/henoed ac amaeth yn bennaf. Tystia'r colegau fod y myfyrwyr sy'n dilyn eu cyrsiau dwyieithog yn sicrhau swyddi cyn cwblhau'r cwrs neu'n fuan iawn wedi hynny. Dyna brawf o'u llwyddiant bid sicr.

Bu datblygiadau cyffrous mewn colegau led led Cymru yn ystod y ddwy flynedd diwethaf. Erbyn hyn y mae 20 o sefydliadau addysg bellach yn cynnig darpariaeth Gymraeg/dwyieithog sy'n gallu amrywio o gwrs dwyieithog cyflawn yn arwain at gymhwyster cydnabyddedig megis Diploma Uwch RSA mewn Astudiaethau Swyddfa neu Ddiploma Cenedlaethol BTEC mewn Busnes a Chyllid, at uned fechan ar 'Cymraeg ar gyfer Gofal' mewn cwrs Cyn-Nyrsio a 'Cymraeg ar gyfer gwaith derbynfa' mewn cwrs Arlwyaeth, yn benodol ar gyfer myfyrwyr a'r Gymraeg yn ail iaith iddynt. Gwelir bod darpariaeth fel hon yn barhad naturiol i'r cwrs addysg cyn 16 oed a'i bod yn rhoi cyfle i fyfyrwyr gystadlu am swyddi sy'n gofyn am ddwyieithrwydd.

Ymatebodd Byrddau Arholi fel RSA, BTEC a'r City and Guilds yn gadarnhaol i geisiadau am asesu ac arholi drwy gyfrwng y Gymraeg. Maent yn sylweddoli'r angen a phwysigrwydd diwallu anghenion y farchnad lafur leol yn ogystal a chenedlaethol.

Mantais, nid anfantais, yw dilyn cwrs addysg bellach dwyieithog. Holwch a yw eich coleg addysg bellach lleol chi yn cynnig cyrsiau tebyg.

Merfyn Morgan,
Cyfarwyddwr Prosiect Datblygu Dwyieithrwydd mewn Addysg Bellach.

RHODDION

£25: Teulu'r Rudkin, Llanberis.
£5: Mr a Mrs Griffith, Llythyrdy, Waunfawr; Mr a Mrs Alun Wyn Hughes, Hafod Gynfor, Nant Peris; Mrs Gwyneth Price, Llys y Gwynt, Llanddeiniolen.
£3: Anwen, Aled ac Iolo Fôn, London House, Carmel; Mr a Mrs John Arwel Williams, 2 Ffordd Deiniol, Deiniolen.
£2: Joyce Pritchard, Caernarfon; Mr a Mrs Haydn Maxwell, 4 Tan y Foel, Deiniolen.

I drin a thrwsio pob math o beiriannau gwnïo
MENAI SEWING MACHINE CENTRE
40 Stryd Fawr
PORTHAETHWY
Ffôn: (93) 714043
neu
Caernarfon 4520
edau, nodwyddau ac ati mewn stoc

GWILYM H. WILLIAMS
BRYN DAIRY
2 BRYNHYFRYD
BETHEL
Ffôn
Port Dinorwig 670786
Llefrith
Llaeth Porfa
Llaeth heb Hufen
Wyau, Tatws
Diodydd
Ffrwythau

ANTUR WAUNFAWR
I weled ein crôg fasgedi – a'r grug
Sydd mor grand, a pherthi
O goed fyrdd, i wyrdd erddi
Dowch oll i'r Antur, da chwi
CANOLFAN ARDD ANTUR WAUNFAWR
Ffôn: Waunfawr 721
Am flodau gardd i harddu – a llysiau
Sy'n llesol i'r teulu
Ewch heibio i archebu
Yno lwyth planhigion Iu
* GRUG
* ALPAU
* PERTHI
* LLYSIAU

Y NEWID

Sgwrs a roddwyd gan y diweddar Tom Jones, Tyddyn Rhuddallt, bron i hanner can mlynedd yn ôl. Credaf mai am bentref Caeathro y sonnir, dros ganrif yn ôl. Ganed Tom Jones yn 1869.

Y mae nhw'n dweyd mai un o'r arwyddion fod dyn yn mynd yn hen (un ohonyn nhw ydw i'n ddeyd) yw ei fod yn dueddol i edrych yn ôl i gyfnod sydd wedi pasio ers talwm.

Nid yw pethau ddoe a heddiw o fawr ddiddordeb iddo, ond os soniwch am rywbeth ddigwyddodd ymhell yn ôl, y mae yn codi ei glust ar unwaith, ac yna dechreua dynnu ar ei atgofion a dywed: "Rydw i'n cofio pan oeddwn i'n hogyn", ac os darfu i chi sylwi y mae'r atgofion hynny yn rhai hyfryd iawn.

Y pethau gorau sydd wedi digwydd ymhell bell yn ôl, bob amser.

Am wn i wn i ddim na allech ddweud fod yna rhywbeth tebig i "gompensation" mewn bywyd, wyddoch chi, y peth hwnnw sy'n helpu dyn i fynd trwy gyfnod diflas undonnog henaint. Y gallu hwnnw sydd gan ddyn i ddod ag atgofion am gyfnod gwell, difyrrach yn ei fywyd a hynny'n sirioli ei fywyd.

Rwyf wedi gweld rhai wedi mynd i ŵth o oedran fel y dywedir. Y rhai sydd yn byw yng ngwlad yr addewid ers blynyddoedd, yn byw bron yn gyfangwbl yn y cyfnod pell hwnnw. Cofio dim ddigwyddodd ddoe, weithiau nabod fawr neb ddaw i edrych amdanynt, ond holwch nhw am rywbeth ddigwyddodd 60 o flynyddoedd yn ôl, a dyna eu llygaid yn gloywi fel seren! A'r cwbl yn dod yn ôl, fel o gramoffôn lleisiau y rhai a'u cynhyrchodd wedi tewi ers meityn, ond y records yn aros yn ddiddanwch i'r hen. Wn i ddim a feiddia i awgrymu fod dwy linell o emyn anfarwol David Charles yn cael ei sylweddoli yn hyn:

"Pryd hynny daw troeon yr yrfa
Yn felus i lanw fy mryd."

Mae arna i ofn ichi feddwl fy mod wedi cyrraedd y cyfnod hwnnw eisoes. Rhaid cyfaddef fy mod i'n tynnu'n gyflym tuag ato.

Prun bynnag am hynny, amcan y sylwadau yma heno fydd tynnu ar rai o atgofion personol a gwneud rhyw fath ar gymhariaeth rhwng y gwahanol gyfnodau, a cheisiwch chwithau benderfynu a ydi'r testun yn gywir ai peidio. Oes yna newid gwirioneddol wedi digwydd ai ynteu yr un yw'r darluniau megis, ond fod y ffrâm yn wahanol.

Hanes yn ail adrodd ei hun ynte? Y mae'n bosib fod llawer ohonoch wedi cael profiadau tebig i minnau. Gyda hynna o ragymadrodd, mi awn at y testun, fel y dywedir.

Yr Ysgol

I'r rhan fwyaf ohonom, mae'n debyg mai'r atgofion cyntaf i wneud argraff arnom o'r tu allan i gylch yr aelwyd ydi dyddiau ysgol. Fedra i ddim dweud wrthach chi'n iawn am yr un o'r digwyddiadau cyntaf i wneud argraff ar fy nghof o'r ysgol. Wn i ddim yn iawn ai'r diwrnod cyntaf oedd hyn ai peidio, digon o waith mae'n siŵr. Dyma ichi lle mae'r ffrâm i'r darlun yn dechrau dwad yn amlwg.

Mi fedrwn, pe yn artist, dynnu llun yr ysgol honno i'r dim y funud yma. Ysgol mewn pentref bychan yn y wlad oedd honno. Roedd i'r ysgol yma ei hanes cyntefig cyn iddi ddod yn ysgol, ac yr oedd hwnnw yn hanes dymunol iawn i lawer, oblegid roedd yr ystafell honno wedi bod yn borth y Nef mewn gwirionedd i aml un o hen drigiannwyr y pentre hwnnw, oblegid capel oedd o ar un adeg, ac erbyn y dyddiau rydw i'n sôn amdanynt yr oedd yn cael ei chydnabod fel ysgol gan y Bwrdd Ysgol yn y plwy, neu'r School Board, bondigrybwyll. Rydw i'n cofio'n dda fel y byddem ni yn dyfalu sut beth oedd y Bwrdd Ysgol yma y sonid amdano.

Wrth gwrs, meddwl am fwrdd cyffredin y byddem ni ac yn rhyw feddwl hefyd mai un o goesau praff y bwrdd oedd yr hen ffarmwr oedd yn aelod dros yr ardal yn y cyfnod hwnnw.

Rwan am geisio tynnu portread ohoni.

Cwt glo'r plant drwg

Un ystafell oedd hi. Drws ynghanol un ochr iddi, lle tân yn un talcen, dim nenfwd o gwbl iddi, y trawstiau a'r cyplau wedi eu gwyngalchu. Ac mewn un gongl, ar y dde i'r lle tân, wedi ei gau oddiwrth y gweddill o'r ysgol a lleni a'r sets wedi eu gosod fel grisiau, neu galeri fel y byddem ni'n ei galw, dyma'r classroom ar gyfer y plant lleiaf.

O dan y grisiau yr oedd y cwt glo. Defnyddid ef i bwrpas arall hefyd ambell dro, a dyma lle mae'r atgofion am un o'r dyddiau cyntaf yn dod i mewn. Rhyw liw melyn-llwyd oedd ar y muriau. Rydw i fel taswn i'n eu gweld y funud yma a'r plastar o galch yn dwad i ffwrdd yn dalpiau, a ninnau mae'n debyg yn rhoi pob help i'w rhyddhau.

Ysgolfeistres oedd yn gofalu am yr ysgol y pryd hwnnw, a merch ifanc arall yn gofalu am y plant lleiaf, ac un peth rydw i'n ei gofio amdani'n dda iawn, sef ei bod yn un dda am ddeud stori wrthym mi. Stori o lyfr fyddai hi ond y byddai hi'n ei dweud yn ei ffordd ei hun, nes gwneud y stori yn llawer iawn mwy difyr i wrando arni.

Wel, beth bynnag i chi, roeddan ni'r plant wedi ein gadael ein hunain un pnawn am ychydig y tu ôl i'r cyrtan yma, a mi wyddoch mor llonydd y bydd plant pan wedi eu gadael eu hunain am dipyn. Yn union, dyma rai o'r hogiau yn dechrau tynnu calch o'r pared a'i luchio at ei gilydd, yna'n mynd dipyn yn fwy hyf a lluchio darnau dros y cyrtan, a minnau mae'n debyg yn uno efo nhw. Ar hynny, dyma'r athrawes atom a dweud fod rhywun wedi taro'r ysgolfeistres yn ei phen, ac eisiau gwybod pwy oedd wedi gwneud. A dyma un hogyn, mi cofiaf o byth, yn dweud mai fi wnaeth. Wn i ddim sut roedd o'n gwybod. Doedd o ddim yn gwybod wrth gwrs. Y mae'n rhaid fod golwg reit ddiniwed arna i yr amser hwnnw beth bynnag, ac yn un sal iawn am guddio euogrwydd. Felly mae arna i ofn mai 'defence" go sâl wnes i, ac felly fi a wnaed yn fwch dihangol dros y gweddill y tro hwn ac anfonwyd fi i'm penyd o dan y galeri yn lle bod ar y galeri. Wel wir, twllwch oedd yno ac fe ellwch feddwl fod yno wylofain, beth bynnag am rincian dannedd. A chan fy mod wedi cymysgu fy nagrau â llwch glo, rydw i'n credu fod fy mam yn amau pa un ai ei hogyn hi neu rhyw fachgen bach o fryniau Casia oeddwn i pan es i gartre.

Roedd cosbau fel hyn a churo â gwialen yn beth cyffredin iawn yn y dyddiau hynny.

Rwy'n cofio digwyddiad arall tra'n sôn am y cosbi a'r curo yma. Byddai'n arferiad i'r rhai hŷn na phlant cyffredin ddod yn ôl am ychydig o wersi ychwanegol ambell un wedi mynd i'r môr ac wedi dwad i'r lan wedi penderfynu y buasai rhagor o ysgol yn gwneud lles iddo i fynd ymlaen yn ei waith fel llongwr. Wel, roedd yna fachgen felly yn yr ardal yr adeg yma. Y mae'n amlwg ei fod wedi cael damwain tra wrth ei waith ar y môr, oblegid pan ddaeth i'r ysgol yr oedd wrth ei faglau. Eisteddai wrth fwrdd ar ei ben ei hun ar wahan i bawb arall. Roedd ganddo frawd ieuengach yn yr ysgol. Fe gyflawnodd hwnnw ryw drosedd neu'i gilydd, a galwyd arno allan i'r llawr i dderbyn ei gosb. Gofynnwyd iddo estyn ei law allan, gwrthododd yntau, yna dechreuodd yr ysgolfeistres ei guro ar draws ei gefn, ei ben a'i goesau. Y peth nesaf a welsom ni oedd un o'r baglau yn cael ei lluchio ar draws y llawr ac yn taro coesau'r ysgolfeistres nes iddi syrthio ar lawr.

Wel dyna hi'n bandemoniwm drwy'r lle. Pan ddaeth yr ysgolfeistres ati ei hun anfonodd un o'r bechgyn i gyrchu aelod o'r Bwrdd Ysgol. Ac yn union daeth hwnnw i mewn a gyrrodd y morwr ifanc allan o'r ysgol am y tro olaf, mae'n debyg.

Y pechod pennaf oedd siarad, ac wrth gwrs, roedd yn bechod parod i amgylchu plant, ond yn fwy na dim, siarad Cymraeg oedd y drosedd fwyaf erchyll oll, a beth wnaem ni, os am siarad o gwbl, ond siard yn Gymraeg oblegid fedran ni'r un iaith arall yn iawn, dim ond rhyw ail adrodd fel parot.

Dechreuid yr ysgol yn y bore trwy adrodd y pader, ac fel hyn y byddem ni'n ei ddechreu: "Our father, chart in heaven." Ni wyddem ni'n y byd beth oedd y chart yma!

Dim Cymraeg!

Saesneg oedd pob peth ac wedi'r cwbl wyddem ni ar y ddaear beth oedd o'n feddwl. Yn wir, wn i ddim sut y dysgodd neb ddim mewn ysgolion o'r fath. Meddyliwch am funud un ystafell a standards 1,2,3,4,5 a 6 ynddi heblaw'r babanod tu ôl i'r llenni. Byddai'r dosbarth 1 a 2 yn dysgu'r "tables" ar dop eu llais ar gân, tra byddai standard 4 efallai yn trio gwneud syms "square measures", a'r standard arall yn stryffaglio efo decimals neu "fractions". Wedyn fe gaem "home lessons" rhyw bedair o syms ar gerdyn o run maint a tocyn cyngerdd. "Geography" dro arall, a'r prif beth fyddai dysgu enwau mynyddoedd gwledydd pell a'r afonydd a redai ohonynt ac i ble y rhedent. Ond dim gair am afonydd bach Cymru, na'r llynnoedd llonydd, a'r mynyddoedd fyddai yn y golwg bob dydd.

O ie, mi fyddai yna ganu ambell dro ond chlywais i ddim son am alaw Gymraeg, ac wrth gwrs roedd hen alawon gwerin heb eu darganfod y pryd hynny. Caneuon Saesneg bob un, rhai fel hyn

"My grandfather's clock", a "The rain is falling very fast," ac fe fyddai yna gyngerdd unwaith yn y flwyddyn, a Saesneg fyddai'r caneuon a'r adroddiadau i gyd.

Yn rhyfedd iawn, ychydig o flynyddoedd yn ôl (cyn y rhyfel yma) roeddwn yn digwydd bod yn gwrando ar raglen ar y Radio o'r hen West Regional, ac ymysg pethau eraill, roedd un o hen ganeuon o Gernyw yn cael ei chanu, a daeth ag un o'r cyngherddau yn yr hen ysgol bach yn fyw iawn i fy nghof. Gwelwn fy hun yn hogyn bychan eto, efo un arall ar lwyfan yn canu'r gân a'r plant i gyd yn uno yn y cytgan, a dyma fo'r cytgan:

"And shall they scorn Tre-pol and Pen
And shall Trelawney die,
There are 20,000 Cornish men
Will know the reason why."

Er mwyn pwysleisio'r lle amlwg a roddid i'r Saesneg yn yr ysgol, dyma i chi enhraifft arall o hynny. Yn un o'r cyngherddau yma yr oedd cystadleuaeth adrodd y Salm 46, Salm yn Saesneg wrth gwrs. Mi gofiaf yn dda rhyw ysgolfeistr o ardal arall yn beirniadu ac yn dweud amdanaf fi, fel un o'r ymgeiswyr, yn Saesneg eto, "Mae'r bachgen

parhad ar dudalen 14

CYFARCHION NADOLIG

LLANBERIS

GLEN'S FOOTWEAR

Stryd Fawr
LLANBERIS 871470

Dymuna Glen a Wil ddiolch i'w holl gwsmeriaid am bob cefnogaeth yn ystod y flwyddyn

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb

DYMUNA
MERVYN, JILL, HELEN,
GLENYS ac APPY

CASTLE GIFT SHOP

LLANBERIS Ffôn: 870379

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w holl gwsmeriaid.
Diolch ichi am eich cefnogaeth

Galwch eto am: Bapurau Newydd, Anrhegion, Sigarets, Melysion, Llyfrau a llawer mwy

SEREN

47 STRYD FAWR
LLANBERIS 871060

BWYDYYD IACHUSOL
FFRWYTHAU A LLYSIAU YN FFRES O'R FARCHNAD

TELEFLORIST

Diolch yn fawr am eich cefnogaeth trwy gydol y flwyddyn. Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrthSue Lowe

odyn copr

parc padarn

llanberis

Y LLE DELFRYDOL I BRYNU ANRHEG NADOLIG I'CH ANIFEILIAID ANWES

PET TRADE & INDUSTRY ASSOCIATION PTIA

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth Jill a Kerry Stott

GARTH MAELOG
PET CENTRE
& GROOMING SALON
51 STRYD FAWR
LLANBERIS 870840

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA I DDARLLENWYR ECO'R WYDDFA

41B STRYD FAWR
LLANBERIS

GWASANAETHAU ARIANNOL
ERYRI
FINANCIAL SERVICES

Ffôn: 872003

Guardian Royal Exchange

Oddi wrth gwmni Trên Bach yr Wyddfa



SNOWDON MOUNTAIN RAILWAY

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chwi oll

CELF Y COPÄON
MOUNTAIN ART
Stryd Fawr
LLANBERIS 870925
Am luniau mynyddoedd
*Peintiadau *Printiadau
*Posteri *Ffotograffau

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb

Dymuna pawb yn siop
VALERIE J. JONES
FFRWYTHAU
GLAN Y DON
STRYD FAWR
LLANBERIS 870301
NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA

Am anrhegion y Nadolig dowch i Siop Nwyddau Tŷ a Gardd
FORMAG
Stryd Fawr
Llanberis 870501
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chwi oll oddi wrth
Ifor a Margaret
Diolch am eich cefnogaeth trwy gydol y flwyddyn

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chwi oll oddi wrth bawb yn siop
HAIRLINES

STRYD FAWR
LLANBERIS
870328

CYNLLUNWYR GWALLT YN ARBENIGO MEWN TORRI
Beth am ddechrau'r flwyddyn newydd gyda perm yn ein SÊL IONAWR

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth
Garvin, Wil a Tim
W.G. ALLSUP
Storfa Gig Glan Padarn

LLANBERIS 870319

Nadolig Llawen
a Blwyddyn Newydd Dda
i chwi oll
oddi wrth y

ROYAL VICTORIA HOTEL
LLANBERIS 870253
Diolch am eich cefnogaeth drwy'r flwyddyn.

CYFARCHION Y TYMOR A DYMUNIADAU GORAU
oddi wrth
W.J. DAVIES
MODURDY'R WYDDFA
LLANBERIS Ffôn: 870225

M.O.T.
Gwasanaeth Torri Lawr Ddydd a Nos
Hefyd
JOHN WHITE
THE BODY SHOP
LLANBERIS
★Trwsio wedi damweiniau
★Ailsbreio
★Curo paneli

CYFARCHION NADOLIG LLANBERIS

Nadolig Llawen
a
Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth

GRAHAM A JEAN
A PHAWB YN Y

PRINCE OF WALES LLANBERIS 870708

Cwrw blasus
Croeso cartrefol

Adloniant:–
Nos Sadwrn
Canu Cymraeg efo'r organ
Nos Wener
Adloniant Byw

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA
oddi wrth

Vera, Haydn a John

SIOP CHIPS

SNOWDON VALLEY
LLANBERIS

Ffôn: Llanberis 870659

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
i chwi oll oddi wrth

PAT A JOHN
TŶ BWYTA
Stryd Fawr
(Drws nesaf i Fanc y Midland)
LLANBERIS
BWYD BLASUS
AR EI ORAU

Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth

D & E
Dinorwig House
LLANBERIS 870300

Dewch atom ar gyfer anrhegion Nadolig i bawb o'r teulu. Nwyddau ffansi, Cardiau Nadolig, Papur Lapio etc.

Nadolig Llawen
a Blwyddyn
Newydd Dda
oddi wrth

Michal a Brigid
Moran a'r plant

Sea Fresh Chip Shop

Stryd Fawr
LLANBERIS
870425

Diolch am eich cefnogaeth
trwy gydol y flwyddyn

CYFARCHION Y TYMOR
oddi wrth

H.E.HUGHES
a'r MEIBION

870 902 — **870 444**
ac 872200

MASNACHWYR GLO
1 BYTHYNNOD GADLYS LLANBERIS

CYFARCHION Y TYMOR

i bawb
yn yr ardal
oddi wrth

TRÊN BACH LLYN LLANBERIS

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth
Ken, Meril a phawb yn

STORFA PADARN

SPAR

LLANBERIS
FFôn: 871050
diolch am eich cefnogaeth yn ystod ein blwyddyn gyntaf

Padarn Lake Hotel

NADOLIG
LLAWEN A
BLWYDDYN
NEWYDD DDA
I CHI OLL

LLANBERIS

Gofynnwch am fanylion ein prydau arbennig ar gyfer y Nadolig
Ffonich (0286) 870260

SIOPAU COED

STRYD FAWR

LLANBERIS

ROBERT GARTSIDE B.Sc.,M.P.S.

FFERYLLYDD
COMPTON HOUSE
LLANBERIS
Ffôn: 870264
AM EICH ANRHEG NADOLIG!

Persawriau hyfryd o'r Ffrainc
Ffilmiau a Chamerau KODAK a FUJI
Gwasanaeth datblygu a phrintio
Fotograffau am brisiau cystadleuol

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA I CHWI O

AMGUEDDFA'R GOGLEDD AC AMGUEDDFA LECHI CYMRU, LLANBERIS.

RHIFAU FFÔN: LLANBERIS 870636 A 870630

DIOLCH AM EICH CEFNOGAETH.
DEWCH AM DRO I WELD
CYFLWYNIAD NEWYDD YNNI CYMRU

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth holl staff

PIGGERY POTTERY.

LLANBERIS 8702529

Lle Rhagorol I Brynu Eich Anrhegion Nadolig!

Llanberis Art & Craft

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda

Ffôn: LLANBERIS 870597

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chwi oll oddi wrth bawb yn y

Gwynedd Hotel & Restaurant

LLANBERIS 870203

Diolch yn fawr am eich cefnogaeth yn ystod y flwyddyn

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA I BAWB
ODDI WRTH

KMP LLANBERIS

DIOLCH I BAWB A'N CEFNOGODD YN YSTOD Y FLWYDDYN

Dim bysus Sul, Llun, Mawrth 24, 25, 26, Rhagfyr na Sul, Llun, 31 Rhagfyr, 1 Ionawr.

BRYSIWCH I GAEL EICH

TEGANAU, SIOCLED, CARDIAU NADOLIG AC ANRHEGION CAIN

YN SIOP

GWYNETH AC EIFION

ROBERTS

LLANBERIS 870491

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA

ODDI WRTH

BECWS ERYRI

STRYD FAWR

LLANBERIS 870491

Diolch am eich cefnogaeth drwy'r flwyddyn

GLADRAGS
LLANBERIS

PAM MYND I GAERNARFON, BANGOR AC YMHELLACH HEFO DILLAD I BOB OED A MAINT YMA'N LLANBERIS AM BRISIAU BARGEN ?

Be ga i'n bresant Nadolig?
Dewch yma am
* Ddillad Merched
* Dillad Dynion
* Dillad Gwlad
* Century Clothing
* Mohair ac Aran
* Dillad Lledr
* Dillad Isa
* 'Accessories' fel bagiau
* a llawer mwy

CYNNIG ARBENNIG

10%

Yn rhatach os dangoswch yr hysbyseb hon

AR AGOR LLUN-SADWRN 9-5.30 SUL 24 RHAGFYR 9-3.30
Nadolig Llawen i bawb oddi wrth Nigel a Tracy.

THE BIKE MAN

Birmingham House, Stryd Goodman
LLANBERIS

★ Beics newydd am brisiau discownt
★ Trwsio beics
★ Beics Ail Law
★ Rhannau sbâr
★ Llogi Beiciau Mynydd

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb.

GWASANAETH FIDEO PROFFESIYNOL AR GYFER UNRHYW ACHLYSUR

★Dyweddiad
★Priodas
★Penblwyd
★Drama
★Carnifal

Amfwy o fanylion cysyltwch â

John Blight
Llanberis 872209

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda

Y Bistro

43-45 STRYD FAWR LLANBERIS
Ffôn: 871278

hefyd yn ystod y dydd

Y Bistro Bach

Y MAES CAERNARFON
Ffôn: 673075

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth Danny a Nerys Roberts a'r holl staff

---

Gwesty

Dolbadarn

LLANBERIS Ffôn: 870277

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth Aneuryn a Jeanette Jones a'r staff.

Nadolig Llawen oddi wrth bawb yn

Y GLORIAN

Tŷ Birmingham, 6 Stryd Goodman
LLANBERIS

Arbedwch bunnoedd ar eich bil siopa wythnosol.
Dewch i weld ein amrywiaeth eang o fwydydd
Siwgr, Cawl Blawd, Cnau, Pasta, Fferins, Diodydd, Ffrwythau Sych, Grawnfwydydd etc.

CEWCH BWYSO EICH HUN YN ÔL EICH ANGEN
AR AGOR BOB DYDD 9-8pm

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb yn Llanberis a'r cylch oddi wrth

E.W.Pritchard
CENTRAL GARAGE
Llanberis

Ffôn: 870202 a 870272

TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI

NANT PERIS

Gohebydd: Ann Pleming, 'Dolwen', 8 Nant Ffynnon (871457)

LLONGYFARCHIADAU i John Ellis ar ddathlu ei benblwydd yn 18 oed y mis diwethaf.

DIOLCH: Dymuna John Ellis ddiolch o galon am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei benblwydd yn ddeunaw oed ar y 15fed o Dachwedd. Diolch yn fawr iawn i bawb.

CYNGERDD
gan
GÔR Y TRAETH
yng Nghapel Coch, Llanberis, Nos Wener, Rhagfyr 1af am 7.30.
Tocynnau: Oedolion £1.50; Pensiynwyr £1; Plant 50c.
Elw tuag at Gronfa Alan Pritchard
Manylion am docynnau: Llanberis 871339.

CYNLLUN GLYN RHONWY

I ddyffryn Llanberis, daeth angau a gwawd,
Cynllun i'r Cymro fradychu ei frawd;
Distrywio hen harddwch y dyffryn â chraith!
Ffarwelio a'r gymdeithas sy'n siarad ein hiaith!

Troi golud Cymreictod yn olud o aur,
I lenwi y coffrau gyda bwrlwm y 'ffair';
Bydd miloedd o estron fel morgrug o'u co',
Yn sathru terfynau a waliau y fro!!

Cae chware i'r Saeson i wneud campau a sbort
Does dim lle mewn cymdeithas i'r Cymro a'i siort;
Daw Prydeindod dechrau'r ganrif unwaith eto yn ôl,
A'r taeogion yn ymgreinio, mor wylaidd, mor ffôl!!

Rhown glod i'r rhai hynaws, a'u cyfarch a pharch,
Sy'n brwydro yn erbyn rhoi'r dyffryn mewn arch;
Am arwain y frwydr yn rheng flaena'r gâd!!
Eu calonnau yn gwaedu dros Gymru eu gwlad!!

John V. Morris, Rhianfa, Deiniolen.

Y FFOTOGRAFFYDD FICTORAIDD

CASGLIAD HYNOD ISAAC HUGHES

Yn ystod mis Awst 1986 symudodd teulu'r Kerr i 2 Stryd Thomas, Llanberis. Wrth glirio'r llofftydd daethant ar draws nifer o gistiau yn cynnwys dros 300 o hen luniau a 98 o blatiau gwydr. Yn ogystal, roedd cannoedd o wahanol ddogfenni yn cynnwys llythyrau a derbyniadau. Roedd yno hefyd un hen gamera yn dyddio o bosibl cyn 1860.

Mae cefndir y llun hwn wedi ei beintio ar ganfas, o bosibl gan y ffotograffydd ei hun, ac yn dangos golygfa o Fwlch Llanberis. Mae'r corrach yn y llun yn drafeiliwr. O astudio'r fasged wrth ei draed, mae posibilrwydd mai gwerthu llyfrau yr oedd. Pwy tybed oedd hwn?

Mae llawer o'r lluniau yn dangos grwpiau o chwarelwyr wrth eu gwaith, a nifer o bortreadau o bobl o ardal Llanberis a gogledd Cymru. Yn ddiddorol iawn, ceir yn eu plith luniau o chwarelwyr yn ymladd â dyrnau (bare-fist).

Yn ôl Mr Kerr mae wedi gwario dros £3,000 o'i arian ei hun i wneud copiau o'r lluniau ac i wneud gwaith ymchwil ar y ffotograffydd.

Enw'r ffotograffydd Fictoraidd hwn oedd Isaac Hughes, ac y mae'n debyg fod ganddo naw stiwdio ar hyd a lled Gogledd Cymru yn ystod y cyfnod o 1860 i 1885. Yr oedd un o'r stiwdios tynnu lluniau hyn yn Llanberis, ac mae'n ymddangos mai casgliad o luniau Isaac Hughes yn ymwneud a'r ardal hon sydd wedi eu darganfod yn Stryd Thomas.

Mae Llyfrgell Genedlaethol Cymru wedi datgan diddordeb yn y lluniau, ond gobaith Mr Kerr yw cael cartref sefydlog

Portread ... o bwy? Oes rhywun o ddarllenwyr yr 'Eco' yn adnabod y gŵr hwn?

iddynt yn Llanberis ei hun. Ei ddymuniad yw cyhoeddi llyfr o gasgliad o'r lluniau gan geisio noddwyr i'r cynllun o gwmniau lleol.

Yn y cyfamser, mae'r gwaith ymchwil yn mynd rhagddo. Cyhoeddwn yma ddau lun o'r casgliad; dau o'r rhai cliriaf, oherwydd rhaid cofio fod y mwyafrif o'r lluniau bellach dros gant oed.

Byddai Mr Kerr yn hoffi gwybodaeth hefyd am le o'r enw Anglesey House, Llanberis, ac Upper Snowdon Street.

Y NEWID

parhad o dudalen 7

yma yn cael y wobr am beidio adrodd y Salm i gyd." Rydych wedi sylwi fod y gair Selah ar ddiwedd ambell i adnod yn y Salmau. Roedd pob un o'r plant eraill wedi dweud y gair Selah, ac y mae'n debyg y buaswn innau wedi ei ddweud onibai fod yr hen wraig fy mam yn bur hyddysg yn ei Beibl ac wedi fy siarsio i beidio a'i ddweud. Cefais lyfr Saesneg "The Two Neighbours" yn wobr. Rydw i wedi ei ddrllen ugeiniau o weithiau pan yn hogyn yn niffyg dim arall i'w ddarllen.

Tra'n sôn am gyfnod ysgol, y mae'n rhaid imi gael cyfeirio at ddigwyddiad pwysig arall yn hanes yr ysgol yn y dyddiau hynny. Yr arholiad blynyddol oedd hwnnw (Yr Examination). Diwrnod mawr iawn oedd hwn. Rydw i'n deall fod cryn newid wedi bod gyda arholiad, rhagor na'r hyn oedd yn yr amser hwnnw. Y mae ymweliad yr arholydd â'r ysgolion y dyddiau hyn yn debycach i weinidogaeth angau, gan na ŵyr neb y dydd na'r awr y daw. Ond yn y cyfnod hwnnw, byddai'r plant a'u rhieni, yn ogystal â'r athrawon yn gwybod ymlaen llaw a dyna lle byddai pob un wedi ymwisgo yn y dillad goreu feddent, a phawb o'r bron y bore hwnnw wedi cyraedd mewn pryd. Dyna lle byddai pawb yn dal eu gwynt a phob llygad yn tremio i gyfeiriad y drws a rhyw ddistawrwydd llethol drwy'r lle. Bron na chlywech guriadau calonnau crynedig y plant.

Ond, dyna'r drws yn agor a phawb yn gwybod pa un o'r ddau arolygydd a ddaeth y diwrnod hwnnw. Dyn tal lled fain oedd o a gwisg glerigol amdano. Mewn gair, offeiriad eglwysig urddedig oedd o, ac enw tramor iddo, enw a anfarwolwyd gan emynydd Seisnig enwog. Wn i ddim pam, ond roedd ar bob plentyn ofn yr arolygydd hwn. Golwg llym arno, ddim gwên o gwbl, ac ofn methu pasio oedd yr ofn mwyaf.

Dyn canolig o faint oedd yr arolygydd arall arferai ddod, a barf wedi ei threfnu'n daclus dros ei wyneb, a'r un ar y wefl uchaf yn filwrol yr olwg. Sbectol ar ei lygaid bob amser. Enw Cymreig oedd ganddo ond ni chlywais erioed iddo fod yn euog o siarad Cymraeg efo'r plant ddydd yr Arholiad. Yr arholwyr yma fyddai'n rhoddi test ar y plant am y flwyddyn. Cymerai hyn le yn yr ysgol honno ychydig cyn y Nadolig, wedyn caem ychydig wyliau dros y Nadolig. Ychydig fyddai'r gwyliau bob amser. Tair wythnos oedd hyd gwyliau'r haf a rheiny oedd yr hiraf.

Wel, efallai bod hyn yna yn ddigon i brofi gymaint yw'r newid mor bell ag y mae'r ysgol ddyddiol yn y cwestiwn.

(Cyfeiriad yma at Eisteddfod 1894 er mwyn dangos fod y Gymraeg yn fwy byw, nag yr oedd hyd yn oed yn yr Eisteddfod 48 mlynedd yn ôl.)

GLASLYN
ANTIQUES
STRYD FAWR, LLANBERIS
PRYNIR A GWERTHIR
Hen Bethau, Darluniau a Dodrefn y gorffennol
FFÔN: LLANBERIS 870080

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb

WELDIO OFFER FFERM A PHEIRIANNAU DIWYDIANNOL
GWNEUD GIATIAU, FFENSYS AC ATI AR GYFER Y CARTREF
ATGYWEIRIO TAI GWAIR
E. PUGH
WELDING & FABRICATING
32 GLANFFYNNON
LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 5394

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA
Am wasanaeth fframio cyflawn – LLUNIAU TYSTYSGRIFAU, TAPESTRI:-
ELWYN PRITCHARD
Ffraniwr Lluniau/ Telynau Gwynedd
Parc Padarn
LLANBERIS
870922 neu Bangor 351427
cesglir a danfonir i'ch cartref os dymunwch

WAUNFAWR

Gohebydd: Mrs Nan Roberts, Pantafon, Waunfawr

SIEC I GRONFA OFFER Y FEDDYGFA: Yn ddiweddar cyflwynwyd siec am £1,832 i Feddygfa Waunfawr gan Mr a Mrs Hugh Parry, 16, Bro Waun, er cof am eu mab ieuengaf, Andrew. Bu Andrew farw bedwar mis yn ôl wedi brwydr hir yn erbyn cancr. Edmygwyd dewrder a siriol deb Andrew gan yr ardal gyfan a chasglwyd y swm sylweddol i gofio amdano mewn ffordd ymarferol i brynu offer meddygol a fydd o fudd i'r gymdeithas. Mae peiriant 'syringe driver' ar archeb i'r Feddygfa er mwyn lliniaru dioddefaint i gleifion mewn poen. Hoffai meddygon Waunfawr ddiolch i'r teulu ac i'r ardal yn gyffredinol am eu haelioni a'u meddwlgarwch am gefnogi Cronfa Offer y Feddygfa.

CRONFA CANOLFAN WAUNFAWR: Dyma restr o enillwyr y Clwb 300 am Fis Hydref: 1af, £40: E. Lloyd, Brynawelon; 2il, £25: Mrs M. J. Jones, Hafod y Coed; 3ydd, £10: Mrs R. Owen, Bryn y Môr.

MERCHED Y WAWR: Nos Iau, Hydref 19, cafwyd noson dan lywyddiaeth Irene Roberts pan groesawodd Jill Brown i roi hanes ei gwaith crefft o'r amser pan yn y coleg i'r presennol. Roedd yn ddifyr iawn ac yn dangos ei medrusrwydd eang. Diolchwyd iddi gan Alma Jones. Gofalwyd am y te gan Heulwen Hughes a hi hefyd oedd yn rhoi y raffl a enillwyd gan Beryl Jones. Bydd y cyfarfod nesaf Tachwedd 23, pan fyddwn yn gwledda ein cinio Nadolig yn Llanfairfechan.

CLERC NEWYDD: Mewn cyfarfod arbennig o'r Cyngor Cymuned, apwyntiwyd Mr O. T. Jones, Bryn Gwenallt, yn Glerc y Cyngor Cymuned i olynu Mr Gwynedd Williams sydd wedi ymdeol ar ôl blynyddoedd maith yn y swydd. Mae gan Mr O. T. Jones brofiad helaeth fel gweinyddwr yn y Swyddfa Addysg yng ngwasanaeth y Cyngor Sir ac hefyd fel cyn-Glerc Cyngor Tref Caernarfon.

Y GYMDEITHAS LENYDDOL: Cafwyd agoriad campus i dymor arall o'r Gymdeithas Lenyddol nos Lun, Hydref 30 pan ddaeth dros 60 o aelodau ynghŷd i'r Ganolfan i glywed ail ran darlith ddifyr y Parch Huw Jones, Rhuddlan, ar 'Ochr Ddigri fy Ngweinidogaeth', ac yn wir ni'n siomwyd gan i bawb wir fwynhau awr a hanner o ffraethineb y siaradwr. Llywyddwyd gan Mr Rol Williams a thalwyd y diolchiadau gan Mr Emlyn Davies.

Yng nghyfarfod Tachwedd cafwyd sgwrs ddifyr gan Mrs Mary Vaughan Jones ar ei thaith i China. Llywydd y noson oedd Sion Rhys Jones, Penrhos, a thalwyd y diolchiadau gan Iolo Huws Roberts, Bodrida. Cynhelir y cyfarfod nesaf nos Lun, Rhagfyr 11 pryd y ceir darlith gan Mr Geraint Lloyd Owen ar y cymeriad di-hafal 'Llwyd o'r Bryn'. Llywydd y cyfarfod fydd Mr Ifor Hughes. Os oes unrhyw un yn dymuno ymaelodi am y tymor, rhaid gwneud hynny yng nghyfarfod Mis Rhagfyr gan na dderbynnir aelodau o'r newydd wedi'r cyfarfod hwn.

SEFYDLIAD Y MERCHED: Cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol o'r Sefydliad yn Festri Croes-y-Waun, nos Iau, Tachwedd 2, dan arweiniad y Llywydd Mrs Pat Parry. Cafwyd y cofnodion gan yr ysgrifennydd Mrs Peggy Jones. Y VCO oedd Mrs Pat Jones, Brynrefail.

Etholwyd y rhai canlynol am y tymor 1989-90: Llywydd: Mrs Catherine Jones; Is-lywyddion: Mrs Elen Jones a Mrs Katie W. Jones; Ysgrifennydd: Mrs Mair Williams; Trysorydd: Mrs Betty Griffith; Is-drysorydd: Mrs Rosemary Bracegirdle.

Darparwyd y te gan Mrs Peggy Jones a Mrs Catherine Jones. Enillwyd y raffl gan Mrs Missen. Diolchwyd i'r VCO a'i chyfeillion gan Mrs Betty Griffith. Bydd y cyfarfod nesaf ar Ragfyr 7 pryd y disgwylir Mrs Jenny Roberts i arddangos Addurniadau Nadolig.

ANTUR WAUNFAWR: Mae Radio Cymmru yn ddeg oed eleni ac fel rhan o'u dathliadau bu i raglen Dathlu'r Deg gael ei darlledu yn fyw o'r Antur fore Llun, Tachwedd 13. Daeth amryw o bobl yr ardal draw i weld a chlywed Hywel Gwynfryn a Sulwyn Thomas wrth eu gwaith. Yn wir bu i amryw ohonynt ynghŷd â rhai o weithwyr yr Antur gymryd rhan yn y rhaglen.

HYWEL GWYNFRYN A SULWYN THOMAS YNG NGHWMNI GWEITHWYR YR ANTUR A PHENTREFWYR WAUNFAWR

Cafwyd eitemau ar gân gan Dylan Parri ac Alun. Roedd yn rhaglen swmpus iawn ac yn achlysur hapus i bawb.

ADREF O'R YSBYTY: Croeso i Mrs Roberts, Bryn Golau, Mr M. H. Thomas, Tan-y-Foel, Mrs Arianwen Thomas, Bro Waun, Mrs Ernest Jones, Bro Waun a Mrs Gwyneth Griffith, Llys Helen, adref o'r ysbyty. Dymunwn wellhad buan ichi i gyd.

YN YR YSBYTY: Anfonwn ein cofion cynhesaf at Mrs Katie Wyn Jones, Bron Eifion, Mrs L. Jones, Goleufryn, Mr Emlyn Davies, Bodwyn a Mrs M. A. Owen, Stâd Tŷ Hen, sydd yn yr ysbyty.

CYDYMDEIMLO: Cydymdeimlwn yn fawr â theulu y ddiweddar Mrs Marion Jones, 'Shinfield'; â Mrs Arthur Pierce, Bro Waun, ar golli ei brawd a'i chwaer yn ddiweddar; â Mrs Lily Jones, Goleufryn ar golli ei chwaer.

DAMWEINIAU: Mae'n dda deall bod Mr Aled Taylor, Dol Erddi, yn gwella ar ôl torri ei goes, a bod Mr Will Jones, Graianfryn yn gwella ar ôl brifo ei law.

GENEDIGAETH: Ganwyd mab bychan i Liz a Jeff Daniels, Stâd Tŷ Hen. Mae'r bychan ar hyn o bryd yn Ysbyty Alder Hey, Lerpwl. Dymunwn y gorau iddo ac i'w rieni.

BEDYDD: Mewn gwasanaeth arbennig ar Ynys Enlli gyda ffrind i'r teulu yn gweinyddu, bedyddiwyd Lois Mai, merch fach Dafydd a Marilyn Thomas, a Pryderi, mab bach Catrin ac Eurwyn Thomas. Mae Pryderi a Lois yn ŵyr ac ŵyres i Mrs Mai Roberts, Bodafon.

Yng nghapel Croesywaun gyda'r Parch Michael Thomas yn gweinyddu, bedyddiwyd Marc Richard, mab bach Geraint a Veronica Owen, Cil-y-Mynydd.

Dysgwch yrru'r car gydag

Y.Y.O.

YSGOL YRRU OFALUS

* Gwasanaeth 7 diwrnod
* O ddrws i ddrws
* Control Deuol

D L

PRITCHARD

43 Glanffynnon

LLANRUG

CAERNARFON 5112

Cymeradwyir gan yr Adran Drafnidiaeth

FFENESTRI UPVC DRYSAU MEWN GWYN NEU MAHOGANI



Esiampl o bris a gosod

Crefftwyr profiadol yn eu gosod

Ffoniwch am bris i

J R PRITCHARD, 14 Glanrafon, Bontnewydd

Ffôn: Caernarfon 3507 (dydd neu gyda'r nos)

Croesawn ymholiadau gan fasnachwyr

Aled Jones

Peiriannydd Gwres Canolog a Phlymio

4 Bryn Eglwys Penisarwaun

Ffôn: Llanberis 871047

DYMUNIADAU GORAU: i Mrs Kit Jones, Stâd Tŷ Hen, ar ei hymddeoliad o'i gwaith fel nyrs; i Mrs Lilian Jones, Treflys, ar ei hymddeoliad o'i gwaith ym Meddygfa Liverpool House; i Mrs Glenys Jones, Rhandir Mwyn, fydd yn dechrau ar ei swydd newydd gyda Ffilmiau Eryri.

DATHLU PENBLWYDD: Bu Siân Llwyd, Dol-y-Coed, Debrah Roberts, Ael-y-Bryn a Mia Wilding, Ger y Ffynnon, yn dathlu eu penblwydd yn ddeunaw oed yn ystod y mis. Bu Rhian Williams, Bro Waun, yn dathlu ei phenblwydd yn un ar hugain mlwydd oed. Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau iddynt i'r dyfodol.

Llongyfarchiadau mawr hefyd i Mr George Taylor, Dol Erddi, ar gyrraedd ei benblwydd yn 91 oed.

LLONGYFARCHIADAU: i Heledd Elfryn, Coed Gwydryn, am ddod yn drydydd mewn cystadleuaeth tynnu llun Guto Ffowc i blant rhwng 6 a 8 oed a drefnwyd gan y Bwrdd Crwn; i Bethan Wyn, Y Frenni, ar ennill cadair blwyddyn 3 a 4 yn Eisteddfod Ysgol Syr Hugh Owen. Bu amryw o bobl ifanc y pentref yn cystadlu yn yr eisteddfod ac wedi bod yn llwyddiannus. Llongyfarchiadau mawr iddynt i gyd.

Hefyd i Mr Treflyn Thomas, Treforfan, am ennill gwobr am arddangos adar yn sioe adar Dyffryn Nantlle.

Bethan Wyn a enillodd gadair blwyddyn 3 a 4 yn Eisteddfod Ysgol Syr Huw Owen.

Apêl Eisteddfod yr Urdd Dyffryn Nantlle ac Arfon 1990

GYRFA CHWIST

i'w chynnal yn y Ganolfan NOS WENER, RHAGFYR 8 am 7.30 o'r gloch. M.C.: Mr O. T. JONES.

PRIODAS: Dydd Sadwrn, Hydref 21, yng nghapel Seilo, Caernarfon, priodwyd Miss Ann Llewelyn Griffiths, merch Mr A. L. Griffiths a'r ddiweddar Mrs M. Griffiths, Eirianallt, a Brian Spencer Williams, Pandy, 17 Llys Meirion, Caernarfon, mab Mrs M. Williams a'r diweddar Mr A. I. Williams.

Dymuna Brian ac Ann Williams ddiolch i bawb am yr anrhegion a'r dymuniadau da a dderbyniwyd ar achlysur eu priodas.

LLONGYFARCHIADAU: i Aled Rhys Jones am ennill gwobr gyntaf am gynllunio clawr llyfr mewn cystadleuaeth a drefnwyd gan lyfrgell y Sir yn ddiweddar. Enillodd Aled y wobr gyntaf trwy Arfon a Dwyfor yn yr oedran Safonau 1 a 2 am gynllunio clawr 'Superted'.



Aled Rhys a'r clawr llyfr a gynlluniodd.

DIOLCH: Diolch i'r rhai a ddaeth i'r Ganolfan i blygu'r Eco y mis diwetha.

DIOLCH: Dymuna Hugh ac Eirlys Griffith, Llythyrdy, Waunfawr, ddiolch i'w cwsmeriaid a'u ffrindiau am eu cefnogaeth yn ystod y saith mlynedd diwethaf. Diolch hefyd i'r staff am eu cymorth. Dymuniadau gorau i Mr a Mrs D. Ryan i'r dyfodol.

Dymuna Mrs Grace Roberts, 13, Bryn Golau, ddiolch i'r meddygon, y nyrs, ei theulu, cymdogion a ffrindiau am bob caredigrwydd a dderbyniodd ar ôl iddi gael triniaeth yn Ysbyty Gwynedd.

APÊL PLANT MEWN ANGEN: Bu amryw o blant a phobl ifanc y pentref yn brysur mewn gwahanol weithgareddau ac yn casglu arian i'r apêl. Da iawn hwy am weithio dros blant llai ffodus na hwy eu hunain.

PRIODI: Yng nghapel Croesywaun, dydd Sadwrn, Tachwedd 4, gyda'r Parch Elwyn Edwards yn gweinyddu a Mrs O. T. Jones wrth yr organ, priodwyd Bethan Williams, Fferm Bodhyfryd, a Peter Roberts o Ddeganwy.

Yng nghapel Bethel, dydd Sadwrn, Tachwedd 11, gyda'r Parch S. O. Hughes yn gweinyddu a Miss Eirlys Jones wrth yr organ, priodwyd Einir Jones, Dol Erddi a Tony Leigh o Lundain. Dyma'r briodas gyntaf i gael ei gweinyddu yng nghapel Bethel ar ei newydd wedd. Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i'r ddau bâr ifanc.

FFARWELIO: Ddiwedd y mis byddwn yn ffarwelio â Mr a Mrs Griffith a Geraint o lythyrdy y pentref. Dymunwn y gorau iddynt yn eu cartref newydd yn Llanfairpwll, Ynys Môn.

Croesawn Mr a Mrs Ryan a'u merch Nicky i'r post, gobeithio y byddant yn ymgartrefu yn ein mysg.

YR URDD: Nos Lun, Tachwedd 13, cynhaliwyd cystadleuthau nofio Sir Eryri ym Mhwll Nofio Dinas Bangor. Diolch i Mrs Eirwen Jones, Cynefin, a Mrs Carys Jones, Morawel, am drefnu i fynd a'r plant yno, ac hefyd i ymarfer cyn noson y gystadleuaeth. Diolch hefyd i'r rhieni eraill fu'n gyfrifol am gludo a chefnogi'r cystadleuwyr.

Yn y cystadleuthau i ferched dan 10 oed cymerodd Sioned Jones ran yn y Ras Gefn, a Sian Jones ran yn y Ras Rydd a'r Ras Broga. Bu'r merched o 10 i 12, sef Bethan Cadwaladr, Gwenno Owen, Ffion Edwards a Kirsty Jones yn brysur hefyd, yn cymeryd rhan mewn dwy ras Gyfnewid, sef Rhydd a Chymysg. Daeth tîm y bechgyn o 10 i 12, sef Huw Gwilym, Llŷr Jones, Kevin Davies ac Iwan Jones yn drydydd yn y Ras Gyfnewid Rydd, a daeth Kirsty Jones yn ail yn y gystadleuaeth Ras Gefn o 10 i 12 ac yn gyntaf yn y Ras Broga. Hi fydd yn cynrychioli Sir Eryri yn y gystadleuaeth yma yn y profion terfynol cenedlaethol sydd i'w cynnal ar Ragfyr 2 ym Mhwll Nofio Bangor. Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau iddi.

Dymuniadau gorau hefyd i'r rhai fydd yn cymeryd rhan yng nghystadleuthau Gwynedd o Nofio'r Urdd i rai o 12 i 15 oed yng Nghanolfan Hamdden Arfon, nos Iau, Tachwedd 30.

Diolch i bawb a gefnogodd Noson Guto Ffowc ar Dachwedd 4. Cafwyd digon o hwyl, ac wrth lwc fe beidiodd y glaw am ychydig o oriau!

Diolch i Heulwen Evans o Benisarwaun ac Anwen Owen o Lanrug am ddod i hyfforddi'r plant mewn Dawnsio Gwerin ar Dachwedd 15. Diolch i Rhian Ellis am gyfeilio ac i Rhian Jones, Ann Elfryn ac Eifion Glyn am dipyn o gymorth ymarferol!

Nos Fercher, Tachwedd 22, cafwyd noson ddifyr, fel arfer, yng nghwmni Duncan Brown, gyda Gareth Jones a Glenys Jones yn cynorthwyo.

Cofiwch am weddill y cyfarfodydd o hyn i'r Nadolig, sef: Tachwedd 29: Noson yng nghwmni Gill Brown; Rhagfyr 6: Noson Garolau yng nghwmni Dafydd Iwan (gofynnir i bob aelod gyfrannu hanner dwsin o Fins Peis); Rhagfyr 13: Disgo Nadolig.

NOSON GAROLAU'R URDD

Cynhelir Noson o Garolau gan blant yr Urdd yng Nghwmni Dafydd Iwan yn y Ganolfan, Rhagfyr 6, am 6 o'r gloch. Bydd paned a Mins Pei ar gael, a gwneir casgliad at achos teilwng. Croeso cynnes i bawb.

Cangen Plaid Cymru Waunfawr

FFAIR NADOLIG

Nos Wener, Rhagfyr 1af am 6.60 p.m. yn y Ganolfan, Waunfawr.

Mynediad:

Oedolion 30c, Plant 10c

Dyma eich cyfle i brynu anrhegion Nadolig di-ri: llyfrau, crefftau, cynnyrch cartref a.y.b.

Cynhelir arwerthiant anhygoel gyda dodrefn a phob math o eitemau amrywiol mawr a mân, ac wrth gwrs bydd Siôn Corn yn galw yn ystod y noson.

Dewch yn llu am noson o hwyl.

Am waith
PEINTIO, ADDURNO
a mân atgyweirio oddi mewn neu tu allan am bris rhesymol
cysyllter ag

ERIC JONES

17 BRYN TIRION

PENISARWAUN

Ffôn: LLANBERIS 872421

Y Foelas

CARTREF YR HENOED

CARTREF NEWYDD COFRESTREDIG AG IDDO AWYRGYLCH GYMREIG

CYSYLLTWCH Â MRS MEIRWEN THOMAS NEU MRS ELI WILLIAMS

Ffordd yr Orsaf, Llanrug, Caernarfon

(0286) 4652

ECO'R IFANC



• *Lliwiwch y siapau yn wyrdd*
× *Lliwiwch y siapau yn goch*



• *Lliwiwch y siapau yn felyn*
•. *Lliwiwch y siapau yn las*

Cofiwch am y gystadleuaeth Nadolig – mae gwobrau i'w hennill – felly anfonwch eich ceisiadau i'r Eco cyn Rhagfyr 5ed. Traed dan'i rwan, a hwyl ar y paratoi!!

CORNEL JÔCS

Diolch i blant Safon 4, Ysgol Dolbadarn, Llanberis, am rai o'r jôcs yma !!!

Sut mae draenogod yn cusanu dan yr uchelwydd?
Yn ofalus iawn!

Pa awyren yw hoff awyren Rwdolff a'i drwyn coch?
Conk – cord!

Be ddywedodd yr hogyn octopws wrth yr hogan octopws?
Dwi ishio gafael yn dy law, law, law, law, law, law ...!!

Beth roddodd Santa i'r octopws yn anrheg Nadolig?
Pedwar pâr o fenyg!

Beth sy'n mynd 'Ho, ho, ho, bonc!'
Sion Corn yn chwerthin ei ben i fwrdd!

Elin: Beth ydi enw gwraig Santa?
Iwan: Mrs Santa?
Elin: Na, Meri Christmas!

Be' gei di wrth groesi Siôn Corn â Sherlock Holmes?
Santa Cliws!

Mam, Mam, ga'i gi Nadolig?
Na chei – gei di dwrci fel pawb arall!!

Pwy sydd byth yn llwgu dros y 'Dolig?
Y twrci – mae o o hyd wedi'i stwffio!

Cnoc, cnoc
Pwy sy' na?
Besi
Besi pwy?
Be sy' ar y teledu Noswyl Nadolig?

Sut mae Santa yn gwisgo ym Mhegwn y Gogledd?
yn gyflym!

O ble daw llefrith yr Esgimôs?
O Esgimŵs!

Beth sy'n frown, sy'n stêmio ac sy'n mynd i fyny ac i lawr?
Pwdin 'Dolig mewn lifft!

Beth sy'n frown, ac yn stêmio, ac sy'n gwisgo sbectol haul?
Pwdin 'Dolig ar ei wyliau!

Mae'r pwdin 'Dolig 'ma'n neis ac yn gynnes.
Mi ddylai fod – mae'r gath wedi bod yn eistedd arno!!

Beth sy'n felyn, ac sy'n siglo o Gacen 'Dolig i Gacen 'Dolig?
Tarzipan !!!

Pam fod Santa yn gwisgo brêsus coch?
I ddal'i drowsus i fyny!

Pa fath o arholiadau wnaeth Santa eu pasio?
Ei lefel ho-ho-ho!

Glywaist ti'r jôc 'na am y dyn eira?
Mae o'n dy adael di'n oer!!

Be sy'n ddu a gwyn a choch drosto?
Santa'n disgyn lawr y simne!

YMDDIHEURIAD: Ein ymddiheuriad i Michelle Louise Roberts, am ei throi'n fachgen yn "Eco Ifanc" y mis diwethaf! Michelle ac nid "Michael" oedd yn fuddugol ar gystadleuaeth sgwennu barddoniaeth (safon 1 a 2) yn Eisteddfod Llanrug.

Pa gracer ddylech chi godi gyntaf?
Dechreuwch â Rhif 3

LLIWIWCH Y LLUN

DYMA SIÔN CORN YN DOD!

HOSAN

DYN EIRA

SIÔN CORN

FFON AMRYLIW

BETHEL

Gohebydd: Geraint Elis, Cilgeran (Portdinorwig 670726)

LLONGYFARCHIADAU: i Sheila ac Alun Foulkes, Tyddyn Gwndwn, ar enedigaeth mab bychan, Dewi. Llongyfarchiadau i Iola a Maldwyn Hughes, Tyn Llan Uchaf, Llanddeiniolen, ar enedigaeth mab bychan, Siôn.

CYMDEITHAS RIENI AC ATHRAWON YSGOL BETHEL: Cynhaliwyd cyfarfod blynyddol y gymdeithas nos Lun, Tachwedd 6. Swyddogion newydd y gymdeithas fydd: Cadeirydd, Miss Lowri Prys Roberts; Is-gadeirydd, Mr Richard Ll. Jones; Ysgrifennydd, Mrs J. Eluned Davies; Trysorydd, Mr Richard Parry; Aelodau o'r pwyllgor: Mrs Lynwen Morris, Mrs Enid Williams, Mrs Pat Jones, Mrs Sian Robinson, Mrs Eryl Roberts, Mrs Llinos Hughes a Mr Gwilym Williams.

Diolchwyd i aelodau'r hen bwyllgor am eu gwaith a'u cefnogaeth yn ystod y flwyddyn. Gobeithir y bydd y pwyllgor newydd yr un mor llwyddiannus. Yn ystod y cyfarfod trefnwyd raffl ar gyfer y Nadolig.

Y GYMDEITHAS LENYDDOL: Nos Fawrth, Tachwedd 14, cafwyd noson ddifyr iawn yn festri Cysegr yng nghwmni Mr Alun Jones o'r Rhiw. Cafwyd darlith ar 'Lenor Cyntaf Llŷn' sef Robert Wynne, Penyberth a ysgrifennodd nifer o lythyrau i'r rhai oedd yn glynu at Babyddiaeth yng nghyfnod y Chwyldro Protestanaidd 400 mlynedd yn ôl. Cyflwynwyd Mr Jones gan y llywydd Mr Collwyn Williams a diolchwyd iddo gan Mr Geraint Elis.

CLWB Y RHOS: Nos Lun, Tachwedd 13 yn yr ysgol a dan lywyddiaeth Mr Bobby Haines cafwyd noson ddifyr iawn yng nghwmni Mr Terry Wood o Lanrug. Mae Mr Wood yn gweithio gyda gwasanaeth ambiwlans Gwynedd a rhoddodd sgwrs ddifyr ac addysgiadol ar sut i drin pobl yn cael trawiad ar y galon. Roedd y noson wedi ei threfnu gan Mr Evan Owen a diolchwyd i Mr Wood gan Mr Collwyn Williams. Croesawyd Mr Ioan Griffith yn aelod newydd o'r Clwb.

MERCHED Y WAWR: Aeth nifer dda iawn o aelodau'r gangen i Goleg Glynllifon am noson ddifyr iawn yng nghwmni Mrs Antoinette Hughes. Dangosodd Mrs Hughes nifer o risetiau y gellid eu paratoi ar gyfer y Nadolig a rhai prydau gan ddefnyddio twrci oer. Rhoddwyd y bwydydd i'w rafflo ac fe'u henillwyd gan Mrs Mary Evans, Mrs Eryl Roberts, Mrs Awena Jones, Mrs Ann Elisa a Mrs Glenys Griffiths. Diolchwyd i Mrs Hughes ar ran y gangen gan Mrs M. G. Williams.

Mae trefniadau parti Nadolig yn nwylo'r pwyllgor ac fe'i cynhelir yn Neuadd yr Ysgol ar Ragfyr 13. A wnaiff pawb gofio dod a chwpan a soser.

PLAID CYMRU: Dydd Sadwrn, Rhagfyr 2, bydd y gangen leol yn cynnal stondin at y Maes yng Nghaernarfon o 10 o'r gloch ymlaen. Bydd angen gwirfoddolwyr i redeg y stondin ac i gyfrannu cacennau, jams, chutneys neu debyg ar gyfer eu gwerthu ar y stondin. Cysylltwch a Gwenan ar 670022 gyda'ch rhoddion neu os gallwch roi rhyw ychydig o amser ar y stondin.

LLONGYFARCHIADAU i Miss Eurwen Williams, Penlôn ar basio yr arholiad R.N.M.H. (Registered Nurse for the Mental Handicapped). Bydd Eurwen yn prhau i weithio yn ysbyty Bryn y Neuadd, Llanfairfechan.

EISTEDDFOD GADEIRIOL BETHEL: Dydd Sadwrn, Tachwedd 11 cynhaliwyd Eisteddfod Gadeiriol y pentref. Cafwyd eisteddfod o safon uchel iawn eleni eto gyda chystadlu brwd yn y rhan fwyaf o'r cystadleuthau. Enillydd y Gadair, gyda chanmoliaeth mawr gan y beirniad oedd Dafydd Guto Ifan, Tan y Ffordd, gyda Sioned Owen Cefn Cynrig yn ennill y Tlws dan 18 oed.

Mae'n diolch yn fawr unwaith eto i bwyllgor yr Eisteddfod ac i'r swyddogion am eu gwaith mawr yn trefnu'r gweithgareddau ac yn arbennig i bawb fu'n cystadlu ac yn hyfforddi'r cystadleuwyr.

Dyma ganlyniadau'r eisteddfod:

CERDDORIAETH:

Dan 4 oed:1, Elain Llwyd; 2, Lois Wyn Hughes; 3, Ffion Williams. **O 4 i 6:** 1, Gwenan Jones; 2, Gweno Thomas a Iolo Ellis; 3, Enlli Môn Hughes.**O 6 i 8:** 1, Awen Thomas; 2, Sioned Davies a Rhian Williams; 3, Robin Owen; 4, Nia Thomas. **Parti dan 8:** 1, Parti Bechgyn; 2, Parti Genethod. **Unawd Piano dan 9:** 1, Geraint Owen; 2, Bethan Williams a Sioned Davies; 3, Bethan Fôn Jones. **Canu o 8 i 10:** 1, Bethan Williams; 2, Bethan Fôn Jones; 3, Lowri Williams. **O 10 i 12:** 1, Carwyn John Morris; 2, Llinos Morris. **Unawd Piano dan 12:** 1, Lois Druce; 2, Huw Jones; 3, Eleri Robinson. **Unrhyw Offeryn heblaw'r Piano dan 12:** 1, Dewi Griffiths; 2, Iwan Hughes; 3, Eleri Robinson a Caryl Owen. **Parti dan 12:** 1, Lop Scows; 2, Parti Dewi; 3, Parti Delyth. **Enillydd y Prynhawn;**Carwyn John Morris. **Canu dan 15:** 1, Sioned Owen; 2, Ruth Parry; 3, Menna Williams. **Unawd Piano dan 15:** 1, Sioned Owen; 2, Llinos Angharad Morris. **Parti Canu dan 15:** 1, Parti Menna; 2, Parti Rapscaliwns. **Deuawd dan 18:** 1, Ruth Parry a Lynn Roberts. **Chwarae unrhyw offeryn heblaw Piano dan 18:** 1, Wena Williams; 2, Menna Williams. **Unawd dan 18:** 1, Sioned Owen. **Unawd Piano dan 18:** 1, Lynn Roberts; 2, Wena Williams. **Deuawd Piano agored:** 1, Sioned Owen a Esyllt Jones; 2, Lyn Roberts a Ruth Parry. **Unawd Agored:** 1, Sioned Owen. **Unawd Alaw Werin:** 1, Sioned Owen; 2, Bethan Fôn Jones. **Enillydd Cwpan Mrs Joan Foulkes:** Lynn Roberts.

LLENYDDIAETH:

Babanod Canol:1, Dafydd Emrys; 2, Owain ac Enlli; 3, Gwenan Heledd, Aled a Gwenan Jones. **O 6 i 7:** 1, Kelly Williams; 2, Rhian Williams; 3, Nia Thomas. **Safon 1:** 1, Julie Burnand; 2, Lara Davies; 3, Erin Clarkson. **Safon 2:** 1, Meilyr Emrys; 2, Llinos Williams a Laura Millican; 3, Bethan Fôn a Rebecca Hall. **Safon 3:** 1, Huw Llywelyn Jones; 2, Caryl Owen; 3, Lois Druce a Barry Davies. **Safon 4:** 1,Eurig Druce; 2, Carwyn John Morris; 3, Iwan Hughes. **Tlws am y gwaith gorau:** Eurig Druce. **Ysgol Uwchradd. Safon 1 a 2:**1, Llinos W. Morris. **Safon 3 a 4 (Cerdd):** 1, Non Llywelyn Jones; 2, Sharon Ellis. **Safon 3 a 4 (Stori):** 1, Sioned Owen; 2, Non Llywelyn Jones; 3, Bethan Jones a Menna D. Williams.**Llên dan 18:** 1, Lynn Roberts; 2, Menna Dauncey Williams. **Cwlwm Tafod:** 1, Menna D. Williams. **Enillydd y Tlws dan 18 oed:**Sioned Owen. **Agored:** 1, Dafydd Guto Ifan; 2, Ioan Gruffydd. **Stori Fer:** 1, Dafydd Guto Ifan. **Cyfieithu:** 1, Angharad Preis. **Ysgrifennu Sgets:** 1, R. Lloyd Jones. **Llythyr at Aelod Seneddol:** 1, Mrs M. G. Williams a Dafydd Guto Ifan. **Brawddeg:** 1, Mrs Meinir Roberts; 2, Richard Ll. Jones. **Cerdd:** 1, Dafydd Williams; 2, R. Lloyd Jones a Mrs M. G. Williams a Goronwy Jones. **Emyn:** 1, R. Lloyd Jones; 2, Goronwy Jones.**Llinell Goll:**1 a 2, Mrs M. G. Williams; 3, Goronwy Jones. **Parodi:** 1, Dafydd Williams; 2, R Lloyd Jones. **Dros 60:** 1, Mrs M. G. Williams. **Enillydd y Gadair:** 1, Dafydd Guto Ifan; 2, Dafydd Williams a Mrs M. G. Williams.

ADRODD:

Dan 4:1, Lois Hughes; 2, Elain Llwyd; 3, Jenny, Ffion, Emma ac Oliver.**O 4 i 6:** 1, Gwenno Thomas; 2, Owain Sion Williams; 3, Iolo, Gwenan Heledd a Bethan Mair. **O 6 i 8:** 1, Meleri Ellis; 2, Nia Thomas; 3, Robin Owen. **Parti dan 8:** 1, Genod; 2, Bechgyn. **O 8 i 10:** 1, Caryl Owen; 2, Eleri Robinson; 3, Bethan Williams. **O 10 i 12:** 1, Carwyn John Morris; 2, Llinos Morris; 3, Iwan Hughes.**Parti dan 12:** 1, Tatws Pum Munud; 2, Parti Gwenan; 3, Bechgyn. **Enillydd y Tlws am y perfformiad gorau:** Carwyn John Morris. **Adrodd o 12 i 15:**1, Sioned Owen; 2, Llinos Angharad Morris; 3, Donna Williams a Menna D. Williams. **Parti 12 i 15:** 1, Rabscaliwns; 2, Sian. **Adrodd dan 18:** 1, Sioned Owen; 2, Donna Marie Williams. **Darllen darn o ryddiaith:** 1, Ioan Gruffydd; 2, Mair Price a Rita Williams; 3, Arwel Jones. **Cyflwyniad ar Lafar ac ar Gân:** 1, Parti Stella; 2, Parti Glenys; 3, Genod Ni. **Darllen heb atalnod:** 1, Mrs Mair Read; 2, Mrs Glenys Griffiths a Sioned Owen; 3, Bethan Roberts.

GWAITH LLAW:

Dan 8:1, Gwenan Michael; 2, Robin Owen. **Dan 10:** 1, Delyth Michael; 2, Delyth Michael; 3, Bethan Fôn Jones. **Agored, dilledyn i fabi:** 1, Gwyneth Williams; 2, Meinir Roberts. **Dilledyn i blentyn:** 1, Meinir Roberts; 2, Meinir Roberts. **Lliain Hambwrdd:** 1, Anwen Jones; 2, Anwen Jones. **Eitem yn defnyddio clytwaith:** 1, Myfanwy Wyn Jones. **Dilledyn i ffitio'r ymgeisydd:** 1, Gwyneth Williams. **Trefniant o Flodau:** 1, Edwina Morris; 2, Eleri Warrington a Llinos Wyn Morris.

COGINIO:

Dan 12 :1, Delyth Wyn Morris; 2, Carwyn John Morris; 3, Delyth Michael. **Dan 15:** 1, Llinos Angharad Morris; 2, Sioned Owen; 3, Ruth Parry. **Dan 18:** 1, Sioned Owen; 2, Lynn Roberts; 3, Ruth Parry. **Agored, 4 Rhol Wen:** 1, Sioned Owen; 2, Rhian Hughes; 3, Ruth Parry. **Torth Frith:** 1, Olwen Williams; 2, Glenys Griffith; 3,Morfydd Thomas. **Swper Llysieuwr:** 1, Eirlys Williams; 2, Nan Rowlands; 3, Eirlys Williams a Nan Rowlands. **Swisdir Siocled:** 1, Glenys Griffith; 2, Rhina Hughes; 3, Rita Williams. **Teisen**

GWASANAETH Y CADOEDIAD



Plant Safon 4 yn gosod croes i gofio am hogia'r ysgol gafodd eu lladd yn rhyfel 1939-45. Naw plentyn yn rhoi croes am y naw fu farw. Yr hogia a laddwyd oedd: Robert Thomas Griffith, Rowland John Hughes, John Owen Morris, David Parry, Hugh Parry Jones, Samuel Roberts, Hughie Thomas, John Williams a Stanley Williams.

Beth am ddysgu dreifio gydag

YSGOL YRRU BETHEL

Cysylltwch â

Richard M. Hughes

42 Bro Rhos, Bethel

Portdinorwig

671009

- Jig i Atgyweirio Cyrff
- Tiwnio Crypton
- MOT
- Ail-Sbreo
- Tracio
- Balansio Olwynion
- Gwasanaethu
- Cymysgu Paent
- Gwerthu Ceir Newydd ac Ail-law
- Partiau Renault
- Petrol ESSO a DERV
- Sigarennau a Melysion
- Calor Gas

PRIF GYNRYCHIOLWYR SEAT YNG NGWYNEDD

Perchennog: E.P. Hughes

MODURDY DOLYDD

GROESLON Ffôn: Llanwnda 830562

Afal: 1, Edwina Morris; 2, Glenys Griffith ac Eirlys Sharpe; 3, Myfanwy Wyn Jones. **Cacen Geirios:** 1, Glenys Griffith; 2, Nan Rowlands; 3, Gwyneth Jones. **Chutney:** 1, Nan Rowlands; 2, Mair Jones; 3, Eirlys Williams ac Anwen Jones. **Pitsa:** 1, Mair Price; 2, Annie E. Williams; 3, Glenys Griffith a Gwen Jones. **Cacen Benblwydd:** 1, Eirlys Williams; 2, Nan Rowlands. **Cyffug:** 1, Myfanwy Wyn Jones; 2, Edwina Morris; 3, Gwyneth Jones. **Te Prynhawn:** 1, Edwina Morris.

FFOTOGRAFFI:

Ysgol Gynradd: 1, Dewi Griffiths; 2, Dewi Griffiths; 3, Dyfan Elis. **Ysgol Uwchradd:** 1, Gwenan Elis; 2, Ruth Parry; 3, Ruth Parry. **Agored:** 1, Glyn Roberts; 2, Glenys Griffiths, 3, Glyn Roberts.

ARLUNIO:

Ysgol Feithrin, Plant Ieuengaf: 1, Manon Glyn Roberts; 2, Caryl Rees Roberts; 3, Meinir Hughes. **Plant Hynaf Meithrin:** 1, Angharad Sturrock; 2, Stephanie Jerram; 3, Emma Vaughan Jones. **Ysgol Bethel, Babanod dosbarth Mrs Sutherland:** 1, Arfon Salisbury; 2, Sarah Louise Hughes; 3, Matthew Roberts. **Babanod Canol:** 1, Mark Looney; 2, Sarah Morgan; 2, Iolo Ellis. **Babanod Hynaf:** 1, Rhian Williams; 2, Michelle Johnson; 3, Paul Thomas. **Safon 1:** 1, Glynne Jones; 2, Awen Thomas; 3, Robin Owen. **Safon 2:** 1, Bryn Williams; 2, Charles Bent; 3, Gareth Jones. **Safon 3:** 1, Barry Davies; 2, Eleri Robinson; 3, Fiona Lambrecht. **Safon 4:**1, Irfon Jones; 2, Eurig Druce; 3, Glyn Davidson. **Dan 18:** 1, Gail Warrington; 2, Gail Warrington; 3, Jennifer G. Jones. **Agored:**Mrs Anne Salisbury.

Rhai o enillwyr tlysau Eisteddfod Bethel – Bryn Williams, Eurig Druce, Carwyn John a Gwenan Michael.

ENILLWYR TLYSAU:

Gwaith Llaw dan 18: Gwenan Michael.**Gwaith llaw i bob oed:**Edwina Morris.**Coginio dan 18:**Sioned Owen. **Coginio Agored:**Eirlys Williams.**Arlunio:** Bryn Williams.

Caryl Owen ac Eleri Robinson o Ysgol Bethel a fu'n actio yn 'Enoc Huws' yn Theatr Gwynedd.

Dyma stori orau'r eisteddfod – stori a gafodd ganmoliaeth uchel gan y beirniad John Hywyn.

CARCHARU PEDWAR

Mae dyn post newydd wedi dod i fyw i Fethel. Mae'n byw yn 16 Stryd Ganol, Saron, Bethel. Mae'r dyn yn dri deg pump oed. Mae ganddo dri o blant. Ond does neb yn eu gweld ond y teulu. Mae'r plant mewn ysgol breifat yn Bae Cowlyn. Does bosib bod cyflog dyn post yn ddigon i yrru tri o blant i ysgol breifat yn Bae Cowlyn?

Gwaith y dyn yw plismon C.I.D. ond bod ar waith i chwilio am y grŵp Owain Glyn Dŵr sydd yn llosgi tai haf neu dai drud. Mae o'n gwneud gwaith dyn post, i ddod i adnabod pobl er mwyn trio dal y grwp Owain Glyn Dŵr.

Nid hwn yw'r unig blismon C.I.D. sydd yn cogio gwneud gwaith fel hyn. Mae un yn dreifio bws 'Seren Arian' er mwyn cael adnabod pobl Nantlle a Phenygroes. Mae un arall yn cogio ei fod yn ddyn gwerthu papur newydd ym Mangor a'r cylch. Mae'r tri yn dod a'u gwybodaeth i sied fawr wrth ymyl gorsaf yr heddlu yng Nghaernarfon.

Ers tair mis maent wedi dod o hyd i wybodaeth am grŵp Owain Glyn Dŵr. Maent wedi darganfod bod y grŵp wedi eu rhannu yn grwpiau bach. Mae un o'r grwpiau yn cyfarfod mewn capel, ac yn smalio eu bod yn darllen y Beibl os roedd rhywun yn dod. Mae'r grŵp yn cyfarfod bob nos lau o saith i wyth o'r gloch y nos. Mae'r heddlu rownd y capel ac yn disgwyl i'r dynion ddod allan.

Pan ddaethant allan daliodd yr heddlu eu gynau i fyny. Roedd chwech dyn. Cafodd pedwar eu dal a ffoniodd yr heddlu am fan yr heddlu. Pan gyrheuddodd y fan taflwyd y pedwar i mewn iddi ar ôl iddynt gael eu cwestiynu aeth yr heddlu i chwilio am y ddau arall.

Nid yw'r heddlu yn barod i adael y pedwar fynd eto am nad ydynt wedi cael hyd i'r ddau arall. Maent wedi bod yn chwilio ym mhob man a maent wedi cysylltu a heddlu Iwerddon a Ffrainc rhag ofn bod y ddau wedi mynd dros y dŵr i ddianc. Bellach mae'r pedwar arall wedi bod yn y llys ac wedi cael deg mlynadd o garchar, ac mae'r ddau arall yn dal heb gael eu carcharu.

EURIG DRUCE

LLUN GORAU EISTEDDFOD BETHEL



Bryn Williams oedd yr enillydd. Trueni na fyddai'r Eco mewn lliw!!

J.M. JONES A'I FEIBION

GWAITH CERRIG BEDDAU

Y SGWÂR, LLANRUG

Crefftwyr gwaith llaw traddodiadol, Cerrig o bob math ar gael.

Ffôn: Caernarfon 2898 (dydd) Caernarfon 76285 (nos)

HOME IMPROVEMENT CENTRE

FFORDD YR ORSAF, LLANRUG

Ffôn: C'fon 2122

ar gyfer...

Paent, Papur wal, Anghenion addurno, Coed, Tywod, Gro, Brics, Blociau, a Sment, Offer plymio

Anghenion Tŷ, Garddio, Hadau Unwin, Hardware, nwyddau Ironmonger Teganau

EISTEDDFOD YSGOL BRYNREFAIL

Cystadleuaeth y Gadair

FFARWELIO

'Mam, ga'i fynd i'r Disgo heno efo Siwan a Mari?' ebe Sioned ar ôl cyrraedd adref o'r ysgol.

'Wel, dwn i ddim,' meddai Mrs Owen, 'Mi roeddwn i eisiau mynd i'r fynwent i roi blodau ar dy dad, ond os nad wyt ti eisiau dod, wel ...'

'Wel,os y cai fynd heno, dw i'n addo yr â'i y peth cyntaf bore fory.'

'Ol reit,' ildiodd ei mam, 'Ond cofia, tyrd adref erbyn unarddeg o'r gloch, neu mi fydd y drws 'di cau arnat.'

'O! diolch mam!' gwaeddodd Sioned, hanner ffordd i fyny'r grisiau. 'A dw i'n addo na fydda'i adref ar ôl unarddeg!'

Ni ddeallai Sioned pam yr âi ei mam i'r fynwent mor aml. Roedd yn mynd bob nos am rhyw awr ac yna bob wythnos i roi blodau arno. Cael ei ladd mewn damwain car wnaeth ei thad rhyw ddwy flynedd yn ôl, pan oeddynt yn teithio adref o dŷ ei nain, ac yntau wedi anghofio rhoi'r gwregus amdano. Lladdwyd ei thad yn syth, a bu'n rhaid i'w mam gael triniaeth am y sioc. Er nad hi oedd wedi ei chlwyfo gan y ddamwain, roedd breuddwydion am y trychineb yn dal i'w dychryn weithiau. Cafodd coes Sioned ei thorri, ac er nad oedd y ddamwain mor bell a hynny'n ôl, ni allai yn ei byw gofio ei thad rywsut.

Hefyd, roedd ei mam wedi dechrau ysmygu yn ôl, ac ambell i waith yn yfed potel o 'Gin' bob nos Sadwrn, nes ei bod yn chwîl, ac yn mynd i mewn i ystafell ei merch yn beichio crio ac yn ei chofleidio a hen straeon o pan oedd hi a thad Sioned heb briodi, a sut y daethant i gwrdd a'i gilydd.

Roedd Sioned wedi hen arfer bellach, ond ambell i waith, byddai hi'n rhoi clô ar ddrws ei hystafell i atal ei mam rhag ei deffro. Ac ni chofiai ei mam ddim am y noson cynt, ond olion y botel wag ar y bwrdd coffi yn y parlwr, neu'r ambell i gur pen a gâi ar ôl yfed ychydig yn ormod.

'Haia Mari. Ble mae Siwan heno?' meddai Sioned wrth ei ffrind ar ôl cyrraedd y disgo.

'Methu dod. Ei thaid yn sâl ac wedi mynd ag ef i'r Ysbyty.'

'O. Bechod. Wyt ti am ddawnsio? Hei edrych, mae Gwyn yn fan acw! Dw i am fynd ato i siarad ychydig.'

Ei chariad ers yr ysgol gynradd oedd Gwyn, ac yr oeddynt yn gwneud popeth gyda'i gilydd. Dywedai y ddau eu cyfrinachau pennaf wrth ei gilydd hefyd. Roedd hyn yn beth da yn ôl Sioned, oherwydd teimlai y gallai Gwyn wrando ar bopeth a ddywedai wrtho.

'Haia' ebe'r ddau gan gyfarch a chusan.

'Gwyn'

'Sioned', ebe'r ddau ar yr un pryd. 'Dechreua di,' medd Sioned wrtho.

'Na dechreua di', meddai Gwyn yn ansicr o beth yr oedd am ei ddweud wrthi.

'Ol reit. Mae'n rhaid i mi siarad â thi.'

'Wel, i ffwrdd â thi', atebodd Gwyn.

'Y peth ydi ... wel ... mam i ddweud y gwir. O Gwyn. Dw i ddim yn gwybod beth i'w wneud', a dyma hi'n dechrau beichio crio.

'Yli, tyrd allan am eiliad i ti gael ychydig o awyr iach.'

A dyma'r ddau ohonynt yn cerdded allan o'r neuadd ac ar hyd y traeth gerllaw.

'Beth sy'n dy boeni di,' sibrydiodd Gwyn yn sympathetig, gan afael yn dynn amdani.

'Mam. Rwyt yn gwybod fy mod yn ei charu hi'n fawr iawn, ond weithiau rwy'n teimlo atgasedd anferthol tuag ati. Dwn i ddim pam! Efallai am ei bod yn troi ataf fi o hyd ac yn disgwyl i mi wneud popeth iddi, ond mae hyn yn mynd ar fy nerfau i Gwyn! Alla i ddim cymeryd dim mwy!'

O Sioned fach. Rwy'n deall dy broblem di'n iawn. Nid oes gan dy fam neb nawr, dim ond chdi. Wel, a dy nain wrth gwrs, ond mae dy nain yn hen ac nid yw hi'n ddigon 'tebol i edrych ar ôl dy fam. Felly, dim ond chdi sydd ganddi. Mae hi wedi bod o dan straen aruthrol ar ôl ffarwelio â dy dad wsti. Mae colli rhywun mor agos â hynny yn sioc ofnadwy i ddygymod â hi. Wyt ti'n deall nawr?'

'Ydw. Ond alla i ddim cymeryd dim mwy Gwyn! Iawn, mae hi wedi colli gŵr, ond mi rydw iannau wedi colli 'nhad hefyd. Efallai nad wyf yn ei gofio yn eglur iawn, ond mae gennyf ychydig o atgofion ohono. Fel yr adeg yr aethom ni'n tri i'r Ffair. Ew, cawsom ddiwrnod bendigedig. A minnau'n sâl fel ci ar y ffordd adref, a mam a dad yn ffraeo â'i gilydd fy mod yn maeddu sêt y car, a mam yn cega ar dad am ei fod wedi fy stwffio â phethau melys! Ond y peth sy'n fy ngwylltio fi fwyaf yw fod mam yn yfed i ddygymod â'i meddyliau, a dim jest yfed rhyw un gwydriad o sieri wsti. O na, nid mam. Mae'n rhaid iddi hi gael yfed y botel i gyd cyn y bydd yn fodlon.' Dechreuodd Sioned grio eto.

'Tyrd i eistedd ar y fainc yma', meddai Gwyn.

'Mae beth sydd gennyf i'w ddweud wrthyt yn mynd i dy frifo di'n ofnadwy, ond mae'n rhaid i mi ddweud wrthyt ti.'

'Dweud beth?' ebe Sioned gan roi ebychiad wrth chwythu ei thrwyn.

'Wel dwn i ddim sut y gallaf ddweud hyn wrthyt ti, ond y peth yw ... Wyt ti'n cofio pan ddywedais wrthyt fod fy nhad wedi mynd am gyfweliad efo'i waith, i gael ei ail-swyddo?'' dechreuodd Gwyn grynu.

'Ydw, mae gennyf rhyw gof ... O na, ydi o wedi methu ei chael? O mae'n ddrwg gennyf.' Chwythodd Sioned ei thrwyn eto.

'Na, dim byd felly. Wel, ydi mewn ffordd. Mae o wedi ei chael.' atebodd yn drist.

'O, mae hynny'n grêt!'' gwaeddodd Sioned, ond arhosodd am eiliad, a sylweddolodd beth oedd yn ei olygu.

'O, na!' ochneidiodd, 'Mae hynny'n golygu ...' dechreuodd grio, a gafaelodd yn dynn yn Gwyn.

'O, na! Pam? Pam fod hyn yn digwydd i mi? Pa bryd yr ydych yn mynd?'

'Wel, cafodd dad lythyr swyddogol drwy'r post y bore 'ma yn dweud ei fod wedi cael y swydd. Hefyd, yn y llythyr roedd y ticedi awyren, i hedfan o Heathrow bythefnos i ddoe. Bydd tŷ, a char yn disgwyl amdanom ar ôl cyrraedd.' Teimlai Gwyn lwmp yn ei wddf. 'Rwy'nmynd i dy golli di Sioned. Rwyt yn gwybod hynny, yn dwyt? Rwy'n mynd i dy golli di'n fawr iawn. Ond cofia, cawn ysgrifennu at ein gilydd yn aml, ac mi ddo i'n ôl yma ar wyliau a phethau felly.'

'O Gwyn!' gwaeddodd Sioned a gafaelodd y ddau yn ei gilydd am amser hir iawn ar y fainc o flaen y môr, a sŵn y miwsig o'r disgo i'w glywed yn yr awel.

'Ewadd, mae'n hanner awr wedi unarddeg,' gwaeddodd Gwyn.

'O, na!' gwingodd y ddau ar wahân.

'Mi fydd mam yn fy lladd i, os bydd yn ddigon sobor i sylweddoli fy mod wedi cyrraedd adref.'

Cododd Sioned ar ei thraed. 'Mi wna i dy ffonio yfory!' dywedodd wrth Gwyn yn frysiog, gan roi cusan iddo ar ei foch a rhedeg am adref.

'Dw i'n mynd i dy golli di!' sibrydodd Gwyn wrtho'i hun.

Ni chlywodd Mrs Owen Sioned yn dychwelyd i'r tŷ. Yn lle chwilio am ei mam, rhedodd i fyny'r grisiau a thaflodd ei hun ar ei gwely. Cafodd syniad. Aeth i'r ystafell ymolchi ac i'r cwpwrdd lle cadwai ei mam blasteri, eli, ... a thabledi. Gafaelodd mewn dwy botel, ac aeth â nhw i'w hystafell. Rhoddodd glo ar y drws, ac eisteddodd ar y gwely. Meddyliodd yn galed am y peth ac agorodd y botel gyntaf. Tywalltodd y tabledi bach gwyrdd a du i'w llaw grynedig ...

'Ffarwel!', sibrydodd gan godi ei llaw at ei cheg ...

MALWODEN.

Seremoni Cadeirio Malwoden, sef Nia Wyn Hughes gyda gorsedd beirdd Ysgol Brynrefail a genethod bach yr ysgol gynradd a fu'n perfformio'r ddawns flodau.

TACSIS BETHEL

UNRHYW AMSER • UNRHYW BELLTER

Ffôn: (93) 670555

CANLYNIADAU'R EISTEDDFOD

Unawd Genethod Dosbarth 1:1, Sera Thomas, Elidir; 2, Siwan Humphreys, Eryri; 3, Eleri Jones, Eilian.
Adrodd Cymraeg Dosbarth 1 a 2:1, Catherine Griffith, Eilian; 2, Sioned Jones, Gwyrfai; 3, Donna Williams, Gwyrfai.
Unawd Piano Dosbarth 1: 1,Siwan Humphreys, Eryri; 2, Tanya Thomas, Elidir; 3, Llŷr Roberts, Gwyrfai.
Adrodd Saesneg 5 a 6: 1, Euron Thomas, Eryri; 2, Trystan Thomas, Elidir; 3, Ffion John, Eryri.
Unawd Offerynnol Dosbarth 1: 1, Llŷr Siôn, Gwyrfai; 2, Caitlin Wroe, Gwyrfai; 3, Eleri Jones, Eilian, a Morgan Ifan, Eilian.
Deuawd Ysgafn: 1, Eurgain Evans ac Angharad Price, Elidir ac Eilian; 2, Denise ac Anwen, Elidir; 3, Delyth Price a Hefina Jones, Gwyrfai ac Eryri, a Sharon a Siân, Eilian.
Unawd Llinynol a Chwythbrennau Dosbarth 2 a 3: 1, Sara Wood, Elidir; 2, Catrin Thomas, Eilian; 3, Menna Williams, Eilian.
Unawd Genethod Dosbarth 2 a 3: 1, Delyth Price, Gwyrfai; 2, Nia Land, Gwyrfai; 3, Hefina Jones, Eryri.
Unawd Pres Dosbarth 2 a 3: 1, Siôn Wyn Hughes, Eilian; 2, Eilir Williams, Eryri; 3, Euros Williams a Martin Llywelyn, Elidir.
Unawd Alaw Werin: 1, Tami Jones, Eryri; 2, Llŷr Siôn Roberts, Gwyrfai; 3, Angharad Price, Eilian, a Sioned Meleri Owen, Elidir.
Adrodd Saesneg Dosbarth 3 a 4: 1, Nia Griffiths, Gwyrfai; 2, Tami Jones, Eryri a Delyth Price, Gwyrfai.
Unawd Piano Dosbarth 2 a 3: 1, Nia Griffiths, Gwyrfai; 2, Sara Wood, Elidir; 3, Martin Williams, Elidir.

Cyfarfod y Nos
Grŵp Cân Ysgafn: 1, Trons Racs; 2, Beetroot a Meibion Glyndŵr.
Unawd Genethod Dosbarth 4,5 a 6: 1, Ffion John, Eryri; 2, Sioned Owen, Elidir; 3, Lowri Angharad, Gwyrfai.
Adrodd Cymraeg, Dosbarth 3 a 4: 1, Nia Griffith, Gwyrfai; 2, Sioned Owen, Elidir, a Menna Williams, Eilian.
Deuawd Sigl Gân: 1, Ffion John a Tami Jones, Eryri; 2, Delyth Price a Hefina Jones, Gwyrfai ac Eryri; 3, Llŷr Siôn a Lowri Angharad, Gwyrfai; Nia Land a Emyr Gibson, Gwyrfai.
Unawd Bechgyn Dosbarth 1,2 a 3: 1, Emyr Gibson, Gwyrfai; 2, Llŷr Siôn, Gwyrfai; 3, Martin Thomas, Gwyrfai.
Parti Cyd adrodd: 1, Eilian; 2, Eryri; 3, Elidir; 4, Gwyrfai.
Sgets: 1, Eilian; 2, Elidir; 3, Eryri a Gwyrfai.
Parti Bechgyn: 1, Gwyrfai; 2, Eryri; 3, Elidir; 4, Eilian.
Y Gadair: 1, Nia Wyn Huws, Eilian; 2, Mared Wyn Sutherland, Eilian; 3, Lowri Williams, Gwyrfai.
Unawd Piano Dosbarth 4,5 a 6: 1, Angharad Price, Eilian; 2, Sioned Owen, Elidir; 3, Lowri Angharad, Gwyrfai.
Adrodd Saesneg, Dosbarth 1 a 2: 1, Donna Marie, Gwyrfai; 2, Catherine Griffiths, Eilian.
Unawd Llinynol a Chwythbrennau Dosbarth 4,5 a 6: 1, Lowri Williams, Gwyrfai; 2, Wena Williams, Gwyrfai a Lowri Angharad, Gwyrfai; 3, Tami Jones, Eryri.
Unawd Cerdd Dant: 1, Sioned Owen, Elidir; 2, Llŷr Siôn, Gwyrfai a Nia Land, Gwyrfai.
Côr Deulais: 1, Eilian; 2, Eryri; 3, Elidir; 4, Gwyrfai.
Adrodd Cymraeg Dosbarth 5 a 6: 1, Euron Thomas, Eryri; 2, Eurgain Evans, Elidir; 3, Ffion John, Eryri.
Unawd Bechgyn Dosbarth 4,5 a 6: 1, Dylan Pierce-Williams, Eryri; 2, Trystan Thomas, Elidir.
Unawd Pres Dosbarth 4,5 a 6: 1, Dylan Williams, Gwyrfai; 2, Siân Jones, Eilian; 3, Owain Tudur, Eryri.
Côr Cerdd Dant: 1, Eryri; 2, Gwyrfai; 3, Elidir ac Eilian.
Tlws Emma Bernard: Nia Griffiths.
Mwyaf o Farciau: Dan 15 – Llŷr Siôn Roberts, 25 ½; Dros 15 – Sioned Meleri Owen, 231/2.

Y tŷ a enillodd fwyaf o farciau offerynnol oedd Gwyrfai.

Marciau Terfynol:
1, Gwyrfai 191½; 2, Eilian 144½; 3, Eryri 141½; 4, Elidir 132½.

Sgets fuddugol – tŷ Eilian.

Eurgain Evans ac Angharad Price, deuawd ysgafn fuddugol.
Uchod, de, Llŷr Siôn a Sioned Meleri, enillwyr y mwyaf o farciau o dan a dros 15.
De, Dylan Williams, enillydd unawd pres dosbarth 4,5, a 6.

Agnes Choi ac Amlyn Evans, capteiniaid Gwyrfai, y tŷ buddugol, gyda'r Cwpan Offerynnol a'r Cwpan Buddugwyr.

CABS LLANRUG

Prisiau cystadleuol.
Gwaith contract
pell ac agos

C'FON 5951

GARTH YR ARTH

Garth YR ARTH

Yn ystod y deunaw mis nesaf, bydd Cymru gyfan yn dod i ryfeddu at anwyldeb a chynhesrwydd cymeriad cartŵn newydd sbon o'r enw Garth yr Arth. Dyma'r cymeriad a ddewiswyd i hyrwyddo Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd a gynhelir yn Nhaf Elai ym 1991.

Bryncyn rhwng Pentyrch a Phontypridd yw'r Garth, ac o'r copa gellir gweld yr holl fro a fydd yn croesawu'r Eisteddfod i Donyrefail. Yn ôl y trefnwyr, mae yna ogof gudd ar lethrau'r Garth, ac yno y bu cartref yr arth ers cyn cof. Ei waith yw gwarchod Cymreictod yr ardal sy'n ymestyn o Bontypridd drwy Lantrisant ac yn ôl at gyrion Caerdydd.

NOSON O GANU CYMREIG

yng nghwmni
Hogia'r Wyddfa
yng Nghlwb y Lleng
Brydeinig, Llanberis
Rhagfyr 2, 1989
Bingo o 7.30 tan 8.30.
Mynediad: Aelodau £1;
eraill £2

PENISARWAUN

Gohebydd: Mrs Ann Evans, Sycharth (872407)

YSGOL TAN-Y-COED: Dymunir gwellhad buan i Eryl sydd wedi bod yn Ysbyty Gwynedd ers bron i fis bellach. Mae'r plant a'r staff yn anfon eu cofion anwylaf atat, a brysia'n ôl.

Bu Safon 1,2,3 a 4 yn Theatr Gwynedd i fwynhau perfformiad gan Theatr Molecule am y Planedau. Y mae safon 3 a 4 yn eu hafiaith yn gwneud thema ar Y Gofod wedi'r ymweliad, gyda'r fyfyrwraig, Miss Caren Brown.

Daeth yr heddwas Alan Bevan i ddangos fideo i'r ysgol gyfan ar Ddiogelwch Plant. Bu'n eu rhybuddio rhag pobl ddieithr a'u hatgoffa sut i groesi'r ffordd. Cafwyd Noson Goffi lwyddiannus Nos Wener, Tachwedd 17, dan ofal 'Cyfeillion Ysgol Tan-y-Coed'.

Cynhelir Gwasanaeth Nadolig, Nos Wener, Rhagfyr 15fed yn Eglwys Santes Helen am 6.00 p.m. Gwneir casgliad at Ward y Plant, Ysbyty Gwynedd.

GWELLHAD: Anfonwn ein cofion at Mrs Alice Thomas, Waun, sy'n derbyn triniaeth yn Ysbyty Gwynedd. Llongyfarchwn hi ar ddod yn hen-nain am y tro cyntaf.

Gobeithio fod Michael Jones, Tyddyn Perthi, yn well hefyd, wedi arhosiad yn yr ysbyty. Ac i bawb sy'n sâl – brysiwch fendio i gyd.

TRIP I GAER: Bydd y bws yn cychwyn yn brydlon o King, am 8.30 a.m. fore Sadwrn, Rhagfyr 2il.

LLONGYFARCHIADAU: Pleser yw llongyfarch Margaret a Gareth Williams, Carrog, ar ddod yn Nain a Thaid am y tro cyntaf. Ganwyd merch fach, Emma, i Louise ac Arwel.

DIOLCH: Dymuna Fiona Jones, Waun, ddiolch i'w theulu, ffrindiau a'i chymdogion am eu llu cardiau ac anrhegion ar achlysur ei phenblwydd yn 21 yn ddiweddar.

Dymuna Anwen ac Aled, London House, Carmel, ddiolch yn gynnes iawn i'r teulu, cymdogion a ffrindiau Bro'r Eco am y dymuniadau da, y llu cardiau ac anrhegion a dderbyniwyd ar achlysur geni eu mab, Iolo Fôn.

PWYLLGOR NEUADD: Cafwyd hwyl a sbri go iawn nos Fawrth, Hydref 31, yn y noson 'Hwyl a Miri Calangaeaf'. Roedd digon o rialtwch ar y noson a phawb wedi mwynhau eu hunain gan adael y pentref yn dawel a didramgwydd.

Enillwyr y Clwb Cant oedd Victor Jones, Bryntirion, Carolyn Roberts, Pen Dinas Mawr, a Delyth Roberts, 12, Maes Padarn, Llanberis. Enillwyd y raffl gan Ann Paterson. Diolchir i bawb a gyfrannodd at lwyddiant y noson.

Gweithgaredd Rhagfyr fydd Noson Wasael, Nos Iau, Rhagfyr 14. Dowch i ganu'r Hen Garolau ac i flasu mins pei a phwnsh. Tynnir Clwb Cant ar y noson. Tynnir Clwb Cant Tachwedd mewn Pwyllgor ar Dachwedd 28, yn yr ysgol.

CYDYMDEIMLAD: Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â nifer o'r pentrefwyr y mis hwn. Wrth gydymdeimlo â chwi yn eich colled fawr, dymunwn i chwi nerth a chysur ar drothwy'r Nadolig fel hyn.

Ein cydymdeimlad dyfnaf â Mr Gwilym Roberts a'r teulu, Weirglodd Goch, ar golli ei fam; i Gwyn, Mair a Meirion a'r cysylltiadau oll, Weirglodd Las, o golli tad caredig; i Arnold Jones a'r teulu, yntau wedi colli'i chwaer yng nghyfraith yn Neiniolen; i Mrs Nellie Roberts, Llys y Gwynt, o golli'i mab yng nghyfraith, a pherthynas i Mrs M. J. Roberts, Llys y Gwynt; ac i Jean Roberts, a'r teulu, Tai Croesion, o golli chaer annwyl ac addfwyn, a Mr a Mrs G. Davies, Waun Rhythallt o golli'u merch.

YSGOLION SUL BOSRA AC EGLWYS SANTES HELEN: Cynhelir Parti Nadolig i aelodau'r Ysgolion Sul rhywbryd yn ystod yr wythnos olaf cyn y Nadolig. Gobeithio'n wir y daw Siôn Corn ar ei hynt i weld y plant. Byddwn yn hynod falch o unrhyw gyfraniad at y parti. Fe'i cynhelir yn Neuadd yr Eglwys.

EGLWYS SANTES HELEN: Unwaith eto eleni cawsom Ffair Gaeaf lwyddiannus iawn. Diolch i bawb a gyfrannodd mewn unrhyw ffordd at lwyddiant y noson.

Mae blwyddyn eglwysig newydd ar y trothwy a'r Adfent yn ein harwain i feddwl am Ŵyl y Geni a dyfodiad yr Iesu i'n byd. Eleni cynhelir gwasanaeth y Cristingl am 4.30 p.m. ar ddydd Sul y 17eg o Ragfyr, a'n Cymun Bendigaid fel arfer ar Noswyl y Nadolig am 11.45 p.m.

ADRAN BENTREF YR URDD: Ymaelododd 43 o blant, nos Fawrth, Tachwedd 7fed a chafwyd gêm o chwilen.

Tachwedd 14eg, daeth Mrs Larsen i ddangos sleidiau. Diolchwyd iddi gan Lois.

Dyma'r gweithgareddau tan y Nadolig:

Tachwedd 24, nos Wener: Dawnsio Gwerin gyda Mrs Judith Harding yn Neuadd yr Eglwys.

Tachwedd 28: Noson yng ngofal Mrs Nant Roberts.

Rhagfyr 5: Noson yng ngofal Mr Selwyn Jones.

Rhagfyr 12: Noson yng ngofal Miss Phyllis Elis.

Rhagfyr 20, nos Fercher: Parti Nadolig a Disgo o 6 – 7 o'r gloch yn Neuadd yr Eglwys.

Gobeithir mynd i Glan Gwna i ddathlu'r Nadolig gyda'r adrannau eraill yn ystod Mis Rhagfyr.

Mae trefniadau wedi eu gwneud ar gyfer mynd i weld y Pantomeim 'Robin ap Croeso', yn Theatr Gwynedd ar Ionawr 3, 1990, am 7 o'r gloch. Bydd bws yn gadael y pentref am 5.45 p.m. Y pris fydd £2.50. Os oes diddordeb cysylltwch â swyddogion yr Urdd cyn gynted ag sydd bosibl.

NOSON TÂN GWYLLT: Ar Dachwedd 4, cafwyd noson Tân Gwyllt lwyddiannus a diogel iawn yng Nghae'r Pentref. Codwyd clamp o goelcerth gan y plant a chafwyd arddangosfa o dân gwyllt a digon o gŵn poeth, cawl a thaffi triog i'w fwyta. Mae'r elw yn mynd tuag at Barti Nadolig Clwb yr Heulwen. Diolchir i bawb a gefnogodd y noson.

CLWB YR HEULWEN: Cafwyd cyfarfod ddydd Mawrth, Tachwedd 21. Cafwyd hanes eu gwyliau yn America gan Mr a Mrs Leslie Jones, Meillionydd. Diolchwyd gan Mrs E. Porter. Anfonwyd cofion at Mrs Alice Thomas a Mrs Gladys Thomas. Cydymdeimlwyd â nifer o'r pentrefwyr sydd wedi colli anwyliaid yn ddiweddar. Rhoddwyd y te gan Mrs N. Williams a Mrs M. Davies. Enillwyd y raffl gan Mrs Dickenson.

Ni fydd cyfarfod eto tan **Mis Mawrth** 1990.

DIOLCH: Dymuna Eryl Jones, 7 Tal y Bont, Llanrug, ddiolch i bawb o sawl ardal ym Mro'r Eco am yr holl gardiau, rhoddion a'r anrhegion a dderbyniodd yn ystod ei arhosiad yn Ysbyty Gwynedd. Diolch o galon am bob caredigrwydd.

LLUNIAU ISLWYN WILLIAMS

Da deall fod lluniau'r Dylluan Fach a Ffesant gan Islwyn Williams yn gwerthu er budd Cronfa Penisarwaun at Eisteddfod yr Urdd Dyffryn Nantlle ac Arfon.

Mae pob un wedi ei rifo a'i arwyddo gan yr arlunydd ac mae gennym rywfaint ar ôl o'r rhai wedi eu fframio'n barod. Maent wedi eu mowntio a'u fframio'n chwaethus iawn gan Oriel Arfon, Caernarfon, gyda chefn caled a gwydr arnynt. Mae'r pris am bâr wedi eu fframio yn fargen am £47. Pris un llun mewn ffrâm yw £28.50, neu gellwch eu prynu heb eu fframio am £15 yr un neu £25 y pâr. Mae'r lluniau uchod yn rhoi rhyw syniad o waith yr arlunydd; ond mynnwch weld y lluniau eu hunain i gael gweld mor odidog ydynt. Cysylltwch â Dafydd Ifans, Amranwen Lynch neu Nant Roberts (870 760).

SEINIAU NADOLIG *sain*

AR GASET
SAIN TAWELWCH
CÔR MEIBION PONTARDDULAIS
AR EICH CAIS II
CÔR MEIBION Y RHOS
CYNGERDD DATHLU
CANTORION GWALIA
COFEB MABSANT
CWLWM O GÂN CWLWM
EIFION D. EIFION THOMAS
YNOM Y MAE CYMRU
CÔR PENYBERTH
CÂN GWYNT Y GOR-LLEWIN
JOHN RODGE – GITAR

Y FERCH O'R FILLTIR
SGWÂR
ANGHARAD DAVIES
DIM OND NI'N DAU
OWAIN GWILYM A MOJO
MARY LLOYD DAVIES
(Mezzo Soprano)
C'MON MIDFFILD
Wali, Mr Picton, George a Sandra wrthi!
I'R PLANT
AR RAS I GWM-RHYD-Y-RHOSYN DAFYDD IWAN AC EDWARD
CANEUON SYMUD A CHÂN SIONED MAIR

FIDEO WIL CWAC CWAC 3
FIDEO SAM TÂN 3
FIDEO TOMOS Y TANC
FIDEO SUPERTED 2
AR C.D.
TEILWNG YW'R OEN
EDWARD H. DAFIS
ALAWON POBLOGAIDD AR DDWY DELYN
AR LABEL 'CRAI'
TAMEIDIAU CWRW BACH
SHAMAANI E. V.
CASETIAU ROC
MILLTIROEDD RAY JONES
DYLAN DAVIES A'R CRIW

RHAIN I GYD AR GAEL YN EICH SIOPAU LLEOL NEU DRWY'R POST ODDI WRTH
SAIN * LLANDWROG * CAERNARFON * 0286 831 111

LLEUFER O. ac N. PRITCHARD
CANOLFAN CARPEDI
WAUNFAWR

AR AGOR
9-7pm
9-5pm Sadwrn
AR GAU
SUL,
MERCHER.

DEWIS EANG O WELYAU SENGL A DWBL
DEWIS EANG O '3 PEICE SUITES'
LLENNI 'VENETIAN' A LLENNI 'ROLER'
GWAITH CONTRACT
5000 LLATHEN SGWÂR O GARPEDI MEWN STOC – ALLWCH CHI FFORDDIO PRYNU O BATRYMAU?

Rhif Ffôn y Siop yn ystod oriau agor:
WAUNFAWR 291

CYFARCHION NADOLIG

DEINIOLEN

A

CHLWT Y BONT

Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth

Sonia

SIOP CHIPS

DEINIOLEN

Diolch am eich
cefnogaeth
drwy'r flwyddyn

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA

JONES + JONES

FRON
DEG
CLWT-Y-BONT
DEINIOLEN

Ffôn: LLANBERIS 870856

ADEILADWYR A CHONTRACTWYR

CYFARCHION Y TYMOR
A'R DYMUNIADAU
GORAU AM Y FLWYDDYN
NEWYDD
oddi wrth
GWYN OLIVER JONES

Bar
Swper
Arfonia

DEINIOLEN

Ffôn: Llanberis 870048

AR AGOR
Gwener 8am - 10am
Sadwrn 9am - 10pm
Sul 10am - 10pm

VG LATE STOP

(D & A Supermarket)
Stryd Newydd
DEINIOLEN
Ffôn: 870171

Diolch am bob cefnogaeth trwy gydol y flwyddyn . Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth Pam a'r holl staff

---

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth

SLING

Golygfeydd i Deledu a Ffilm

Tabernacl
Ffordd Deiniol
DEINIOLEN

Ffôn: Llanberis 872044

NADOLIG LLAWEN A
BLWYDDYN NEWYDD
DDA I BAWB oddi wrth
CLIFFORD, DIANA, NIA
RHIANNON AC EIRA

Swyddfa'r
Post
DEINIOLEN
Ffôn: LLANBERIS
870283

DYMUNA CLARICE,
DELYTH, JOHN a STAFF

Y TARW
BULL INN
DEINIOLEN

NADOLIG LLAWEN
A BLWYDDYN
NEWYDD DDA

i gwsmeriaid a chyfeillion oll

Nadolig Llawen
a Blwyddyn Newydd
Dda oddi wrth

NIGEL, DAWN
A'R STAFF
WELLINGTON
INN
Deiniolen

Ffôn: Llanberis 870227

Cwrw blasus – chwerw ar
ei orau

Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth bawb yn

SIOP DRIN
GWALLT
SHÂN
LEWIS

Stryd Fawr
DEINIOLEN
Ffôn 872553

Mae John a
Mary Leach a staff

BECWS
DEINIOLEN

yn dymuno ichi
Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd Dda.
Diolch i bawb a'n
cefnogodd yn ystod y
flwyddyn aeth heibio.

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN
NEWYDD DDA I BAWB ODDI WRTH

T. W. THOMAS

'SGUBWR SIMNAI

PENLAN, GALLTYFOEL,
DEINIOLEN
Ffôn: Llanberis 872288

DIOLCH AM EICH CEFNOGAETH
YN YSTOD Y FLWYDDYN

Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth

IEUAN WILLIAMS

Glanffrwd

DEINIOLEN

Llanberis 870484

*.Bysus o 12 i 53 sedd
* Teithiau Lleol a Thramor
* Gwaith Contract
* Telerau arbennig i bensiynwyr, myfyrwyr a phlant ysgol

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

BRYMER, HILDA, NICOLA A LYNDSEY PARRY

SIOP CIGYDD BRISTOL HOUSE DEINIOLEN

Llanberis 870297

Diolch am eich cefnogaeth drwy'r flwyddyn

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA
ODDI WRTH

JAVED A SHAHEEN HAQ

SWYDDFA'R POST

CLWT Y BONT

Ffôn 870325

Cynrychiolwyr: AMAZON GAS, RADIO RENTALS

Diolch am eich cefnogaeth drwy'r flwyddyn.

**SIMNEIAU GWAEL? CRACIAU?
MWG A HOGLA' TARO PERYGLUS?
YDI HI'N SAFF I SIÔN CORN DDOD
LAWR Y'CH SIMDDE CHI?!**

Cysyltwch â Dave Wood

'INSULAFLUE'

Yr Arbenigwr ar leinio simneiau

FRON HEULOG, DINORWIG

Ffôn: Llanberis 871376

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i Bawb

OSMOND W. SHAW DEINIOLEN



Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chwi oll

GWASANAETHAU TELEDU

Ffôn: Llanberis 870545

Am waith trydanol, plymio a phob math o wres canolog ...

G. Edwards Bros. Ltd.

YR HEN FELIN, CLWT Y BONT

DEINIOLEN

Ffôn: 871075 (dydd) 870904 (nos)

Arbenigwyr Tanciau Gwres Canolog. Galw allan 24 awr

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

John Arwel a Jean Roberts

CABS DEINIOLEN

4 FFORDD DEINIOL

DEINIOLEN

871591

Diolch am eich cefnogaeth drwy'r flwyddyn

**NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA
I HOLL DDARLLENWYR ECO'R WYDDFA
oddi wrth
bawb yn**

ARFON GARAGE

DEINIOLEN

(Ffôn: Llanberis 870287)

Diolch am eich cefnogaeth yn ystod y flwyddyn

Gwaith Adeiladu? Gwaith Grant ac Insiwrans?
Dewch at

R. A. OWEN

9 TAI GLANDWR, CLWT Y BONT

DEINIOLEN

Ffôn 870693 (dydd) 870069 (min nos)

Trwsio Toi, Teilsio Waliau a Lloriau, Concritio Llwybrau, Plastro, Gosod Llechi, Paentio ac Addurno, Waliau, Byrddau Plastar, Trwsio Simneiau, Gwaith Plymio.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb.

DEINIOLEN

GOHEBYDD: W. O. Williams, 6 Rhydfadog (Llanberis 871259)

PRIODAS: Ar Hydref 14 yn Eglwys Llanbeblig, Caernarfon, gyda Chanon Barry Thomas yn gweinyddu, priodwyd Marie Ann, ail ferch Anthony a'r ddiweddar Ann Page, 56 Ffordd Llanbeblig, Caernarfon a John Arwel unig fab Gwilym Nan Williams, 2 Ffordd Deiniol, Deiniolen.

Y gwas priodas oedd Malcolm Ll. Jones (ffrind) a'r morwynion oedd Sandra Page (chwaer y briodferch), Christine Williams (ffrind) a Lynwen A. Hamer (nith y priodfab). Byddant yn ymgartrefu yn 2, Ffordd Deiniol.

Y GANOLFAN: Cynhelir Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Ganolfan, yn y Neuadd, am hanner awr wedi saith, nos Wener, Rhagfyr 15.

Daeth y Ganolfan yn allweddol i fywyd cymdeithasol y pentref, a chynhelir tua pedwar cant o gyfarfodydd yno bob blwyddyn dros y degawd diwethaf. Fe'i defnyddir gan bob haenen o'r pentrefwyr, ac felly pwyswn am gefnogaeth i'r Cyfarfod Blynyddol. Peidiwch a chadw draw, gan adael cyfrifoldeb am y Ganolfan ar ysgwyddau rhyw hanner dwsin sydd wedi arfer troi i mewn o flwyddyn y flwyddyn.

CYNGOR EGLWYSI: Disgyblion Ysgol Gwaun Gynfi fydd yn ymgymryd â'r Gwasanaeth Nadolig, sydd i'w gynnal yng nghapel Ebeneser, am ddau o'r gloch pnawn Sul, Rhagfyr 17. Estynnir croeso cynnes i bawb ddod yno i ddechrau dathlu Gŵyl y Geni.

CLWB ELIDIR: Ar Hydref 24 treuliwyd prynhawn difyr iawn yng nghwmni Mr Ifor B. Griffith. Gwesteion y te oedd Mrs Pat Evans, Mrs Edna Coles a Mrs Dolly Brown. Rhoddywd y raffl gan Mrs Edna Coles ac fe'i henillwyd gan Mrs Annie Morris. Diolchwyd i Mr Griffith gan Mrs Idwen Thomas.

Y prynhawn dilynol talodd y Clwb ymweliad â'r Oriel yn Llanberis, ac yna ymlaen i'r twnel yng ngorsaf bŵer Dinorwig.

Cafwyd cyfarfod arall o'r Clwb ar Dachwedd 7. Y gŵr gwadd oedd Mr Hughie Jones, Deiniolen, pryd y cawsom y fraint o wrando'r ddarlith enwog ar 'Y Tri Bob' a phawb yn ei mwynhau. Gwesteion y te oedd Mrs Grace Williams, Mrs Mary Hughes a Miss Jean Moeller. Rhoddwyd y raffl gan Mrs Grace Williams ac fe'i henillwyd gan Mrs Megan P. Morris. Balch iawn oeddem i gyd o gael cwmni Mrs Laura Williams ar ôl damwain. Cydymdeimlwyd â Mrs Aileen M. Jones o golli ei chwaer. Diolchwyd i bawb gan Mrs Alwen Jones.

MERCHED Y WAWR: Yng nghyfarfod Tachwedd cafwyd cwis dan ofal Mr G. T. Evans, Rhiwlas. Diolchwyd iddo gan Mrs Eirlys Williams. Rhoddywd y te gan Mrs E. Williams a Mrs Buddug Jones. Enillydd y raffl oedd Mrs Gwladys Jones.

SEFYDLIAD Y MERCHED: Cynhaliwyd cyfarfod o'r Sefydliad yn y Ganolfan ar Dachwedd 6, dan arweiniad Mrs Eirlys Lloyd Jones y llywydd. Darllenodd Mrs Jones y llythyr misol a chroesawodd y gŵr gwadd a'i wraig, sef Mr a Mrs Coulstolk yn dangos teganau meddal a rhoi arddangosfa gyda clustdlysau. Diolchwyd i'r ddau gan Mrs Eirlys Lloyd Jones. Rhoddywd y te gan Mrs Buddug Jones, Mrs Kathleen Davies a Mrs Edna Jones. Enillwyd y raffl gan Mrs Marian Wyn Williams. Bydd y cyfarfod nesaf ar Ragfyr 4, pryd y cynhelir y Cyfarfod Blynyddol. Taer erfynir am bresenoldeb yr oll o'r aelodau.

APÊL URDD DYFFRYN NANTLLE A'R CYLCH: Fe fydd Cawl a Chân yn cael ei gynnal yn Neuadd Ysgol Gwaun Gynfi nos Wener, Rhagfyr 8 am 7 o'r gloch, gyda Clychau'r Grug. Dewch yn llu i gefnogi'r fenter o godi arian tuag at yr apêl uchod. Pris mynediad, Oedolion £1; Plant 50c.

CLWB 200 Y SEINDORF: Tachwedd: 1, £20 (63) Hilda Synor, Bangor; 2, £15 (203) Betty Hughes, Cringau, Deiniolen; 3, £10 (199) Terry Evans, Stryd Newydd, Deiniolen.

PLAID CYMRU: Enillwyd Clwb 100 Mis Hydref: £10 Mrs Megan Morris, Minffordd, Dinorwig; £8.50 Mr Owie Gibson, 17 Hafod Olau. Mis Tachwedd: £10 Mrs Janet Bingham, 3 Tan y Foel, Gallt y Foel; £8.50 Mrs Jennie Jones, 2 Hafod Olau.

Rowena Mai a Haydn ar achlysur eu priodas ddiweddar.

DIOLCH: Hoffai Haydn, mab hynaf Mr a Mrs John Maxwell, 4 Tan y Foel, Deiniolen, a Rowena Mai, merch Mr a Mrs Elliot Jones, Rhosbodrual, Caernarfon, ddiolch o galon i bawb am y cardiau, dymuniadau da ac anrhegion lu gan eu holl deulu a'u ffrindiau ar achlysur eu Priodas. Bydd y ddau yn ymgartrefu yn 3 Deiniol Road, Deiniolen.

CADOEDIAD: Ar ddiwrnod y Cadoediad cafwyd cynulleidfa dda o flaen y Gofgolofn pryd y cynhaliwyd Gwasanaeth i gofio am ein bechgyn a syrthiasant yn y ddau Ryfel Byd. Yr oedd y gwasanaeth dan ofal y Parchedig John Pritchard. Eraill a gymrodd ran oedd Mr R. Evans, 12 Hafod Oleu, a chwaraewyd y Last Post a'r Refali gan Mr Ieuan Morris. Chwaraewyd dwy dôn gan y band. Rhoddywd torchau gan Sant Ioan, Mr Don Brown, Farm Blue Peris, Miss Sally Brown ar ran y Gatrawd Gymreig a Mrs Parry o Gaernarfon.

PLANT MEWN ANGEN: Ar ddiwrnod Plant Mewn Angen gwnaed casgliad yn y Wellington a'r Bull (Y Tarw). Hoffai'r casglyddion ddiolch i bawb a gyfrannodd tuag at yr achos da yma. Casglwyd £329 yn y Wellington a chasglwyd £28 yn y Bull, gan roi cyfanswm o £357. Y casglyddion oedd: Dilwyn Williams, Mari Williams, Rona Jones, Glenda, Karen Taylor, Caroline Davies, Sue Jones ac Alwena Jones.

DIOLCH: Dymuna Mrs Edith Parry a theulu y diweddar Mr Emlyn Parry, 19, Pentre Helen, Deiniolen, ddatgan eu diolch diffuant i'r cymdogion a'r llu cyfeillion am bob arwydd o gydymdeimlad yn eu profedigaeth. Diolch i'r Parch John Pritchard am bob cymorth a'i wasanaeth. Diolch hefyd i staff Bron Eryri a'r doctoriaid a'r nyrsus yn Ward Glyder, Ysbyty Gwynedd. Diolch i bawb am eu cyfraniadau a drosglwyddwyd i'r ward hon yn yr ysbyty.

DIOLCH: Dymuna Marie ac Arwel, 2 Ffordd Deiniol, ddiolch o galon am yr anrhegion, arian a'r cardiau a dderbyniwyd ar achlysur eu priodas. Diolch yn fawr.

DIOLCH: Hoffai Joyce Pritchard, Caernarfon, gynt o 13 Maes Gwylfa, ddiolch i bawb a gyfrannodd mor hael at gael bws mini i gartref yr henoed. Diolch yn fawr.

DIOLCH: Dymuna Mr W. J. Eames, Prifathro Ysgol Gwaun Gynfi, ddiolch yn gynnes am yr holl anrhegion, cardiau a dymuniadau da a dderbyniodd tra yn yr ysbytai yn Lerpwl.

DIOLCH: Dymuna Nia Glyn, Llythyrdy, ddiolch o galon i bawb am y cardiau a'r anrhegion a'r dymuniadau da a dderbyniodd ar achlysur ei phenblwydd yn ddeunaw oed. Diolch yn fawr i bawb.

EISTEDDFOD GWAUN GYNFI: Er gwaetha'r tywydd garw a gafwyd ar ddathlu wythfed penblwydd y Steddfod ar 27 a 28 Hydref, daeth cystadleuwyr o bob rhan o ogledd Cymru yma i ymgiprys am y gwobrwyon. Pan gyhoeddwyd yng nghyfarfod nos Wener mai 'Lois' oedd enillydd y Fedal Lenyddol, yn anffodus nid oedd yn bresennol i ymateb i'w ffugenw, ac nid oedd wedi datgelu ymlaen llaw ei henw cywir a'i chyfeiriad. Cafwyd cyhoeddusrwydd arbennig i'r Steddfod trwy ymholidau Ifor Glyn Evans, ysgrfiennydd yr Adran Lenyddol, am 'Lois' ar y radio ac yn y wasg. Ymhen tridiau clywyd gan ei thad mai Carys Ellis Jones, Y Ffôr, oedd y 'Lois' fuddugol. Myfyrwraig yn y Coleg Normal yw Carys, ac Ifor aeth draw yno i gyflwyno'r Fedal a'r wobr ariannol iddi ar y diwrnod canlynol. I Miss Glenys Pritchard, Abergele, y dafarnwyd y Gadair eleni, gyda chanmoliaeth y beirniad llen, Mr Maldwyn Thomas, Bangor. Hefin Goronwy Jones ac aelodau Seindorf Ieuenctid Deiniolen sydd yn gyfrifol am seremoniau'r Steddfod o'r cychwyn, ac yn ôl eu harfer crewyd naws ac urddas arbennig ganddynt yn seremoni'r Cadeirio dan arweiniad yr Archdderwydd, Dylan Williams.

Enillwyd y wobr am gyfansoddi Emyn Dôn gan Mr Alun Williams, athro Cerdd yn Ysgol Gyfun Abergele, gyda chlod uchel y beirniad Mr T. Gwynn Jones, iddo ef ac i'r ail orau sef un o gymwynaswyr y Steddfod, Annette Bryn Parri, oedd o fewn trwch y blewyn i'r buddugol.

Sesiwn y plant iau yw cyfarfod pnawn Sadwrn yn ôl yr arfer. Er bod y storm yn ei hanterth daethant yno un eu hugeiniau gyda'u rhieni. Peth amheuthun yw gweld y plant yn curo dwylo a chymeradwyo eu cystadleuwyr o'r llwyfan. Yn amlwg cânt eu dysgu yn yr ysgol mai cystadlu yw'r peth pwysig yn hytrach nag ennill. Mae Pwyllgor y Steddfod yn ddyledus iawn i Ysgol Gwaun Gynfi am gefnogaeth o flwyddyn i flwyddyn, ac yn neilltuol felly i Einir Wyn Williams, am ei chyfraniad ar ddiwrnod y Steddfod, ac yn sicr am wythnosau cyn hynny. Yn ôl y beirniaid cafwyd dau 'gyngerdd' yn sesiwn nos Sadwrn wrth wrando cystadlu rhwng un merch a phump gŵr ar ganu Emyn Dôn i rai dros hanner cant oed; ac wedyn cafwyd wyth aelod o Seindorf Ieuenctid y pentref yn cystadlu ar yr Unawd Offerynnol. Gwelir y canlyniadau isod:

Beirniad Cerdd, Mr T. Gwynn Jones, Llanfairfechan; Adrodd, Mrs Madge Hughes, Llandwrog; Llên, Mr Maldwyn Thomas, Bangor.

Adrodd:

Adran Feithrin a Dosbarth 1: 1, Gethin, Deiniolen; 2, Gavin, Rhodri, Michelle; 3, Lowri, Ceri, Tristan. **Dosbarthiadau 2 a 3:** 1, Rhodri; 2, Rhian; 3, Ceri. **Safonau 1 a 2:** 1, Alaw Mari; 2, Jenny; 3 Lynn a Debbie. **Safonau 3 a 4:** 1, Lyndsey; 2, Sian, 3, Elaine a Carol. **Dan 15 oed:** 1, Einir Gwenllian, Bethel; 2, Enlli, Llanfairpwll; 3, Lynne, Llanfair, a Dyfan Siôn; 4, Louise. **Dan 21 oed:** 1, Jennifer Jones, Deiniolen. **O'r Ysgrythur:** 1, Gwynfor, Trefor; 2, Mair Griffiths, Llangefni; 3, Roland Davies, Nefyn. **Prif Adroddiad:** 1, Gwynfor, Trefor; 2, Roland Davies, Nefyn.

Llên:

Adran Feithrin a Dosbarth 1: 1, Stephanie; 2, Robin; 3, Dafydd. **Dosbarth 2:** 1, Rhodri; 2, Steven; 3, Kirsty. **Dosbarth 3:** 1, Ceri Olwen; 2, Zoe Anderson; 3, Bethan W. Jones. **Safon 1:** 1, Alaw Mari; 2, Jennie Lynn; 3, Ellen Hunter. **Safon 2:** 1, Mair Jones; 2, Joseph Anderson; 3, Michael Iorwerth. **Safon 3:** 1, Iwan Jones; 2, Iona Parry; 3, Elfed J. Williams. **Safon 4:** 1, Gethin G; 2, Sian Evans; 3, Sam Lea. **Barddoniaeth dan 12:** 1, Lyndsey V. Parry a Elaine Williams; 3, Sian Ellen Thomas a Richard. **Teligram:** 1, Miss Ellen W. Jones, Dinorwig. **Medal Lenyddol dan 25:** 1, Carys Ellis Jones, Y Ffôr. **Stori Fer:** Parch Byron Howells, Bangor. **Englyn Digri:** J. Williams, Lanerchymedd. **Parodi:** Parch Byron Howells, Bangor. **Dyddlyfr:** Mrs M. G. Williams, Bethel. **Emyn:**Parch Byron Howells, Bangor. **Traethawd i ddysgwyr:** Miss Eunice Edwards, Bangor. **Telyneg:** John Williams, Llanerchymedd. **Enwau Caeau:** 1, Dafydd, Llanrug; 2, Alwyn Jones.

DEINIOLEN

(parhad)

Limrig: Alice Griffith, Dinorwig. **Llinell Goll:** John Williams, Llanerchymedd. **Cystadleuaeth y Gadair:** Miss Glenys Pritchard, Abergele.

Cerddoriaeth:

Adran Feithrin a Dosbarth 1: 1, Robin; 2, Gethin; 3, Rhian. **Dosbarthiadau 2 a 3:** 1, Elfed Morris, Deiniolen; 2,Rhian; 3, Rhodri a Julie. **Safonau 1 a 2:** 1, Shaun; 2, Alaw Mari; 3, Jenny a Christopher. **Safonau 3 a 4:** 1, Lyndsey; 2, Elaine; 3, Carol. **Unawd Cerdd Dant dan 12:** 1, Lyndsey Parry; 2, Shaun; 3, Rhian ac Alaw. **Cân Werin dan 12:** 1, Lyndsey Parry; 2, Alaw Mari; 3, Shaun a Rhian. **Unawd Piano dan 12:** 1, Tania; 2, Lyndsey a Sian Ellen. **Parti Canu dan 12:**Parti Jenny, Deiniolen. **Unawd dan 15:**1, Nia Land, Llanddeiniolen; 2, Caryl, Caernarfon; 3, Ceri, Caeathro. **Cân Werin dan 21:** 1, Caryl; 2, Ceri; 3, Nia, Hefina, Delyth.**Unawd Cerdd Dant dan 21:** 1, Ceri; 2, Caryl; 3, Nia, Hefina, Delyth. **Deuawd dan 21:** 1, Ceri a Lyndsey; 2, Delyth a Hefina; 3, Nia a Gwawr. **Grwp Offerynnol:** Pedwarawd Seindorf Deiniolen. **Unawd Piano dan 21:** 1, Einir Gwenllian, Bodorgan; 2, Angharad; 3, Lynne, Bethel. **Unawd Cerdd Dant:** 1, Bethan Haf, Garndolbenmaen; 2, Mair Griffith, Llangefni.**Unawd Offerynnol:** 1, Bethan; 2, Sian Ellen;3, Carol. **Unawd i ddysgwyr:**Miss Jean Moeller. **Unawd dan 30:** Bethan Haf, Garndolbenmaen. **Deuawd dros 21:** 1, Alun ac Wmffra, Waunfawr; 2, R.D. a Gwynfor, Nefyn. **Canu Emyn Dôn:**1, Katie Wyn, Dinas Dinlle; 2, Griff Evans, Ysbyty Ifan; 3, Ithel, Y Ffôr; 4, Tecwyn Blainey, Trefnant. **Unawd Offerynnol:** 1, Iwan Williams; 2, Gavin Saynor; 3, Eilir a Dylan. **Cân Werin:** 1, Bethan Haf; 2, Griff, Ysbyty Ifan; 3, Ithel, Y Ffôr. **Her Unawd:** 1, Clarence, Llanddaniel; 2, John Eifion, Caernarfon; 3, Griff; 4, Alun Mabon. **Cyfansoddi Tôn:** 1, Alun Williams, Prestatyn; 2, Annette Bryn Parri.

Arlunio:

Ysgol Feithrin: 1, Phillip; 2, Jason a James Edward; 3, Lee a Ceirion. **Dosbarth Meithrin ac 1:** 1, Dafydd; 2, Rhian; 3, Robin. **Dosbarth 2 a 3:** 1, Lowri; 2, Ffion Haf; 3, Elfed Morris. **Safonau 1 a 2:** 1, Muchael Jones; 2, Shaun Thomas; 3, Robert Driver. **Safonau 3 a 4:** 1, Aaron Jones; 2, Brett Jephson; 3, Maria Ann Spaini. **Blwyddyn 1 a 2 Ysgol Uwchradd: 1, Martin Llewelyn, Deiniolen. Agored:**Hughie Jones.

Gwaith Llaw:

Ysgol Feithrin: 1, Robin. **Dosbarth Meithrin:** 1, Robin; 3, Heledd. **Dosbarth 2 a 3:** 1, Urien Sion; 2, Rhian Meleri. **Safon 1 a 2:**1, Shaun Michael Jones; 2, Alaw Mari. **Safon 3 a 4:**1, Sian Ellen; 2, Lynsey V. Parry, Elaine Williams a Richard Williams. **Blwyddyn 1 a 2 Ysgol Uwchradd:** 1, Euros Williams.

Gwau:

Ysgol Gawun Gynfi: 1, Lyndsey ac Alaw; 3, Lynn Roberts. **Dros 15 oed:** 1, Mrs E. Griffith.

Gwnio:

ysgol Gwaun Gynfi: 1, Jenny Lynne; 2, Alaw Mari; 3, Sioned Grindley. **Dros 15 oed:** 1, Mrs E. Griffith. **Brodwaith:** 1, Sarah Jones. **Crosio:** 1, Mrs E. Griffith. **Tegan Meddal:** 1, Nicola V. Parry; 2, Mrs E. Griffith.

Coginio:

Dan 8: 1, Debbie Richer; 2 Rhian Meler Jones; 3, Rhodri Glyn a Jenny Lynn. **Dan 12:** 1, Bethan Williams; 2, Richard Williams; 3, Lyndsey V. Parry. **Dan 15:** 1, Elena Williams; 2, Euros Williams; 3, Gwawr Williams. **Gateau:** 1, Mrs Nancy Williams; 2, Mrs Valmai Williams. **Marmalade:** 1, Alwyn Jones; 2, Sarah Jones. **Teisen Geirios:** 1, Mrs Nancy Williams; 2, Alwyn Jones; 3, Valmai Williams a Sarah Jones. **Dynion yn unig: Bara Cwta:** 1, Ifor Glyn; 2, Alwyn Williams; 3, Alwyn Jones.

Gwaith Coed:

Dan 21: 1, Iwan G. Williams. **Dros 21:** Miss Moeller.

Ffotograffiaeth:

Dan 12: 1, Alaw Mari Hughes; 2, Lynsey V. Parry. **Dan 21:** 1, Dylan Williams; 2, Nicola Parry. **Dros 21:** 1, Eifion Hughes; 2, Hefin Jones a Ifor Glyn.

Trefnu Blodau:

Dan 12: 1, Bethan Griffith; 2, Richard Williams; 3, Sian Ellen Thomas. **Dan 16:** 1, Sian Griffiths; 2, Gwawr Williams. **Dros 21:** 1, Sarah Jones; 2, Alwyn Jones; 3, Gwen Griffith. **Cwpan Llys Myfyr (Adran Celf a Chrefft) o 12 i 21 oed:** Iwan Williams, Deiniolen. **Cwpan Mrs Hefin Williams, Rhiwlas (Adran Gerdd dan 21):** Einir Gwenllian, Bodorgan. **Cwpan Adran Llenyddol dan 12 oed:** Alaw Mari. **Cwpan Adrodd dan 12 oed:** Lyndsey Parry.

Emyr Jones

PLYMAR A PHEIRIANNYDD GWRESOGI

Cynnal Boileri nwy, olew, tanwydd solat a thredio peipiau

44 Glanffynnon

LLANRUG

Caernarfon 3513

CERDD I'R HEN GEINCIAU CYMREIG

Gyda'r wawr i Blas Gogerddan,
Ddydd Nadolig es yn hy',
Gelwais heibio Capten Morgan,
Cefais groeso Gwraig y Ty,
Drwy y Wenallt es i'r Glasgoed,
Lle mae'r Bachgen Main yn byw,
Cainc y Delyn gefais yno,
Gyda'g Wyres Bach Ned Puw.

Wedi cyrraedd Traeth y Bermo,
Gerllaw Bedd y Morwr cu,
Daeth i'm Calon Drom rhyw
awydd,
Am gael gweld fy Ngwely Plu.
Megis tramp o'r dre mi gefais,
Lety Clud Ar Hyd y Nos,
Heb y ddimai goch i dalu,
Gan rieni Jeni Jôs.

Ond pan ddaeth Dydd Llun y bore
Es am dro i'r Garreg Wen.
Yno nid oedd Dafydd Brophwyd,
Arwr hoff Eryri Wen.
Doed â ddêl es Tros yr Afon,
Holais Ffani Blodau'r Ffair,
Dwedai'r Ferch o Blwy Penderyn,
Ei fod gyda'i Delyn Aur.

Rhoddais dro drwy Fynwen
Eglwys,
Lle yr Hun Gwenllian dlos,
Cofio wnaf am Gwen Lygad-ddu,
Tra rhed Afon Cefn y Rhôs.
Tros y Garreg acw canai,
Y Fwyalchen nodau llon,
Ond i'm llygaid i daeth deigryn,
A rhyw Hiraeth dan fy mron.

Es ar Ymdaith yr Hen Gymry,
Drwy Llanddyfri i lawr i'r de,
Yr oedd Clychau Aberdyfi,
A'u Per Alaw dros y lle.
Daeth Merch Megan ac Ap
Siencyn,
Gyda mi at ddrws Llwyn Onn,
Cawsom yno'r Hufen Melyn,
O law dyner Lili Lon.

Clywais ddolef Cwynfain Prydain,
Ar fy nhaith drwy wlad y gân,
Oedais ennyd yn Llanofer,
I gael drachtio o'r Dwr Glân.
Ar Nos Galan deuthum gartref,
Heibio i'r Gadlys hoffus fan,
Dan chwibanu Mantell Siani,
I gyfeiliant Cloch y Llan.

Anhysbys.

LLANBERIS

Gohebydd: Iola Sellers, 13 Dôl Elidir (831043)

DIOLCH: Dymuna criw y clinic ddiolch i bawb am eu cyfraniad tuag at Plant Mewn Angen. Gwnaed elw o £650 gydag arian yn dal i ddod i mewn. Dyma enillwyr y raffl. Tedi: Ann Hughes, Stryd Goodman. Gwin: Dr D. Hughes. Sebon: Olga Williams, Olga Terrace. Gwydrau: T. Jones, Bethel. Pwdl: Selyf Hughes.

DIOLCH: Dymuna Mrs Catherine Williams ddiolch ar ran yr Ysgol Feithrin i bawb am eu cymorth pan gynhaliwyd Disco yn ddiweddar at y mudiad pryd y gwnaed elw o £60. Hefyd i bawb a aeth o amgylch i werthu raffl ac i bawb a gyfrannodd. Diolch i Jean a Graham, Gwesty Tywysog Cymru, a Sue a Pat, Gwesty Llyn Padarn am werthu tocynnau at enwi'r Tedi, a gyfrannwyd gan John Stryd Fawr, at y mudiad. Diolch hefyd i Mr Gwilym Efans a redodd mewn ras trawsgwlad i godi arian at y mudiad. Diolch yn fawr i bawb.

DIOLCH: Dymuna Margaret, John a Nicola Prydderch ddiolch i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau a'r anrhegion ar achlysur ei phenblwydd yn 21 oed.

GENEDIGAETH: Llongyfarchiadau i Yvonne a Kevin Owen, Stryd Goodman ar enedigaeth eu merch fach gyntaf; hefyd i Peter a Sian Roberts, Stryd Goodman ar enedigaeth eu merch fach gyntaf, ac i Bet a Wil Roberts am fod yn Nain a Taid am y tro cyntaf; hefyd i Iolo a Perry, Dol Elidir, ar enedigaeth eu merch fach gyntaf.

CYDYMDEIMLWN â Iola, Huw, Rita a John a'r teulu yn eu prodefigaeth o golli tad sef Mr Glyn Williams, Maes Padarn. Hefyd i Mrs Williams, Annie, Wil a Vera a'r teulu oll.

GWELLHAD: Dymunwn adferiad buan i Mr Gordon Owen, Maes Padarn, sydd adref o'i waith ers rhai misoedd bellach; i Ffreuedd Whitaker sydd wedi bod yn yr ysbyty, ac i bawb sydd yn cwyno gartref neu yn yr ysbyty.

LLONGYFARCHIADAU i Nicola Prydderch ar achlysur ei phenblwydd yn 21 oed.

SEFYDLIAD Y MERCHED: Ar Hydref 18, aeth yr aelodau i'r Sioe Gynnyrch yn y Ganolfan, Waunfawr, ac enillodd pump o'r aelodau wobr yno, sef Mrs Glenys Jones, Mrs A. M. Evans, Mrs Katie Griffiths, Mrs Betty Humphreys a Mrs Dorothy Thomas. Enillwyd y raffl gan Mrs Katie Griffiths. Cafwyd noson ddifyr iawn.

Cynhaliwyd cyfarfod o'r Sefydliad yn y Ganolfan ar Hydref 26, dan arweiniad Mrs Hannah Jones. Dymunwyd gwellhad buan i Mrs M. E. Owen a Mrs Dilys Phillips, hefyd i Mrs Jan Davies sydd yn yr ysbyty. Croesawyd Mrs Netta Jones yn ôl i'n plith. Ein gwraig wadd oedd Mrs Maud Williams, Caernarfon, a chafwyd ganddi sgwrs ddiddorol am 'Hanes Ffasiwn' o'r bymthegfed ganrif i'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Diolchwyd iddi ac i'r gwestwragedd gan Mrs Arvonia Evans a Mrs Betty Jones. Y gwestwragedd oedd Mrs Dwynwen Roberts a Mrs Helen Morris. Enillwyd y raffl gan Mrs Helen Morris.

Parhad ar dudalen 31

GERAINT OWEN

Gosodwr carpedi a phob math o loriau

Cil-y-Mynydd

WAUNFAWR

Ffôn: Waunfawr 552

CRIB COCH

Y Sgwâr, Llanrug

Ffôn: Caernarfon 76772

TRIN GWALLT I BAWB O'R TEULU GAN JEN

Ffoniwch neu galwch i drefnu amser

BRYN

(B & K Williams)

Hen Ysgol Glanmoelyn

LLANRUG

Ffôn 77482 (dydd) 870793 (nos)

Gwneuthurwyr Ffenestri, Drysau, Grisiau neu unrhyw fath o gynnyrch coed. Y coed meddal wedi derbyn triniaeth arbennig i wneud iddynt bara.

DINORWIG

Gohebydd: Mr D. J. Thomas, 8 Maes Eilian

COFIO CYFONOD Y FFEIRIAU: Erbyn hyn fe allwn ffarwelio a chyfnod y ffeiriau a fu yn fawr iawn eu bri ychydig flynyddoedd yn ôl. Pan oedd Chwarel Dinorwig yn cyflogi rhai cannoedd o weithwyr, roedd Ffair Nant Peris hithau'n denu'r tyrfaoedd iddi. Fe gofiwn y glaslanciau'n myned o'r chwarel i ymorol am 'India Rock' o'r ffair. Nid oedd trefn haearnaidd yn eu rhwystro i fyned am egwyl o'r gwaith, gan fod cryn fesur o ryddid yn y diwydiant arbennig hwn. Yr oedd hefyd yn y chwarelwyr nifer o ffermwyr bychain oedd yn cefnogi'r ffair a roddai iddynt gyfle i brynu a gwerthu anifeiliaid.

Yr un pwrpas oedd i Ffair Llanllechid gyda ffermwyr Dyffryn Ogwen yn ymgynull yno i newid anifeiliaid ac i drafod eu dulliau o besgi eu gwartheg a'u defaid. Byddai ambell ffermwr mynydd yn awyddus i'w anifeiliaid fanteisio ar borfeydd bras gwaelod y dyffryn.

Ar raddfa eangach roedd ffermwyr Ynys Môn yn rhoddi eu cefnogaeth hwythau i Ffair y Borth. Yno'r oedd y rhialtwch a'r miri yn cyrraedd rhyw binacl uwch, ac yn adlewyrchu cyfoeth bras ffermydd yr ynys honno. Wrth gwrs roedd mwy o atyniadau yno hefyd, a hon hefyd yw'r ffair sydd wedi goroesi'r ffeiriau eraill. Mae'n rhaid dweud bod y ffeiriau hyn wedi rhoddi lliw ar fywyd i'r rhai oedd yn gymharol gaeth i'w ffermydd a hynny ar adeg di-lewyrch o'r flwyddyn. Ffeiriau 'pen tymor' oedd y rhain ar un adeg, gyda ffermwyr cefnog yn ail gyflogi eu gweision neu gyflogi rhai newydd, ac ambell was a morwyn yn chwilio am delerau gwell a mwy boddhaol tra'n newid o un ffarm i'r llall. Roedd ambell i ffarm yn nodedig am y lluniaeth a ddarperid i'r rhai dan eu gofal ac fe gyfrifid y rhai oedd yn gweithio iddynt fel rhan o'r teulu yn hytrach na fel gweision cyflog. Tybed a yw'r drefn hon yn darfod o'r tir pan welir cydio ffarm wrth ffarm a chreu rhyw unedau mawr afrosgo? Yr awch am fod yn flaenaf yw'r duedd hon yn ein bywyd cyfoes.

CYWIRIAD: Fe fum yn sôn mewn rhifyn blaenorol am Mr a Mrs Smith, Blue Peris Cottage, sy'n hoffi ymweld ar y Suliau â Chapel Dinorwig (MC). Roedd y cyfenw Smith yn ein harwain yn naturiol i ystyried Mr Smith yn Sais, ond erbyn hyn fe ddeallwn mai Albanwr yw ef mewn gwirionedd. Tuedd y gorffennol oedd ystyried pob Smith yn Sais a phob Jones yn Gymro. Derbynied Mr Smith ein ymddiheuriadau.

DIOLCH: Fe ddylai rhifyn yr Hydref fod wedi cynnwys diolch Mrs Medwen Griffiths, 'Foel Cottage' ar ôl iddi fod yn yr ysbyty. Erbyn hyn mae Mrs Griffiths yn ôl yn yr ysbyty ac fe hyderwn yn fawr iawn y caiff driniaeth llwyddiannus i'r aflwydd sydd ganddi. Gobeithiwn pob adferiad iddi. Fel hyn y darllenai'r diolch gwreiddiol.:

'Dymuna Mrs Medwen Griffiths, 'Foel' ddiolch i staff Ward Tryfan, Ysbyty Gwynedd, teulu a ffrindiau am y caredigrwydd a dderbyniodd tra yn yr ysbyty. Diolch yn fawr.'

CROESO: Fe ddaeth cwpl newydd i fyw i Rif 4, Maes Eilian. Gobeithiwn yn fawr iawn y byddant yn setlo i lawr yn hapus yng nghwmni eu cymdogion newydd.

LLONGYFARCH: Rwy'n sicr y dylem longyfarch nifer o'r ardal am eu llwyddiant mewn Eisteddfodau yn ddiweddar. Dylem roi sylw arbennig i Sara Wood oherwydd iddi gipio gwobrau yn Eisteddfod Ysgol Brynrefail, Llanrug.

DIOLCH: Dymuna Alwyn, Gwyneth a theulu y ddiweddar Margaret Beryl Roberts, 9, Bryntirion, Llanfairpwll, ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth, hefyd am y rhoddion o £630 at ymchwil y Cancr er côf am Beryl. Derbynied y Parch Noel Jones, y Canon Glyndwr Williams a'r Parch Tegid Roberts, ein diolch am eu gwasanaeth, Mrs Gwen Griffiths yr organyddes, a Mr Myrddin Pritchard am drefniadau'r angladd.

DARLITH DDIFYR: Yn y Ganolfan fe gafwyd sgwrs ddiddorol iawn gan Mr Eifion Jones, Bethesda, ar 'Gadw Gwenyn'. Ychydig ohonom sy'n sylweddoli bod hwn yn faes mor hynod o addysgiadol. Mae llyfr Mr O. M. Roberts, 'Cyfrinachau Natur' yn codi cwr y llen ar y maes hwn ac fe ddatgelir bod mwy ynghlwm wrth y grefft hon na allem ni ei ddychmygu. Fe gasglwn bod Mr Eifion Jones wedi meistroli'r grefft yn bur llwyr a manwl.

GYRFA NEWYDD: Chwith yw nodi nad oes darpariaeth deilwng ar gyfer ein pobl ifanc sy'n chwilio am waith. Un o'r rhain yw Mr Gwilym Irfon Jones, Tan-y-Buarth Uchaf, sydd a'i fryd bellach am fynd i'r fyddin Brydeinig. Y Parch Ifor Lloyd Williams, B. A., oedd gyda ni yn Sardis (B) y Sul cyn i Irfon ymadael â chartref, ac fe gafwyd gan Mr Williams, gynghorion buddiol iawn iddo ag yntau'n wynebu ar brofiad newydd mewn maes sydd hyd yma'n ddieithr iddo. Fe aiff Irfon gyda dymuniadau gorau capel Sardis iddo. Gobeithio y caiff bob arweiniad yn y copi o'r Testament Newydd a gyflwynwyd iddo.

AR DROTHWY'R NADOLIG: A ninnau erbyn hyn ynghanol cyfnod y dyddiau byr a'r nosweithiau hir, cyfnod sy'n absennol o heulwen, ni allwn lai na chofio bod gŵyl y Nadolig yn agosau gyda'r ymarfer ar ganu carolau. O na welem eni byd newydd gyda gwerthoedd newydd yn ennill eu tir. Arwyddbost yw'r Nadolig i'r oes newydd yr ymdrechwn ei chyrraedd a'i mwynhau, ac ar waethaf holl bechodau dynol ymlaen yr awn yn ffyddiog a gobeithiol i weld heddwch a thangnefedd yn teyrnasu a chydddeall yn ffynnu.

DIOLCH: Carem fel ardalwyr ddiolch o galon i Mr Alun Wyn Evans, Pentre Helen, a Mr Robert Evans, Hafod Olau, am eu gwasanaeth diflino yn rhannu bwyd y Gymuned Ewropeaidd o amgylch ein hardaloedd. Gyda'r cylch mor eang, golyga hyn gryn gost a thrafferth, ond maent yn ei wneud gyda gwên ar eu hwynebau.

Diolch o galon i chwi eich dau, a bendith arnoch.

LLONGYFARCHIADAU: Yr ydym yn llongyfarch Marina Bryn, Tŷ'r Ysgol gynt, a John Eifion, ar enedigaeth merch fach, Lois.

FFAIR NADOLIG: Cynhelir Ffair Nadolig yn yr Hen Ysgol, Dinorwig, fore Sadwrn, Rhagfyr yr 2il o 10.30 a.m. tan un o'r gloch. Bydd stondinau amrywiol, tombola, raffl, a bydd Siôn Corn yn galw heibio i ddweud helo wrth y plant. Bydd panad a mins peis i bawb. Y pris mynediad yw 30c i oedolion a 30c i blant (yn cynnwys anrheg fechan gan Siôn Corn). Bydd elw'r Ffair yn mynd at feithrinfa'r cwrs Wlpan newydd yn Ninorwig. Ers mis Medi bu tua ugain o fyfyrwyr o'r cyffiniau yn cyfarfod ddwywaith yr wythnos i ddysgu Cymraeg, llawer ohonynt yn famau ifainc a'u plantos bach yn cael eu gwarchod yn y feithrinfa.

Fel y cofiwch chi, efallai, bu'r cwrs Wlpan diwethaf yn Ninorwig yn llwyddiant ysgubol, gyda llawer o'r myfyrwyr wedi mynd ymlaen i wneud cyrsiau uwch a nifer dda ohonynt wedi dod yn gwbl rugl yn y Gymraeg bellach. Enillodd un o fyfyrwyr y cwrs cyntaf, Stell Farrar dlws 'Dysgwr y Flwyddyn' yn Steddfod Llanrwst eleni. Mae hi'n un o'r athrawesau ar y cwrs newydd! Llwyddiant yn wir! Felly dewch i gefnogi'r dysgwyr a'u plant!

EISTEDDFOD BENTREF '89: Bellach mae dyddiad yr Eisteddfod yn hysbys. Fe'i cynhelir ar **nos Fawrth, Rhagfyr 5ed o 6.30 ymlaen** yn y Ganolfan leol. Fe ddylai y rhestr testunau fod gennych erbyn hyn. Os nad ydych wedi cael eich copi yna cysylltwch â Mr Glyn Tomos y trefnydd. Yr apêl yn awr yw ar i bawb fynd ati yn ddiymdroi i gystadlu yn y cystadleuthau cartref – mae digon ohonynt ac fe ddylent fod at ddant pawb. Cofiwch anfon eich cynhyrchion ymlaen i'r trefnydd ar y dyddiadau a nodir yn y daflen destunau. Dylid nodi un pwynt pwysig sef na dderbynnir unrhyw ymgais heb yr enw priodol gyda'r ffugenw.

Hon fydd y drydedd waith iddi gael ei chynnal ac mae tipyn o edrych ymlaen at Eisteddfod lwyddiannus unwaith yn rhagor. Yr Arweinyddion eleni yw Mr Rennell Williams a Mr Glyn Tomos a'r beirniaid fydd y canlynol: Cerdd: Mrs Ann Evans, Penisarwaun; Coginio: Mrs Margaret Roberts, Deiniolen; Llenyddiaeth: Mr Gwyn Parry, Deiniolen; Adran y Plant: Mrs Meri Wyn Jones, Deiniolen; Ffotograffiaeth: Mr Clifford Davies, Deiniolen; Llywydd: Mrs Doris Morris, Caernarfon.

Y cyfeilyddion fydd Miss Olwen Roberts a Mrs Annette Bryn Parri. Felly cofiwch ddod i'r Eisteddfod. Bydd croeso mawr yn eich disgwyl.

PWYLLGOR Y GANOLFAN: Hoffai aelodau y pwyllgor ddymuno adferiad buan i Mrs Medwen Griffiths sydd ar hyn o bryd yn Ysbyty Gwynedd, Bangor. Mae Mrs Griffiths wedi bod yn gyfrifol am lanhau y Ganolfan ers blynyddoedd ac edrychwn ymlaen at ei gweld adref yn fuan.

Cofiwch am
EISTEDDFOD BENTREF DINORWIG
Nos Fawrth,
Rhagfyr 5ed
o 6.30 ymlaen
Canolfan Gymdeithasol
Croeso Cynnes I Bawb

GWAITH ATAL ERYDU YN NINORWIG

Pleser o'r mwyaf i *Gyngor Bwrdeistref Arfon* yw datgan bod 'Dewi Jones Cyf.' o Fae Colwyn, Clwyd, wedi ei ddewis i gyflawni cytundeb sylweddol i atal erydiad sianel ar brif safle ad-ennill tir y Cyngor yn Yr Allt Ddu/Chwarel Fawr, Dinorwig.

Cwblhawyd y rhan fwyaf o'r cynllun adennill tir yn Yr Allt Ddu/Chwarel Fawr, gan Lock (CE)Cyf., yn ystod 1987. (Yr oedd y gwaith hwnnw yn cynnwys mewnlenwi tri thwll chwarel peryglus, ynghyd ag ad-lunio'n sylweddol a thirlunio y tomennydd cyfagos a oedd yn agos at gartrefi'r bobl leol).

Yn anffodus, ers y cyfnod hwnnw fe ymddangosodd problem yn is i lawr yr afon oddi wrth y cynllun adennill tir. Fe ddechreuodd y dŵr erydu gwely'r afon. Gwaethygodd yr erydu yn ystod y stormydd a gafwyd yn yr Hydref ac yn y Gaeaf ym 1987, ac fe achoswyd peth difrod i eiddo preifat cyfagos. Fe wnaed peth gwaith tros dro i geisio atal yr erydu ond fe ganfuwyd bod yn rhaid wrth gynllun mwy cynhwysfawr i ddatrys y broblem yn derfynol. Ar ôl ystyried y testun yn fanwl ac ar ôl cynnal trafodaethau technegol trylwyr, bu'n bosibl i beirianwyr ymgynghorol y Cyngor, KELTECS o Rhuthun, Clwyd, ddylunio cynllun a oedd yn dderbyniol gan Gyngor Bwrdeistref Arfon a chan Awdurdod Datblygu Cymru. Y mae Awdurdod Datblygu Cymru wedi cytuno i ysgwyddo holl gostau'r gwaith.

Golyga'r gwaith wneud lôn fynedfa dros dro ynghyd â rhoi defnydd priodol ar wely'r afon lle'r erydwyd glannau'r afon yn ddifrifol. (Er mwyn peidio ag ymyrryd â'r gwaith tirlunio a wnaed yn ddiweddar ar yr hen domennydd llechi yn yr Allt Ddu, y mae'r Cyngor wedi trefnu i gludo'r ychydig o rwbel chwarel sy'n angenrheidiol at y diben hwnnw o'i safle cloddio rwbel llechi yn Llanberis). Wedi adfer gwely'r afon rhoddir haen o flociau concrid cydgysylltiol drosto.

Dylid cwblhau'r cytundeb yn ystod mis Chwefror 1990. Wedi hynny bydd y cyfnod cynnal a chadw yn parhau am 52 wythnos. Trefnir i wyro dros dro unrhyw lwybr troed cydnabyddedig a fydd yn cael ei effeithio gan y gweithiau arfaethedig.

Agor Ffiniau'r Gorffennol

Gan Mary Lloyd Williams, B.E.M.

GWEDDI CEFFYL

Cyn gadael Pontrhythallt i fynd i fyw i Rhyl ar ôl colli ei phriod Arthur Pritchard galwodd y ddiweddar, erbyn hyn, Mrs Nesta Pritchard yn ein tŷ ni ac meddai: "Mae gennyf rywbeth arbennig i'w roi i chwi. Rwy'n siŵr na chlywsoch chwi erioed ddim byd tebyg gwn y bydd o fudd i chwi ac o ddiddordeb i'ch darllenwyr."

Beth oedd gan Mrs Pritchard ond copi o Weddi Ceffyl allan o Tywysydd y Plant, Tachwedd 1919. 'Sgrifennwyd y weddi gan Llynfi Davies, union ddeng mlynedd a thrigain yn ôl. Dyma'r weddi!

"Arnat ti, fy meistr, y gweddiaf. Rho i mi fwyd heb lwch ynddo ac wedi ei gymysgu â bran a cheirch: rho imi hefyd ddwfr, gan ofalu amdanaf, ac ar derfyn gwaith y dydd, dyro i mi gysgod a gwely glân, a phreseb llydan i mi orffwys yn gyffyrddus.

"Siarad â mi. Golyga dy lais i mi'n aml gymaint â'r ffrwyn. Anwyla fi weithiau, er mwyn i mi dy wasanaethau di'n well, a dysgu dy garu. Paid a thynnu'r ffrwyn na'm chwipio wrth ddringo'r rhiw. Paid byth fy nharo na 'nghicio, pan nad wyf yn deall yr hyn a feddyli, ond dyro amser i mi dy ddeall di.

"Gwylia fi, ac os methaf wneud yr hyn a erchi, edrych i weld a oes rhywbeth allan o'i le ar fy offer neu fy nhraed. Edrych ar fy nannedd gan nad wyf yn bwyta. Feallai fod gennyf ddant drwg, a gwyddost fod hynny yn boenus iawn.

"Paid a chlymu fy mhen yn annaturiol, na byrhau fy nghynffon, gan fy amddifadu o'm hamddiffyn yn erbyn clêr. Ac yn olaf, O! fy meistr, pan ballo fy nerth, paid â'm troi allan i newynu i farwolaeth. Cymer di fy meistr fy mywyd oddiarnaf, yn y ffordd dyneraf, a'th Dduw a dâl i ti yn y byd hwn ac wedi hynny.

"Feallai na feddyli fy mod yn amharchus wrth ofyn y cyfan yn enw'r Hwn a aned mewn preseb. Amen."

Wir mae'r weddi wedi cyffwrdd fy nghalon innau hefyd. Y mae llawer o geffylau ac anifeiliaid o bob math wedi dioddef yn enbyd yn yr oes o'r blaen. Diolch fod Cymdeithas Atal Creulondeb at Anifeiliaid yn gwneud gwaith mor ganmoladwy i amddiffyn yr anifeiliaid fydd yn cael eu camdrin.

Barddoniaeth y diweddar R.J.Roberts, Ffestiniog, gynt.

Nadolig

Gŵyl annwyl y goleuni roes arwydd
Drwy seren i foli;
Gŵyl hanes y gwael eni
Oesau'n ôl, rhoi Iesu i ni.
R.J.R.

Chwalu'r Nyth

Heb un ŵy ynddo mwyach dyna'i drig
O dan draed pawb bellach;
Anodd gwneud dim creulonach
Na darnio bwth 'deryn bach. R.J.R.

Darlun Bob Owen a Llwyd o'r Bryn

Dau foi a'u llond o fywyd dau frenin,
Dau Feirionnwr hefyd:
Rhoed Sir y gwir uwch gweryd
Ei Llwyd a'i Bob colled byd! R.J.R.

Coffa Tom Nefyn

Mwy na phrudd oedd gorchuddio
Yn y bedd ei wyneb o.
Yn llaw Duw, Llyw y diwedd,
Mwyn i fyd fydd man ei fedd:
Yma'n y llwch ym mhen Llŷn,
Yma'n ofer? Tom Nefyn?
R. J. Roberts.

CYNGERDD NADOLIG YSGOL BRYNREFAIL
Nos Lun, Rhagfyr 18fed 1989 am 7 o'r gloch

MUL CAE METTA

Rwy'n hoff o gerdded, ac yn aml iawn mi fyddai'n rhodio hyd dawelwch tangnefeddus Lon Bach Cae Metta, ac yn ddiweddar rydwi wedi dod yn bur gyfeillgar â chreadur hir-
glust, diog sy'n sefyllian ar ddol Cae Metta.

Fentra i ddim dweud ei fod o'n styfnig, oherwydd dim ond i mi alw arno, fe ddaw ata i ar frys, i flasu tusw o wair-tin-clawdd o'm llaw, a darn o afal.

Yma ar dir Cae Metta yr arferai y diweddar Athro W. J. Gruffydd ddod i chwarae pan yn blentyn, a charreg o dir Cae Metta sy' ar ei fedd ym mynwent Llanddeiniolen. Mae'r hen ful bach 'ma yn dwyn i gof gyfieithiad enwog Gruffydd o gerdd G. K. Chesterton i'r Asyn. Cerdd sy'n gorffen â'r geiriau:

Ynfytion, – cefais innau f'awr
Un awr felysa gaed:
Roedd sŵn Hosanna yn fy nghlust
A phalmwydd dan fy nhraed.

* * * * *

Mul Cae Metta

Yno roedd o
ar ddol Cae Metta
mor ffyddlon â'r wawr
yn glustiau i gyd.

Lwmpyn swrth
yn sefyllian
ar briciau o goesau brau,
gan syllu'n hiraethus
dros orwelion gwyrdd ei gaethiwed.

Praidd barus
yn porfelu ei diriogaeth,
ac yntau'n unig
ar ddol ei ddiflastod.

Estynnais iddo
dusw o wair-tin-clawdd
a'r barrug cynnar arno'n berlau.
Gweflodd y wledd
oddi ar gledr fy llaw,
ac ym mherl ei lygad
roedd deigryn o ddiolch.

Gadewais ef
yng nghaethiwed dol Cae Metta
i freuddwydio'n ddwys
am dywod euraid a sŵn plant,
am donnau pell
yn sibrwd cyfrinachau'r môr.

Ei adael yno
i ddychmygu clywed ar delynau'r gwynt
sŵn Hosanna'r Fuddugoliaeth Fawr,
a rhwd y rhedyn crin
yn balmwydd dan ei garnau.

SELWYN GRIFFITH.

SEFYDLU CANGEN O GYMDEITHAS CLEFYD PARKINSON

Mewn cyfarfod ym Mangor yn ddiweddar sefydlwyd Cangen Môn ac Arfon o Gymdeithas Clefyd Parkinson. Y siaradwyr oedd Dr D. R. Pritchard o Ysbyty Gwynedd a Mr Alan Kilmister o bencadlys y gymdeithas, gyda Maer Bangor, Mr Tony Eccles yn y gadair. Dewiswyd fel swyddogion: Llywydd, Dr D. R. Pritchard; Cadeirydd, Mr G. C. Underlin, Mynytho; Ysgrifennydd, Miss Mari Williams, Llandegfan; Trysorydd, Mr Gwilym Parry, Felinheli. Aelodau'r pwyllgor yw Mrs B Hancock, Miss Barbara Ogden a Mrs Myfanwy Bennett Jones.

Cyflwynodd y trysorydd siec o £350 i Mr Kilmister tuag at y gwaith ymchwil, a derbyniodd rodd o £100 gan y Maer oddi wrth aelodau Undeb y Gweithwyr Rheilffyrdd.

Bu'r gangen yn cyfarfod ers rhai misoedd, ac eisoes cafwyd sgyrsiau buddiol ynghyd ag ambell fideo a sesiynau ymarferol. Os oes gan rai o'r darllenwyr ddiddordeb mewn ymuno gellir cysylltu â'r ysgrifennydd yn Ysbyty Gwynedd, Bangor 370007, Estyniad 4100.

BILL ac EILEEN GRIFFITHS

Antiques
Ivy Cottage
BETHEL
Ffôn:
Y FELINHELI 670556

PRYNWYR A GWERTHWYR HEN BETHAU
Telir prisiau da
Trafodir busnes yn gwbl breifat a chyfrinachol

SYLWER AR RHIF FFÔN NEWYDD

Barrys GLASS



LLANBERIS 871144

Am bob math o WYDR wedi'i DORRI, DDANFON neu OSOD.

LLANRUG

Gohebydd: Mrs Dyfi Jones, Tyddyn Rhuddallt (Caernarfon 76733)

CYMDEITHAS LENYDDOL: Cynhaliwyd cyfarfod o Gymdeithas Lenyddol Capel Mawr, nos Fercher, Tachwedd 1. Llywyddwyd gan Miss Malan Roberts. Y siaradwr gwadd oedd y Ditectif Ringyll G. A. Williams, a chafwyd sgwrs ar atal troseddau ganddo. Diolchwyd iddo gan Mrs W. O. Roberts. Paratowyd paned gan Mrs J. M. Jones a Mrs N. Lovatt a diolchwyd iddynt gan Mrs Jean Davies.

Cyfarfu'r Gymdeithas eto nos Fercher, Tachwedd 8. Llywydd y noson oedd Mrs Nan Williams, y gŵr gwadd oedd Mr Meuryn Huws Roberts, a chafwyd sgwrs a sleidiau ar 'Dubai' ganddo. Diolchwyd i Mr Roberts am noson ddifyr gan Mrs E. Ellis Owen a Mr Oswald Davies. Paratowyd y baned gan Mrs Jean Davies a Mrs Mair E. Jones a diolchwyd iddynt gan Mrs Myfi Roberts.

CYMDEITHAS UNDEBOL: Mewn cyfarfod o'r Gymdeithas Undebol yn Festri Pontrhythallt nos Lun, Tachwedd 20, rhoddodd y Llywydd, Y Parch Erfyl Blainey, groeso arbennig i'r siaradwr, Mr Dyfan Roberts, Melin Crawia, sydd wedi ymgartrefu yn yr ardal. Cafwyd noson ddiddorol iawn yn ei gwmni yn rhoi hanes cychwyn ei yrfa fel actiwr a'r profiadau a gawsai yn ystod y blynyddoedd. Talwyd diolch iddo gan Miss Megan Humphreys.

CYDYMDEIMLAD: Estynnwn ein cydymdeimlad â Mr Tony Roberts, Penbont, a'r teulu yn eu profedigaeth o golli mam Mr Roberts ym Mhorthmadog.

SEINDORF: Gyda thristwch y derbyniwyd y newyddion am farwolaeth Joyce. Roedd yn aelod ffyddlon, parchus a phoblogaidd ac yn swyddog adloniant i'r Seindorf. Gweithiai'n ddistaw a phellach er budd y Seindorf. Bu'n dysgu egwyddorion cerddorol i rai o'r bobl ifanc yn llwyddiannus. Bydd gweld ei cholled nid yn unig gyda'r Seindorf ond yn yr ardal yn gyffredinol. Estynnwn ein cydymdeimlad tuag at Raymond, Colin a Peter a'r teulu oll yn eu profedigaeth.

TOMBOLA: Gohiriwyd rhifyn Tachwedd o'r Tombola. Bydd y nesaf yn cael ei chynnal ym mis Ionawr (dyddiad i'w benodi).

PROFEDIGAETH: Cydymdeimlwn â Mrs H. K. Hughes, Pant Afon, yn ei phrofedigaeth o golli ei mam. Bu'r angladd yn Sir Aberteifi ar Dachwedd 7.

CROESO'N OL: Rydym yn falch iawn o ddeall bod Dr John Martin, Fair Haven, ei wraig a'i ferch fach yn ddiogel wedi'r ddaeargryn ddiweddaraf yn San Francisco. Erbyn hyn, daeth gwaith Dr Martin i ben y yr Unol Daleithiau. Croesawn ef a'i deulu yn ôl i Gymru a dymunwn yn dda iddo yn ei waith yn Ysbyty'r Brifysgol, Caerdydd.

PWYLLGOR APEL YR URDD 1990: Bu'r casglyddion o amgylch rhan helaeth o'r ardal yn ddiweddar yn casglu at gronfa leol Llanrug a Cheunant. Cafwyd croeso arbennig ac ymateb rhagorol gennych. Gobeithiwn fod wedi galw ym mhob tŷ erbyn daw'r Eco i'ch llaw.

PLAID CYMRU: Enillwyr y Clwb Cant am fis Tachwedd oedd:
1 Gareth Roberts, Gregynog.
2 Hefin Jones, Pant Mwyn.

Cynhelir Cinio Nadolig y gangen nos Sadwrn Rhagfyr 2, yng ngwesty Gwynedd, Llanberis, gyda Dafydd Iwan yn ŵr gwadd.

Bydd cyfarfod mis Ionawr ar nos Fercher Ionawr 10 yn yr ysgol Gynradd pan drefnir cwis gydag aelodau cangen Bethel, a'r holwr fydd Arwel Jones.

Trefnir cyfarfod arbennig ar Chwefror 7 gyda Elfed Roberts y trefnydd yn rhoi anerchiad. Cofiwch am y dyddiadau yma.

Tristawn fel cangen o glywed y newydd am farwolaeth Joyce Jones, Bryn Fedwen, ac estynnwn ein cydymdeimlad ddiffuant iawn â Raymond Jones a'r meibion yn eu profedigaeth.

Cydymdeimlwn yr un mor ddiffuant â Selwyn Lloyd, Afallon, Bryn Moelyn yn ei brofedigaeth o golli ei Dad yn Abergele yn ddiweddar.

SIOE BYPEDAU: Bydd Sioe Bypedau Cwmni Cortyn yn cael ei chynnal yn neuadd yr Ysgol Gynradd rhwng 4.30 a 5.30 nos Fawrth,
Rhagfyr 19. Enw'r sioe yw Wmffra Eliseus a Pero. Ysgrifennwyd y sgript gan Angharad Tomos ac ynddi ceir hanes Wmffra Eliseus yn ceisio ymuno â'r Syrcas. Mae'r sioe yn addas ar gyfer plant hyd at 8 oed. Pris y tocynnau yw £1 ac y maent ar gael gan Maureen, Pat ac Ann yn yr Ysgol Feithrin neu gan Elsie Owen a Gwenda Roberts.

FAIR NADOLIG: Cynhelir Ffair Nadolig yr Ysgol Feithrin nos Fawrth, Rhagfyr 12fed am 7 o'r gloch. Bydd Siôn Corn yn galw heibio felly dewch uyn llu.

APÊL LOWRI: Bydd elw y Twba Lwcus (50 ceiniog y tro) yn Ffair Nadolig yr Ysgol Feithrin yn cael ei roddi tuag at Apêl Lowri. Byddem yn ddiolchgar iawn o dderbyn anrhegion wedi eu lapio i'w rhoi yn y twba.

DIOLCH: Dymuna Selwyn Lloyd a'r teulu, Afallon, Bryn Moelyn, ddiolch o galon i gymdogion a ffrindiau am bob arwydd o gydymdeimlad ar farwolaeth ei dad yn Abergele yn ddiweddar. Diolch hefyd am y rhoddion er côf tuag at apêl y Strôc.

CYDYMDEIMLO: Cydymdeimlir â Mrs Awen Davies, Stad Talybont a'r teulu yn eu profedigaeth o golli tad Mrs Davies yn Rhosgadfan.

CINIO NADOLIG

Estynnir gwahoddiad gan y Pwyllgor Carnifal i bensiynwyr Llanrug a Tan-y-Coed i Barti Nadolig yn yr Ysgol Gynradd nos Iau, Rhagfyr 14 am 7 o'r gloch. Os am dderbyn y gwahoddiad rhoddwch eich enw yn y llyfr sydd i'w weld yn y Swyddfa Bost.

Bydd angen i'r gwesteion ddod a chyllell a fforc a llwy.

CRONFA LOWRI: Ar ddydd Sadwrn, Tachwedd 4ydd, aeth nifer o ferched ieuanc yr ardal o amgylch mewn gwisgoedd ffansi i gasglu arian i'r apêl uchod. Maent yn dymuno diolch i bawb a gyfrannodd yn enwedig Carol Williams, Fancy Dress Hire, Bangor, Rochelle's Restaurant, Caernarfon, yr holl dai tafarnau a'r Dome. Casglwyd swm o dros £400.

Yn y llun gwelir y merched yn eu gwisgoedd ffansi, sef Jacqueline a Carys Pugh, Carol Williams, Amanda McGuinness, Wendy Morris, Julie Morris, Janet Roberts, Sharon White, Bet Wyn Jones, Karen Jones, Lona Roberts, Sian Wyn Jones a Debbie Ellis.

Mrs Eileen Jones, Telecom, gyda plant Safon 4.

YR YSGOL GYNRADD: Bu mis Tachwedd yn dra phrysur yn yr ysgol gydag amrywiaeth o weithgareddau.

Llongyfarchiadau i Mark Parry, safon 4, am ddod yn drydydd mewn cystadleuaeth arlunio 'Tân Gwyllt' a drefnwyd gan y Ford Gron, Caernarfon.

Cafwyd diwrnod arbennig yn Adran y Babanod lle'r oedd pob plentyn wedi ei wisgo mewn coch. Roedd hyn yn rhan o'u gwaith ar y stori 'Diffodd yr Haul.'

Cafwyd dau gyfarfod o'r Urdd y mis hwn. Daeth Mr Islwyn Jones, Bryn Moelyn, atom i ddathlu Calan Gaeaf. Bu'n beirniadu nifer o gystadleuthau yno. Diolch yn fawr iddo. Mewn cyfarfod arall aeth aelodau'r Urdd yr holl ffordd i Kenya yn Affrica heb symud cam o'r neuadd. Gyda chymorth sleidiau cawsant noson ddiddorol iawn yng nghwmni Miss Gwen Jones, Ysgol Cadnant, Conwy.

Aeth tîm nofio'r Urdd i Fangor i gystadlu yng Ngala Nofio Rhanbarth Eryri. Cawsant noson Iwyddiannus iawn ac am y tro cyntaf erioed hwy yw Pencampwyr Eryri eleni! Llongyfarchiadau i bob aelod o'r tîm a dymunwn yn dda iawn i Eifion Jones, Safon 2 a'r pum tîm cyfnewid o dan 10 oed a than 12 oed fydd yn cynrychioli'r Sir yn y Gala Genedlaethol ym Mangor ym mis Rhagfyr.

Bu tîm peldroed a phêl rwyd yr ysgol yn fuddugol eto'r mis hwn. Ysgol Dolbadarn, Llanberis, oedd eu gwrthwynebwyr y tro hwn. Dyma'r canlyniadau. Pêl rwyd: Llanberis 5, Llanrug 15. Peldroed: Llanberis 2, Llanrug 4.

Bu safon 3 a safon 4 yn crwydro'r mis hwn. Cawsant fore ardderchog yn ymweld ag Arddangosfa Ynni Cymru yn Llanbris. Cawsant ymweld â'r Oriel a chael taith yn ôl i'r gorffennol. Yna i fewn i'r mynydd ac o amgylch gwaith y Cynllun Trydan. Diolch am y croeso gafwyd yn yr Oriel ac i Jean a Nia am ein tywys yn y bysiau.

Daeth Mrs Eileen Jones, cysylltydd cyfnewidfa Telecom i Safon 4 i sgwrsio'n ddifyr iawn am ei gwaith. Yna'n dilyn hyn, cafodd y plant ymweld â'r Gyfnewidfa ym Mangor. Roedd gan Telecom ddyddiau agored a threfnwyd arddangosfa ardderchog yno. Cawsom weld y cysylltwyr wrth eu gwaith a bu rhai o'r plant yn ddigon ffodus i gael ffonio Efrog Newydd ac Awstralia!

Cawsom Ffair Lyfrau arbennig o Iwyddiannus yn ystod y mis. Gwerthwyd gwerth £750 o lyfrau a bydd yr elw o £75 a wnaethpwyd yn mynd i Gronfa Apêl Lowri. Mae hi, erbyn hyn, yn Efrog Newydd ac wedi cael triniaeth. Anfonwn ein dymuniadau gorau a'n cofion anwylaf ati hi a'i rhieni yno.

APÊL LOWRI

LLANRUG (parhad)

MERCHED Y WAWR: Nos Fawrth, Tachwedd 21, aeth nifer dda o'r aelodau i weld cyflwyniad Cwmni Theatr Gwynedd o 'Enoc Huws' ar ffurf drama gerdd. Cafwyd noson dda a mwynhaodd pawb y perfformiad.

Er hyn, roedd tristwch mawr ymysg yr aelodau, oblegid ar fore Sul, Tachwedd 19, bu farw Mrs Joyce Jones. Roedd Joyce yn un o aelodau ffyddlonaf a mwyaf gweithgar y gangen, a hi hefyd oedd y trysorydd eleni. Bydd yn gadael bwlch mawr ar ei hôl. Anfonodd y llywydd, Mrs Ann Ifans, gydymdeimlad llwyraf y gangen a'i gŵr, Raymond, ei dau fab, ei mam a'i hunig chwaer, Jean, a'r teulu oll yn eu galar.

Cafwyd raffl ar y bws a'r enillydd oedd Mary Roberts.

DIOLCH:

Dymuna Eryl Jones, 7 Tal y Bont, Llanrug, ddiolch i bawb o sawl ardal ym Mro'r Eco am yr holl gardiau, rhoddion a'r anrhegion a dderbyniodd yn ystod ei arhosiad yn Ysbyty Gwynedd. Diolch o galon am bob caredigrwydd.

DIOLCH

APÊL MANON: Dymuna Pwyllgor Apêl Manon ddiolch o galon i holl drigolion yr ardal am gefnogi'r cyngerdd a gynhaliwyd yn Ysgol Brynrefail yr wythnos diwethaf.

Carem ddiolch i'r cyfan o'r artistiaid a roddodd eu gwasanaeth am ddim.

Anfonwn ein dymuniadau gorau a'n cofion anwylaf at Manon gan hyderu ei bod yn parhau i wella.

TAN-Y-COED

Gohebydd: Bethan Parry, Ael y Bryn. Ffôn 872 276.

CYDYMDEIMLWN â Mr Colin Jones, 2 Rhes Bryngwyn, ar golli ei fam yn ddiweddar.

CROESO adref o'r Ysbyty i Dafydd Thomas, mab Mr a Mrs J. Thomas, Tŷ Capel. Dymunwn wellhad buan iddo.

LLONGYFARCHIADAU i Siwan Humphreys, Pant, Bryngwyn, am ei llwyddiant yn Eisteddfod Ysgol Brynrefail.

LLONGYFARCHIADAU i Gwenan Mair Humphreys, Pant Bryngwyn am fod yn drydydd trwy Wynedd am nofio ar ei chefn mewn cystadleuaeth gan yr Urdd.

CINIO NADOLIG

Estynnir gwahoddiad gan y Pwyllgor Carnifal i bensiynwyr Llanrug a Than-y-Coed i Barti Nadolig yn yr Ysgol Gynradd nos lau, Rhagfyr 14 am 7 o'r gloch. Os am dderbyn y gwahoddiad rhoddwch eich enw yn y llyfr sydd i'w weld yn y Swyddfa Bost.

Bydd angen i'r gwesteion ddod a chyllell a fforc a llwy.

Brysiwch!
Archebwch eich
TWRCI NADOLIG
a'ch
CYW IÂR
a PHOB MATH O GIGOEDD ERAILL
YN AWR
gan
Wavell Roberts CIGYDD
LONDON HOUSE LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 3574
PEN CIGYDD Y FRO
Mynnwch y gorau a dewch atom ni!

YSTORFA LLANRUG
(Richard a Meirwen Williams)
Ffôn: Caernarfon 2790
Ar agor:
Llun - Gwener: 7.30 - 6
Sadwrn: 8 - 5
Sul: 9 - 12
Eich siop leol hefo'r oriau hwylus

CYNGERDD APÊL LOWRI
Neuadd Ysgol Brynrefail, Llanrug
Nos lau Rhagfyr 7ed
Drysau ar agor 6.30. Dechrau am 7.00
Artistiaid
★ Plant Ysgol Gynradd Llanrug
★ Hogia Glantraeth ★ Seindorf Llanrug
★ Lleisiau Rhyd ★ George Parry Quintet
★ Arweinydd: Alwyn Sion
Pris Mynediad Plant 50c, Pensiynwyr £1, Oedoilion £1.50
Tocynnau ar werth:- Llanberis: Mrs Mair Roberts (Syrjeri); Cwm y Glo: Mrs Vera Price; Llanrug: Gwenda (C'fon 3977) neu (C'fon 5088)

CAEATHRO

Gohebydd: Mrs Beryl Roberts, Gerallt, Erw Wen. Caernarfon 3536

CYNGOR CYMUNED: Cynhaliwyd cyfarfod o'r Cyngor yn y Ganolfan, Waunfawr, nos Fercher, Hydref 17. Roedd Heddwas Thomas, plismon bro yr ardal yn bresennol. Ers i'r siop ar y gornel ail-agor mae'r broblem parcio wedi gwaethygu. Penderfynwyd ail-ofyn i'r Cyngor Sir am linelli dwbl melyn i geisio datrys y broblem. Gan fod nifer o bobl ifanc y pentref heb weld heddwas ar droed yn y pentref, gofynnwyd i Heddwas Thomas gerdded ein strydoedd o dro i dro.

Mae'r Cyngor Sir wedi cyfaddef fod yr wyneb newydd ar y briffordd drwy'r pentref yn beryglus ac yn llithrig. Deallwn fod Syrfewr y Sir yn archwilio'r sefyllfa er mwyn ceisio datrys y broblem. Ceisiwn c hyd gael cyfarfod i ddatrys y broblem sbwriel yn yr adwy ar hyd hen ffordd Pontrug.

Rhoddwyd £100 at gronfa Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru, Dyffryn Nantlle ac Arfon, 1990. Tynnwyd sylw Cyngor Bwrdeistref Arfon at y defnydd o gerrig ffug i ail-adeiladu'r wal bob ochr i fynedfa Stad Glandŵr. Gan fod y cyfforddd rhwng lôn bach Prysgol a'r briffordd i Waunfawr ar Bencefn yn beryglus, penderfynwyd tynnu sylw Cyngor Sir Gwynedd at y broblem.

Clerc newydd y Cyngor yw Mr O. T. Jones, Bryn Gwenallt, Waunfawr.

CYDYMDEIMLWN â Mrs Margaret Lovell a'r teulu ar golli modryb yng Nghaernarfon.

GER-Y-TÂN: Bydd y Cinio Nadolig yn cael ei gynnal nos Fercher, Rhagfyr 6 yn Tyn Llan. Bydd croeso i'r gwŷr ymuno eleni am noson o hwyl.

LLONGYFARCHIADAU i Delyth Lyn Jones, Llety'r Wennol, ar ei phenblwydd yn 21, ac ar ei dyweddiad â Iwan Thomas o Rostryfan.

CARTREF NYRSIO NEWYDD

Efallai y bydd tafarnau Arfon yn aros ar agor ar y Sul ond y mae'r Snowdonia County Club ym Mhenisarwaun wedi cau ei ddrysau am byth. Ac ar ddechrau Rhagfyr, agorir Cartref Nyrsio Penisarwaun mewn adeiladau newydd ar yr un safle.

Metron y cartref fydd Cheryl Williams. Yn enedigol o Fethesda, bu'n byw yn Neiniolen ers saith mlynedd. Ei gŵr ydi plismon y pentref, David Williams.

Medd Cheryl, "Mae'r cartref nyrsio'n fodern iawn – toliedau a stafelloedd molchi, pwyntiau teledu a ffôn a system alw nyrs 24 awr ymhob stafell. Mi fydd y gegin yn gwneud bwyd blasus cartrefol ac yn medru cwrdd â gofynion deiet arbennig. Mewn cartref nyrsio edrychir ar ôl pob! o bob oed sydd angen gofal cyson. Mae yma 32 o welyau i gyd, gyda phob stafell ar yr un lefel.'

Perchnogion y cartref newyd yw Margaret a Denis Jordan sy'n hannu o Ganolbarth Lloegr. Medd Margaret Jordan: 'Buom yn dod i'r ardal ers blynyddoedd gan fod y gŵr yn aelod o glwb dringo lleol. Fe gynlluniwyd y cartref gennym ein hunain, gan ddilyn gofynion yr Awdurdod iechyd.' Bu pedwar o'u plant yn gyfrifol am y gwaith adeiladu.

Mae gan Mr a Mrs Jordan brofiad helaeth o redeg cartrefi preswyl, ac felly hefyd y Rheolwr Cyffredinol, Tom Robson, a fu'n Swyddog â Gofal (Officer in Charge) gyda Chyngor Solihull am 17 mlynedd.

Ychwanega Mrs Jordan: 'Er mwyn cael awyrgylch Cymreig yn y cartref roedd yn bwysig inni gyflogi Cymraes leol fel Metron. Pan fydd y cartref yn llawn cyflogir 32 mewn swyddi rhan amser fel nyrsus cynorthwyol, staff gofal, glanhawyr, cogyddesau ac ati.'

'Rydym yn gobeithio y daw caniatad terfynol yr Awdurdod Iechyd trwodd mewn pryd i'r cartref agor ar 3 Rhagfyr.'

R.J.R.

Dyddiadur y Mis

Rhagfyr

1. Sul: LLANBERIS: Capel Coch. Cyngerdd gan Côr y Traeth. 7.30.
DEINIOLEN: Ffair Nadolig Plaid Cymru yn Ysgol Gwaun Gynfi 7 o'r gloch. Bydd Siôn Corn yno.
DEINIOLEN: Bingo yn ystafell y Seindorf, 8 o'r gloch.
LLANBERIS: Te yr Henoed.
YR ARDAL: Clwb Eryri yng Ngwesty Gwynedd, Llanberis.
WAUNFAWR: Ffair Nadolig Plaid Cymru yn y Ganolfan am 6.30.

2. Sadwrn: BETHEL: Plaid Cymru. Stondin Bwyd Cartref ar Faes Caernarfon. 10 am.
DINORWIG: Ffair Nadolig yn yr Hen Ysgol am 10.30. Bydd Siôn Corn yno.
LLANRUG: Plaid Cymru. Cinio Nadolig yng Ngwesty Gwynedd, Llanberis, gyda Dafydd Iwan yn ŵr gwadd.

4. Llun: DEINIOLEN: Sefydliad y Merched.

5. Mawrth:DEINIOLEN: Undeb y Mamau, 7.00 pm.
DINORWIG: Eisteddfod Bentref yn y Ganolfan, 6.30.
PENISARWAUN: Yr Urdd. Noson yng ngofal Selwyn Jones.
LLANRUG: Hafan Elan, Undeb y Mamau, 7.00 pm.

6. Mercher: LLANRUG: Capel Mawr, Y Gymdeithas Lenyddol.
WAUNFAWR: Yr Urdd, Noson Garolau 6.00pm.

7. Iau: WAUNFAWR: Sefydliad y Merched.

8. Gwener: DEINIOLEN: Bingo yn ystafell y Seindorf, 8.00.
DEINIOLEN: Apêl yr Urdd, Cawl a Chân yn Ysgol Gwaun Gynfi, 7.00.
CAERNARFON: Sefydliad y Merched, Gwyrfai, Noson Garolau yng nghapel Beulah.
WAUNFAWR: Gyrfa Chwist yn y Ganolfan, 7.30.

11. Llun: BRYNREFAIL: Sefydliad y Merched, Cinio Nadolig.
WAUNFAWR: Cymdeithas Lenyddol, darlith gan Geraint Lloyd Owen.

12. Mawrth: LLANRUG: Merched y Wawr, Cinio Nadolig.
PENISARWAUN: Yr Urdd, noson yng ngofal Phyllis Ellis.
LLANRUG: Ffair Nadolig yr Ysgol Feithrin am 7 o'r gloch. Bydd Siôn Corn yno.

13. Mercher: CWMYGLO: Gyrfa Chwist Nadolig yn yr Ysgol Gymuned am 7.15. Mynediad 75c.
WAUNFAWR: Yr Urdd, Disgo Nadolig.
BETHEL: Merched y wawr, Parti Nadolig yn neuadd yr Ysgol.

14. Iau: LLANRUG: Parti Nadolig i'r Pensiynwyr yn yr Ysgol Gynradd, 7.0.
PENISARWAUN: Noson Wasael gan Bwyllgor y Neuadd.

15. Gwener: DEINIOLEN: Bingo yn Ystafell y Seindorf, 8.00.
LLANBERIS: Te yr Henoed.
DEINIOLEN: Cyfarfod Blynyddol y Ganolfan yn y Neuadd, 7.30.
PENISARWAUN: Gwasanaeth Nadolig Ysgol Tanycoed yn Eglwys Santes Helen am 6.00

17. Sul: DEINIOLEN: Gwasanaeth Nadolig gan blant yr Ysgol yng nghapel Ebeneser, 2.00.
PENISARWAUN: Eglwys Santes Helen, Gwasanaeth Cristingl, 4.30.
LLANRUG: Capel Mawr, Gwasanaeth Nadolig Plant yr Ysgol Sul am 10 y bore.

18. Llun: CWMYGLO: Gwasanaeth Carolau yr Ysgol yng nghapel Tabernacl am 6.30.
LLANRUG: Capel Mawr, Te Parti Nadolig Plant yr Ysgol Sul, 3.30.

19. Mawrth: LLANRUG: Sioe Bypedau yn yr Ysgol Gynradd am 4.30. Mynediad £1.

20. Mercher: LLANRUG: Capel Mawr, Y Gymdeithas Lenyddol o dan ofal Nancy Lovatt.
PENISARWAUN: Yr Urdd, Parti Nadolig yn Neuadd yr Eglwys o 6-7 pm.

24. Sul: PENISARWAUN: Eglwys Santes Helen, Cymun Bendigaid, 11.45 yr hwyr.

25. Llun: Nadolig Llawen i bawb!

1990

1. Llun: Blwyddyn Newydd Dda!

25. Iau: LLANRUG: Noson Goffi, elw at Eglwys Sant Mihangel.

LLANBERIS

Parhad o dudalen 26

ALAN ELLIS: Dydd Sul,Hydref 15 aeth Alan i lawr i Merthyr Tydfil ar ei ymddangosiad cyhoeddus cyntaf i chwarae Pool i Gymru B. Enillodd 2 gêm allan o 3. Parodd ei gêm gyntaf 40 munud. Yr oedd y chwarae diogelwch yn dda dan y ddau chwaraewr, ond potiodd Alan y dair pêl ddiwethaf yn dda i ennill y gêm. Ni wnaeth yr ail gênm barhau cyhyd, ac fe enillodd Alan eto. Yn anffodus, collodd y drydydd gêm.

Yr oedd rheolwr tîm Cymru B yn foddhaus iawn gydag Alan ac y mae yn chwarae i'r tîm eto mis nesaf. Cafodd Alan wobr 'Man of the Match' gan reolwr tîm St Tydfil.

Ar Dachwedd 5 roedd Alan yn chwarae ym Mhort Talbot ac enillodd ddwy gêm allan o ddwy. Bu'n chwarae eto yn Llambed ddydd Sul Tachwedd 26, i Cymru B yn erbyn Cymru A.

MAE'R
SAMARIAID
YN GWRANDO,
YN ABBEY ROAD

BANGOR
354646

AM DEITHIAU CYFFORDDUS, DIOGEL A RHAD YM MHRYDAIN A THRAMOR ...

BYSIAU ARFON
LLANRUG
(Eric Morris)
Ffôn: Caernarfon 5175 77858

Ar fin agor yn y fro ...

CARTREF NYRSIO PENISARWAUN

★28 Stafell Wely Sengl gyda thy bach a lle ymolchi
★2 Stafell Wely Ddwbl gyda "en suite" (delfrydol i barau priod)
★Gwres canolog llawn
★Sustem ddiogelu rhag tân
★Eisteddfa fawr gyfforddus efo teledu lliw
★Sustem alw nyrs
★Yn Cwrdd â phob angen personol
★Lle bwyta mawr ★Aros cyfnod hir/byr
★Gofal 24 awr y dydd gan staff proffesiynol
★Croesawir rhai gyda cymorth D.H.S.S.
★Ymwelwyr yn cael galw unrhyw adeg
★Coginio cartefol
★Metron a staff sy'n siarad Cymraeg
★Ar lwybrau bws o Fangor a Chaernarfon

Am fanylion pellach cysylltwch â'r
Metron Cheryl Williams, Ffôn 872038.

★ Disgwylir agor ar 3 Rhagfyr 1989.

CWRS CYMRAEG DRWY'R POST
YR ANRHEG BERFFAITH
MAE'R CYRSIAU COHEBOL A GANLYN AR GAEL NAWR:

Cwrs Ysgrifennu Cymraeg
Cwrs Ysgrifennu Cymraeg cywir mewn sefyllfaoedd ymarferol

Cwrs Aelwyd ac Ysgol
Cwrs i rieni sydd wrthi'n dysgu Cymraeg

Cwrs Gohebol Cymraeg 1
Cwrs i ddechreuwyr/*a course for complete beginners*

Cwrs Gohebol Cymraeg 2
Cwrs pellach/ *An intermediate course*

Am fanylion pellach cysylltwch â:
Swyddog Datblygu'r Gymraeg, Canolfan Astudiaethau Iaith, Politechnig Cymru, Pontypridd, Morgannwg Ganol CF37 1DL
Rhif ffôn: 0443 480480

POLITECHNIG CYMRU

CHWARAEON

RASIO BEICIAU

Bu tymor 1989 yn un llwyddianus i Gerallt Bryfdir o Fethel ym myd rasio beics. Gorffennodd y tymor gyda'i ddwy orchest orau, sef yn gyntaf torri record cwrs Pentir drwy gyflawni y ddeg filltir mewn amser o 23 munud 2 eiliad. Bu'r record yn sefyll ers y saithdegau ond ymddengys i Gerallt wella arni o dros ddeunaw eiliad ac yntau ond newydd gael ei benblwydd yn un ar bymtheg oed fis ynghynt.

Daeth yn gyntaf yn y ras agored i fyny Bwlch Llanberis ar y 1af o Hydref ac yna yr wythnos ganlynol, daeth yn wythfed allan o 108 ar râs i fyny Bwlch yr Oernant (Horseshoe Pass), ger Llangollen, yn erbyn goreuon y wlad. Ef oedd y cyflymaf o dan ddeunaw oed a dim ond saith o reidwyr noddedig a'i curodd yn cynnwys Chris Boardman a Norman Hughes. Nid oedd ond dwy eiliad y tu ôl i Norman Hughes sydd yn reidio i dîm Cymru yn Chwaraeon y Gymanwlad yn Seland Newydd yn Ionawr.

Bu hefyd yn cynrychioli ei ysgol, sef Ysgol Brynrefail, ym mis Mai yn y Liverpool District Final yn Bickerstaffe, lle y trechodd y llynedd, gan ddod yn ail er iddo fod mewn damwain yr wythnos honno, ac o ganlyniad aeth ymlaen i'r National Championship Final yn Warminster a llwyddo i ddod yn chweched trwy'r wlad allan o 120 o reidwyr.

Bu'n llwyddiannus mewn nifer fawr o gystadleuthau eraill drwy'r haf gan ennill cystadleuaeth handicap Clwb Seiclo Eryri am yr ail flwyddyn yn olynol drwy ennill yn llwyr 18 o'r treialon amser allan o'r 23 a gynhaliwyd. Ni fu yn cystadlu mewn 4 oherwydd arholiadau ac yn anffodus methodd a chwbwlhau un oherwydd damwain.

Ef hefyd enillodd gystadleuaeth Cymdeithas Seiclo Gwynedd, a seiliwyd ar dair râs agored, drwy ddod yn ail mewn dwy ac yn gyntaf mewn un a gynhaliwyd dros 33 milltir yn Eryri.

Mae tymor y Gaeaf yn caniatáu iddo ymlacio ychydig yn awr ond pery yr ymarfer ar raddfa ychydig yn llai er hynny ar gyfer y flwyddyn nesaf.



PYSGOTA Adroddiad H. P. Hughes

Er fod yr haf sych wedi cyfyngu'r Eog a'r Sewin i'r Fenai am wythnosau lawer, pan ddaeth y cyfle iddynt redeg yr afonydd yn nechrau Hydref, ni wastraffwyd amser ganddynt, a gwelais, ar y 29 o Hydref y cladd cyntaf ym Mhenllyn. Dyma'r cynharaf ers 1979, pan ddechreuais gadw cofnodion.

O ganol Tachwedd ymlaen bu'r claddu yn prysuro yn aruthrol gyda'r gro ym Mhenllyn, Stablau, Caledffrwd ac yn Nant Peris, yn edrych fel pe buasai rhyw beiriant wedi bod yno yn aredig, dyma un o wyrthiau natur, yn cymeryd lle ar riniog ein drysau. Faint ohonoch, heblaw y sgotwrs, sydd yn ymwybodol o hyn? Meddyliwch mewn difrif am y creadur bach yma yn deori yn nyfroedd Eryri, ac ar ôl dwy flynedd yn ein hafonydd a'n llynnoedd yn gwneud ei ffordd i'r môr ac yna yn nofio i'r dyfroedd yng nghyffiniau Ynys yr Iâ, bwydo yno a thyfu o fod yn 4 oz i 7 neu 8 lbs mewn llai na blwyddyn yno.

Gwna'r creadur yma ei ffordd yn ôl wedyn i'r afon ple 'i ganwyd ac fel arfer i'r man lle ei ddeorwyd i'r pwrpas i ail-eni ei fath.

Bydd Cyfarfod Blynyddol y Gymdeithas yn cael ei gynnal yng Ngwesty'r Royal, Caernarfon, am 7 o'r gloch, nos Iau, 14 Rhagfyr. Dyliai pob aelod wneud ymdrech i ddod, gan fod nifer o faterion pwysig ynglŷn âg aelodaeth, a.y.b., i'w trafod.

Llongyfarchiadau i Dewi Jones, Bethel, am ennill ei ffordd i'r tîm cenedlaethol a fydd yn cystadlu yn y bencampwriaeth i'r anabl rhyngwladol yn 1990.

Rhedeg Traws Gwlad

Daeth mwy o lwyddiant yn ystod mis Tachwedd i Colin Jones o Bontrug ym myd rhedeg Traws Gwlad.

Ym mhencapwriaeth Ysgolion Cymru a gynhaliwyd yn y Drenewydd ar y 18fed, bu'n fuddugol yn y râs i fechgyn dan 18 oed, perfformiad arbennig o gofio nad yw Colin ond pymtheg oed. Fe'i anrhegwyd â medal hardd am ei gamp, ac mae'n fwy na thebyg y bydd ei orchest yn ddigon i sicrhau ei le iddo yn nhîm Cymru eto eleni.

Yna, y Sadwrn diwethaf, y 25ain, fe enillodd bencampwriaeth agored Gwynedd, a gynhaliwyd ar dir Treborth.

TIMAU DAN 16 OED

Cyfle'r mis hwn i ddangos lluniau dau o dimau dan 16 oed yr ardal. Gobeithir cynnwys llun hogia Deiniolen y mis nesaf.

Yng ngharfan Llanberis, a welir uchod, y mae Cai Williams, Kevin Edwards, Kelvin Houston, Anthony Rogers, Paul Roberts, Steven Nisbet, Colin Griffiths, Jason Jones, Llifon Foulkes, Shane Price, Gwynant Maxwell, Ian Hughes, Steven Edwards, Edward Rogers, Derfel Owen, Aled Hughes ac Arfon Owen. Geraint Jones yw'r rheolwr.

Mae carfan Llanrug, yn cynnwys Bryn Jones, Huw Humphreys, Sion Roberts, Kevin Williams, Kevin Tame, Osian Gwynedd, Meical Owen, Arwel Bowie Jones, Dyfed Whiteside Thomas, Gethin Parry, Iolo Eilian, Bedwyr Evans ac Aled Griffiths. G. P. Jones (Max) yw'r rheolwr.

PÊLDROEDWYR ADDAWOL

Bu Ian Hughes o Lanberis a Gavin Allen o Ddeiniolen yn chwarae i dîm ysgolion Arfon dan 15eg oed ar gaeau Ysgol Brynrefail yn erbyn Sir Fôn ar yr 22ain o'r mis. Fe chwaraeodd y ddau yn hynod o dda mewn buddugoliaeth o 3 gôl i 2, gyda Gavin yn sgorio ddwywaith. Yna, y Sadwrn diwethaf fe sgoriodd ddwy gôl arall mewn buddugoliaeth o 4 gôl i 1 yn erbyn Ysgolion Arfordir Clwyd. Mae Gavin yn amlwg yn dilyn yn ôl traed Malcolm, ei frawd, sgoriwr aml yn nhîm Norwich a thros Gymru.

Mae Mark Williams o Lanberis wedi gadael yr ysgol bellach, ac yn fyfyriwr yn y Coleg Technegol ym Mangor. Mae'n aelod o dîm dan 18 oed Gogledd Cymru, ac fel chwaraewr canol cae bu'n allweddol yn ddiweddar mewn buddugoliaeth o 2 gôl i ddim i Wrecsam yn erbyn Canolbarth Cymru.

Yn y Drenewydd yn ystod y mis bu'n cynrychioli Gogledd Cymru eto yn erbyn y Canolbarth a'r De, ac fe'i dewiswyd i chwarae yn y treial terfynol i'r tîm cenedlaethol. Mae gobaith da ganddo am gap felly, yn enwedig o ystyried nad yw Mark ond 16 oed.

LLONGYFARCHIADAU

Llongyfarchiadau i Louise Murphy, a welir yn y darlun, am ennill gwobr o £50 ar gael ei dewis yn 'Sports Personality' mis Medi gan bapur newydd lleol. Fe'i gwobrwywyd am iddi gael ei dewis yn aelod o garfan tîm Hoci Genethod Gwynedd ac am sgorio'n gyson i dîm Caernarfon. Da iawn Louise!